

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 08/2010



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil i Addysg Uwch Ran- Amser: Y Ddarpariaeth a'r Galw

Ymchwil i Addysg Uwch Ran-Amser: Y Ddarpariaeth a'r Galw

Paratowyd gan Gareth Williams, Old Bell 3 Cyf.

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhannu'r farn honno o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Iorwerth Griffiths

Yr Is-adran Ymchwil Cymdeithasol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

Ffôn: 0300 062 5483

Ebost: iorwerth.griffiths@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

© Hawlfraint y Goron 2010

Cynnwys

Rhestr Tablau	4
Rhestr Byrfoddau	6
Cynodeb Gweithredol	7
Cefndir	7
Cyd-destun Polisi.....	7
Tystiolaeth o'r Dadansoddiad o'r Data.....	8
Tystiolaeth o'r Gwaith Maes	11
Casgliadau ac Argymhellion	13
1 Cyflwyniad.....	16
Diben yr Adroddiad	16
Cefndir	17
Methodoleg	20
Strwythur yr Adroddiad.....	21
2 CYD-DESTUN POLISI	22
Cyflwyniad.....	23
Y Cyd-destun Byd-eang ar gyfer Addysg Uwch	23
Polisi Addysg Uwch yng Nghymru ers Datganoli	27
Sylfeini Polisi	27
Rees, Graham, Webb a Jones	29
Datblygiadau Polisi Diweddar	37
Esblygiad polisi'r Deyrnas Unedig.....	44
Ymchwil Ddiweddar i Ddarpariaeth Ran-amser.....	50
3 PROFFIL CYFRANOGIAD RHAN-AMSER YN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH CYMRU	55
Patrymau a Thueddiadau mewn Cyfranogiad yn ôl Sefydliad, Pwnc, Nodau Cymhwyster, a Gwerthoedd Credyd	57
Patrymau a thueddiadau yn argaeledd gwahanol ddulliau astudio	71
Patrymau a Thueddiadau mewn Cyfraddau Cwblhau, Cyrchfannau Myfyrwyr a Bodlonrwydd	75

Patrymau a Thueddiadau mewn Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	80
4 SBARDUNAU A RHWYSTRAU DARPARIAETH RAN-AMSER:	
CANFYDDIADAU O'R GWAITH MAES.....	83
Beth mae Darpariaeth Ran-amser yn ei olygu?	85
Darpariaeth Ran-amser a Chenhadaeth SAU	89
Sbardunau Darpariaeth Ran-amser	93
Rhwystrau Darpariaeth Ran-amser	98
Barn am Gostau Cymharol, ac Incwm, o Ddarpariaeth Ran-amser	107
Sylwadau ar Alw nas Diwallwyd	110
Dulliau a Hyblygrwydd Darpariaeth	114
Cadw Myfyrwyr a Chefnogaeth Myfyrwyr	117
Effaith y Dirwasgiad: Gorffennol a Dyfodol.....	122
Cynlluniau Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer y Dyfodol.....	123
5 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION	127
Polisi Cyffredinol.....	131
Cyllid SAU	132
Darpariaeth i ateb galw cyflogwyr.....	132
Darpariaeth ran-amser a dysgwyr unigol.....	133
Ymchwil Bellach a Data.....	134

Rhestr Tablau

Tabl 1: Ymrestru (blwyddyn gron) yn SAU Cymru yn ôl modd astudiaeth	57
Tabl 2: Ymrestru Rhan-amser (blwyddyn gron) yn SAU Cymru yn ôl sefydliad ..	59
Tabl 3: Ymrestru Rhan-amser (blwyddyn gron) yn SAU Cymru yn ôl lefel astudiaeth	60
Tabl 4: Ymrestru Addysg Uwch Rhan-amser (blwyddyn gron) yn SAU Cymru yn ôl nod cymhwyster	61
Tabl 5: Ymrestru rhan-amser (blwyddyn gron) gan SAU Cymru yn ôl sefydliad a modd (2008/09).....	62
Tabl 6: Ymrestru rhan-amser (blwyddyn gron) yn SAU Cymru yn ôl sefydliad a rhyw	64
Tabl 7: 2008/09 Ymrestru Addysg Uwch (blwyddyn gron) yn SAU Cymru yn ôl Oedran a Dull.....	66
Tabl 8: Cynllun Hepgor Ffioedd	67
Tabl 9: Ymrestru Addysg Uwch (blwyddyn gron) yn SAU Cymru yn ôl Anabledd	67
Tabl 10: Ymrestru Addysg Uwch Rhan-amser (blwyddyn gron) yn SAU Cymru yn ôl pwnc.....	69
Tabl 11: Ymrestru Addysg Uwch, cyfwerth â llawn-amser a gwerthoedd credydau (yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru)	70
Tabl 12: Myfyrwyr rhan-amser yn ôl lleoliad astudiaeth (2008/09).....	71
Tabl 13: Myfyrwyr Rhan-amser yn SAU Cymru yn ôl statws ffransais a dull 2008/09.....	73
Tabl 14: Dulliau cyrsiau a ddarperir gan SAU	74
Tabl 15: Nifer dysgwyr addysg uwch rhan-amser sydd wedi ymrestru mewn SAU	75
Tabl 16: Cyfraddau cwblhau modiwl: israddedigion rhan-amser 2007/08.....	76
Tabl 17: Cyrchfannau myfyrwyr – Canran cymhwyswyr yn ôl gweithgaredd a dull astudio, 2007/08	77
Tabl 18: Canran cymhwyswyr mewn cyflogaeth daledig lawn-amser yn ôl natur cyflogaeth (2007/08)	78
Tabl 19: Cyflogau canolrif cymhwyswyr gradd gyntaf gyda'u cartrefi yn y DU mewn cyflogaeth lawn-amser yn y DU (2007/08) (£oedd)	79

Tabl 20: Cyfran Myfyrwyr yn Fodlon gyda'r Cwrs (Arolwg NSS 2009).....	80
Tabl 21: Myfyrwyr gyda pheth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl dull astudio	80
Tabl 22: Myfyrwyr gyda pheth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl sefydliad 2008/09.....	81

Rhestr Byrfoddau

CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
DIUS	Adran Arloesedd, Prifysgolio a Gwyddoniaeth Llywodraeth y DU
DLHE	Cyrchfannau Ymadawyr o Addysg Uwch
FfCChC	Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
HEBCIS	Arolwg Rhyngweithio Busnes a Chymunedol Addysg Uwch
HEFCE	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr
HESA	Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
HNC	Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch
NASMA	Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Arian Myfyrwyr
NIACE	Sefydliad Cenedleathol Cymdeithas Barhaol Oedolion
NSS	Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr
NTFW	Ffederasiwn Cenedlaethol Hyfforddiant Cymru
NUS	Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr
OECD	Sefydliad Cydweithredu a Datblygiad Economaidd
QAA	Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd
SAU	Sefydliad Addysg Uwch
SMU	Prifysgol Fetropolitan Abertawe
SSC	Cyngor Sgiliau Sector
STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg
UCAS	Gwasanaeth Derbyniadau Canolog Prifysgolion
UWIC	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

1. Comisiynwyd yr adroddiad hwn ar y cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr 2010 i 'helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddynodi lle medrai fod angen iddi weithredu i gynnal a chynyddu cyfranogiad llwyddiannus mewn addysg uwch ran-amser yng Nghymru'. Roedd amcanion manwl yr astudiaeth yn cynnwys y gofyniad i adolygu nodweddion darpariaeth ran-amser a chyfranogiad yng Nghymru, yn cynnwys tueddiadau dros gyfnod; ystyried tystiolaeth yng nghyswllt tueddiadau'r dyfodol a galw nas diwallwyd ac ymchwilio sut mae Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yn penderfynu ar hyn o bryd pa ddarpariaeth i'w chynnig ar sail ran-amser a lefel y ffioedd i'w codi am ddarpariaeth o'r fath.
2. Mae'r ymchwil wedi cynnwys dadansoddiad eilaidd o setiau data perthnasol, adolygiad o ddogfennau polisi allweddol a deunydd i daflu goleuni ar yr hyn sy'n sbarduno a'r cyd-destun ar gyfer, darpariaeth ran-amser addysg uwch yng Nghymru a gwaith maes gyda thua 37 o randdeiliaid o 11 o SAU Cymru a sefydliadau perthnasol eraill.

Cyd-destun Polisi

3. Mae SAU Cymru yn gweithredu o fewn cyd-destun marchnad addysg uwch fyd-eang gynyddol ond gystadleuol, lle mae hyblygrwydd yn nhermau darpariaeth yn dod yn gynyddol bwysig. Mae newid demograffig, gyda'r galw cynyddol am sgiliau lefel uwch a'r angen cynyddol i'r rhai o fewn y gweithlu presennol i ddiweddarau eu sgiliau yn unol â newid cyflym mewn technoleg a chymdeithas, yn arwain at fwy o bwyslais ar ddarpariaeth sy'n diwallu anghenion ystod llawer ehangach o ddysgwyr na'r ymadawyr ysgol 'traddodiadol'.
4. O fewn y Deyrnas Unedig, mae dysgu rhan-amser eisoes yn cynrychioli tua 40 y cant o bob ymrestriad o fewn SAU. Fodd bynnag, mae darpariaeth ran-

amser yn amrywiol, gyda phresenoldeb cryf o ddysgu galwedigaethol a phroffesiynol wrth ochr unigolion sy'n dewis dilyn cymwysterau israddedig neu ôlraddedig mwy traddodiadol ar sail ran-amser. Mae Adolygiad King (2008) o addysg uwch ran-amser yn awgrymu, er y gwnaed llawer o gynnydd yn cynnwys fel canlyniad galw gan ddysgwyr unigol am fwy o hyblygrwydd, bod darpariaeth ran-amser yn dal yng nghysgod dysgu llawn-amser mwy traddodiadol.

5. O fewn Cymru, mae polisi ers datganoli wedi tanlinellu pwysigrwydd darpariaeth ran-amser wrth gyflawni dwy nod allweddol polisi addysg uwch: ehangu mynediad i rannau o'r boblogaeth nad ydynt yn draddodiadol wedi manteisio ar addysg uwch a diwallu anghenion cyflogwyr yn nhermau cynyddu sgiliau'r gweithlu. Soniodd cyfres o adolygiadau annibynnol (yn arbennig Adolygiad Rees, Adolygiad Graham ac yn fwyaf diweddar yr Adolygiad dan arweiniad yr Athro Merfyn Jones) bwysigrwydd sicrhau nad yw newidiadau i ariannu addysg uwch a chyllid myfyrwyr yn tanseilio hyfywedd darpariaeth ran-amser. Yn fwy diweddar, mae *'Er Mwyn Ein Dyfodol'*, strategaeth addysg uwch newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi pwysleisio'r angen am system addysg uwch yng Nghymru sy'n llawer mwy ymatebol i'r newid yn y galw gan unigolion a chyflogwyr, gyda dimensiwn rhanbarthol cryf a mwy o bwyslais ar ail-gyflunio a chydweithredu rhwng SAU.


Tystiolaeth o'r Dadansoddiad o'r Data

6. Er bod ffigurau pennawd yn awgrymu y bu cynnydd cyson yn nifer a chyfran y myfyrwyr rhan-amser sy'n ymrestru ar gyfer addysg uwch, mae hyn i raddau helaeth oherwydd yr arfer cymharol ddiweddar o gynnwys dysgwyr Cymraeg i Oedolion yn y data ymrestru, sydd fel arfer yn astudio ar lefelau dan lefel israddedig ('addysg bellach'). Ar ôl cynnydd cyflym ym mlynnyddoedd cyntaf y degawd, gostyngodd cofrestriadau israddedig rhan-amser o uchfaswm o 44,985 ers 2004/5, er yr ymddengys y bu hyn yn rhannol yn ganlyniad gostyngiad yn nifer y myfyrwyr yn dilyn cyrsiau llai dwys, gan y bu nifer credydau yn gyffredinol yn cynyddu mewn blynyddoedd diweddar.

7. Mae cryn amrywiaeth yn SAU Cymru yn nhermau rôl darpariaeth ran-amser. Mae ymrestru 'addysg bellach' yn elfen allweddol yn narpariaeth nifer o SAU, megis Abertawe, Aberystwyth, Bangor, Caerdydd a Morgannwg ond heb fod fawr o bwys i SAU eraill. Mae pedwar SAU yng Nghymru (y Brifysgol Agored yng Nghymru, Morgannwg, Glyndŵr a Phrifysgol Cymru, Casnewydd) gyda'i gilydd yn cyfrif am fwy na 60% o'r ddarpariaeth addysg uwch ran-amser yng Nghymru, er y bu'r gyfran o ymrestriadau rhan-amser o gymharu â'r holl ymrestriadau yn gostwng ym mhob un o'r rhain, ac eithrio'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

Siart 1: **Ymrestriadau yn SAU Cymru (nifer)**

Siart 2: **Cyfanswm Nifer Credydau Rhan-amser**



8. Mae cyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser na myfyrwyr llawn-amser yn fenywod (er bod hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng SAU), ac mae myfyrwyr rhan-amser yn gyffredinol yn hŷn, gyda 71% rhwng 25 a 59 oed a dim ond 8% yn 20 oed ac iau (gyda'r ffigurau cyfatebol ar gyfer myfyrwyr llawn-amser yn 19% a 53%). Mae pedwar maes pwnc - leithoedd, Addysg, Busnes ac Astudiaethau Gweinyddol, ac Astudiaethau Cymdeithasol - yn cyfrif am tua 50% o bob ymrestriad rhan-amser, er y bu hyn yn gostwng dros gyfnod.
9. Er yr ymddengys fod Cymru'n llwyddiannus wrth recriwtio myfyrwyr llawn-amser o ardaloedd gyda chyfranogiad cyffredinol isel mewn addysg uwch, mae hyn yn llai gwir am fyfyrwyr aeddfed rhan-amser.

10. Yn yr un modd, er bod Cymru yn gyffredinol yn 'fewnforiwr' net o fyfyrwyr, nid yw hyn yn wir am gyrsiau dysgu o bell, lle mai cyfran cymharol fach o fyfyrwyr rhan-amser seiliedig yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau a gyflenwir gan SAU Cymru. Heb gyfrif y Brifysgol Agored yng Nghymru, mae mwyafrif helaeth myfyrwyr rhan-amser yn SAU Cymru mewn darpariaeth seiliedig ar gampws, gyda dim ond 10% o 'r holl ddysgwyr rhan-amser israddedig yn SAU Cymru yn dilyn cyrsiau dysgu o bell.
11. Caiff tua 14% o'r ddarpariaeth 'addysg uwch' a 34% o ddarpariaeth 'addysg bellach' (y rhan fwyaf ohono yn ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion) ei gyflenwi drwy drefniadau ffransis gyda Sefydliadau Addysg Bellach. Mae dau SAU - Casnewydd a Morgannwg - yn cyfrif rhyngddynt am dros 60% o'r 6,215 o ddysgwyr addysg uwch ar ffransais, er bod hyn hefyd yn gyfran sylweddol o ymrestriadau rhan-amser ym Mhrifysgol Glyndŵr, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC). Mae 4,660 o fyfyrwyr Addysg Uwch rhan-amser ychwanegol wedi ymrestru'n uniongyrchol yn Sefydliadau Addysg Bellach Cymru.
12. Nid yw tua 30% o israddedigion rhan-amser SAU Cymru yn parhau i astudio ar ôl eu blwyddyn gyntaf - cyfran uwch nag o fyfyrwyr rhan-amser ond ychydig yn is nag ar draws y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd myfyrwyr rhan-amser yn sylweddol fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ar ôl cwblhau eu cyrsiau ac yn debygol o fod yn ennill incwm uwch na'u cymheiriaid llawn-amser (gydag incwm canolrif o £25,000 ar gyfer cyn fyfyrwyr rhan-amser o gymharu gyda £18,000 ar gyfer cyn fyfyrwyr llawn-amser yn SAU Cymru) - er y gall hyn fod yn ganlyniad proffiliau oedran gwahanol iawn a'r ffaith y byddai llawer o fyfyrwyr rhan-amser wedi bod mewn cyflogaeth pan oeddent yn astudio.
13. Mae darpariaeth ran-amser cyfrwng Cymraeg yn parhau'n eithaf cyfyngedig, gydag ychydig dan 4% o'r holl ddysgwyr yn derbyn rhan o'u hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, er y bu cynnydd yn nifer yr ymrestriadau hyn ers 2006/7.

Tystiolaeth o'r Gwaith Maes

14. Mae'r label 'darpariaeth rhan-amser' yn cynnwys ystod eang iawn o wahanol gyfleoedd dysgu o fewn SAU Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- cyfranogiad mewn cyrsiau 'safonol' a gynigir un ai ar sail ran-amser neu llawn-amser;
- darpariaeth sydd ar gael yn unig ar sail ran-amser ar gampws neu mewn lleoliadau eraill (yn aml yn gysylltiedig â chymwysterau proffesiynol);
- darpariaeth dysgu o bell ar sail ran-amser;
- darpariaeth a deilwriwyd i anghenion cyflogwyr penodol ond lle mae gan y cwrs werth credyd ac y medrir ei ddefnyddio i dynnu cyllid i lawr oddi wrth Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC) Cymru;
- cyrsiau pwrpasol a ariannir yn llawn gan gyflogwyr;
- darpariaeth addysg gymunedol sydd ar lefel addysg uwch;
- darpariaeth lefel 'mynediad' neu 'addysg bellach' arall.

15. Credai llawer o'r rhai a gyfwelwyd nad yw polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi darpariaeth ran-amser yn rhoi digon o sylw i'r amrywiaeth yma a bod angen iddo fod yn fwy eglur yn nhermau pa fath(au) o ddarpariaeth ran-amser y mae'n dymuno eu hannog. Credid fod hefyd ddiffyg syniadau clir am y berthynas a all yn eithaf aml fod yn gymhleth rhwng darpariaeth ran-amser a'r agendâu ehangu mynediad a'r Trydedd Genhadaeth. Ar yr un pryd, pwysleisiodd llawer o gyfweleion bod y gwahaniaeth rhwng myfyrwyr llawn-amser a rhan-amser yn mynd yn gynyddol annelwig oherwydd bod mwyafrif myfyrwyr llawn-amser hefyd yn gweithio'n rhan-amser.

16. Mae gwahaniaeth barn rhwng gwahanol SAU Cymru am bwysigrwydd darpariaeth ran-amser, gyda llawer yn ystyried ei fod yn ymylol ond eraill yn ei credu ei fod yn sylfaenol i'w cenhadaeth. Yn gyffredinol, mae SAU gyda lefelau uchel o ddarpariaeth ran-amser yn ystyried mai eu cenhadaeth hwy, yn hytrach na pholisi Llywodraeth, yw'r prif sbardun ar gyfer eu hymrwymiad â'r agenda yma. Fodd bynnag (yn y gorffennol o leiaf) mae darpariaeth ran-amser hefyd wedi galluogi rhai SAU i wneud iawn am y diffyg galw gan ymgeiswyr llawn-amser a sicrhau incwm ychwanegol, yn neilltuol lle mae

cyflogwyr yn alluog ac yn fodlon i ran-ariannu darpariaeth. Mae SAU yn gyffredinol yn cael anhawster gyda chysyniad 'galw cudd' neu 'alw nas diwallwyd' gyda rhai'n dadlau mai eu cyfrifoldeb hwy yn hytrach yw ysgogi galw, yn neilltuol gan gyflogwyr.

17. Y prif rwystrau o ddigon i ddarpariaeth ran-amser ym marn SAU yw rhai ariannol. Ers cyflwyno ffioedd amrywiol (a'r trefniadau cyllid myfyrwyr cysylltiedig ar gyfer myfyrwyr llawn-amser), bu'n anodd sicrhau incwm cyfatebol gan fyfyrwyr rhan-amser, hyd yn oed lle mae cyflogwyr yn ariannu cyfranogiad, er gwaethaf 'Cyllid Graham' ychwanegol. Gyda'r galw cynyddol am leoedd llawn-amser, ac o gofio am allu SAU i gyfnewid niferau credydau llawn-amser am rai rhan-amser, mae cyfarwyddwyr cyllid yn gyffredinol yn gwthio am ostwng y ddibyniaeth ar ddarpariaeth ran-amser. Gwaethygir hyn gan y ffaith, yn wahanol i ddarpariaeth lawn-amser, nad oes system gais ganolog ar gyfer darpariaeth ran-amser, gan ei gwneud yn fwy anodd (a drutach) i SAU ddenu ceisiadau. Dadleuodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd hefyd fod cymdeithas yn gyffredinol yn ogystal â SAU yn dal i weithio i sefyllfa ragosod fod myfyrwyr yn ymadawyr ysgol llawn-amser ac yn trefnu darpariaeth yn unol â hynny, gan sôn am rwystrau sefydliadol megis amharodrwydd staff i weithio y tu allan i oriau gwaith arferol.

18. Yn gyffredinol nid oes gan SAU bolisiau cyson ar ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, a dywedir bod cyflogwyr yn amharod i dalu ffioedd ar lefel realistig. Credir fod costau darpariaeth ran-amser yn gyffredinol yn uwch, oherwydd 'costau trafodol' ymrestru a darparu gwasanaethau craidd i bob myfyrwr unigol, costau ychwanegol recriwtio a chostau ychwanegol darpariaeth a chefnogaeth y tu allan i oriau safonol.

19. Gydag eithriad amlwg y Brifysgol Agored yng Nghymru, ymddengys SAU Cymru yn gymharol amharod i fuddsoddi mewn dysgu o bell, yn neilltuol ar gyfer darpariaeth israddedig, oherwydd y costau cychwynnol uchel a materion yn ymwneud â rheoli ansawdd. Mae rhai SAU yn cynnig cryn dipyn o ddarpariaeth o fewn lleoliadau cymunedol, er bod y rhain yn aml yn sefydliadau lle mae'r cyfanswm darpariaeth ran-amser yn gymharol gynnil. Er

bod gan rhai SAU drefniadau ffransais eithaf helaeth gyda Sefydliadau Addysg Bellach, mae'r rhain yn gyffredinol yn cael eu cwtogi. Mae llawer o SAU wedi ceisio cynyddu oriau agor cyfleusterau allweddol ar gampysau i ddarparu ar gyfer anghenion cynyddol amrywiol myfyrwyr rhan-amser (a llawn-amser) ond i lawer, mae'r rhain yn parhau'n llai hyblyg nag y medrid dymuno, yn bennaf oherwydd goblygiadau ariannol oriau agor hirach a disgwyliadau staff academiaidd yng nghyswllt oriau gwaith.

20. Mae SAU yn ei chael yn anodd casglu data ystyrion ar gyfraddau cadw tymor hwy ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, oherwydd hyblygrwydd darpariaeth o'r fath, ond mae rhyw awgrym fod dilyniant rhwng cyrsiau yn fwy o broblem na chadw myfyrwyr yn y cyrsiau a bod cysylltiad llawer cliriach rhwng problemau cadw â nodweddion economaidd-gymdeithasol na p'un a yw darpariaeth yn rhan-amser neu'n llawn-amser.

21. Yn nhermau'r dyfodol, er y credai lleiafrif y rhai a gyfwelwyd y bydd newid demograffig a chymdeithasol yn sbardun i SAU gynyddu eu darpariaeth ran-amser, dadleuodd y rhan fwyaf y bydd darpariaeth ran-amser yn parhau i ddod dan lawer o bwysau, wrth i SAU ymateb i'r cynnydd mewn ceisiadau am leoedd llawn-amser (yr un pryd â rhewi neu ostwng nifer credydau fel canlyniad toriadau mewn gwariant cyhoeddus) drwy roi blaenoriaeth i'r hyn sydd mewn gwirionedd yn opsiwn mwy deniadol yn ariannol o symud mantol darpariaeth tuag at fyfyrwyr llawn-amser. Fodd bynnag, ystyrir y gall y posibilrwydd o gyflwyno uchafswm ar ddarpariaeth llawn-amser oherwydd pwysau ar gyllid myfyrwyr 'newid y gêm', megis canlyniad Adolygiad Browne ar Ariannu Prifysgolion yn Lloegr.

Casgliadau ac Argymhellion

22. Mae'r ymchwil yn awgrymu fod angen mwy o finiogrwydd a chlirder yn nhermau polisi, gyda mwy o eglurder ar y math o ddarpariaeth ran-amser mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno ei hannog. Mae hefyd yn awgrymu fod perygl gwirioneddol y bydd y ddarpariaeth gyffredinol yn parhau i ostwng dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn absenoldeb newidiadau clir i bolisi a bod angen aliniad agosach rhwng nodau polisi a'r ffyrdd y caiff y nodau hynny

eu gweithredu, yn arbennig drwy ddulliau ariannu. Mae hefyd angen gweithredu i fynd i'r afael neu liniaru rhai o'r rhwystrau eraill i ddarpariaeth ran-amser, yn cynnwys diffyg unrhyw 'borth' i'r system addysg uwch ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn astudiaeth ran-amser (i gyflawni'r rôl y mae UCAS yn ei chynnig ar gyfer ymgeiswyr llawn-amser), diffyg maes chwarae gwastad yng nghyswllt cyllid myfyrwyr, materion ariannol yn ymwneud ag amserau agor cyfleusterau a gwasanaethau allweddol i fyfyrwyr a'r hyn a welai llawer o'r rhai a gyfwelwyd ar gyfer yr ymchwil hwn fel y dybiaeth ddiwylliannol eang fod prifysgolion yn dal i fod yn ymwneud ag addysgu pobl ifanc ar sail lawn-amser.

23. Mae'r adroddiad yn gwneud 15 argymhelliad, gyda'r pwysicaf ohonynt yn ymwneud â'r angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC ystyried:

- pa fathau o ddarpariaeth ran-amser sydd bwysicaf iddynt ac y dymunant ei hyrwyddo ac os ydynt eisiau a hefyd yn medru neilltuo credydau ar gyfer rhai mathau o ddarpariaeth ran-amser;
- sut y meddir cynnig mwy o ddewis o opsiynau dysgu o bell i ddysgwyr Cymru, gan gydnabod profiad unigryw'r Brifysgol Agored yng Nghymru wrth ddatblygu, darparu a chefnogi darpariaeth o'r fath;
- p'un ai oes angen ail-fantoli gwaith Partneriaethau Ymggyraedd yn Ehangach i roi mwy o bwyslais ar oedolion a fedrai fod yn ddysgwyr;
- os oes achos dros bremiwm rhan-amser yn lle, neu yn ychwanegol, at gyllid presennol Graham i wrthbwysu'r ffaith na feddir sicrhau lefelau ffioedd *pro rata* ar gyfer y rhan fwyaf o ddarpariaeth, o gofio am y gofyniad fod myfyrwyr rhan-amser (neu eu noddwyr) yn talu ffioedd ymlaen llaw;
- p'un ai, yng nghyd-destun yr agenda rhanbarthol sy'n datblygu, mai'r ffordd fwyaf addas ymlaen yw rhoi'r dasg i nifer fechan o SAU arwain at ymrwymiad cyflogwyr yn eu rhanbarth, gan weithio'n agos gyda Sefydliadau Addysg Bellach, darparwyr preifat a Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hunan ac i gydnabod hyn drwy ddyrannu nifer credydau;
- priodolder ac ymarferoldeb datblygu polisi ffioedd neu dybiaeth ffioedd ar gyfer dysgu rhan-amser a ddarperir gan SAU;

- p'un ai a ddylai SAU fod yn ceisio meithrin dysgwyr 'cartref' neu a ddylai SAU yn lle hynny fod yn cydweithredu'n fwy agos gyda darparwyr eraill i sicrhau fod llwybrau dilyniant ar gael ar gyfer dysgwyr oedd yn flaenorol wedi eu hallgau ond sydd wedi dechrau ar lwybrau dysgu gydol oes ar lefelau isel ond sydd ag uchelgais am addysg uwch;
- p'un ai yw'n bosibl datblygu porth cenedlaethol ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn dysgu rhan-amser i ategu system UCAS;
- sut y medrir gwneud y system cyllid myfyrwyr yn decach o safbwynt dysgwyr rhan-amser sy'n talu am eu hastudiaethau eu hunain, yn neilltuol o gofio'r ffaith fod myfyrwyr 'llawn-amser' hefyd yn gynyddol yn gweithio tra'n astudio;
- p'un ai oes angen iddynt gynnig arweiniad clir ar ddisgwyliadau yn nhermau oriau agor cyfleusterau craidd a gwasanaethau cefnogaeth myfyrwyr i SAU Cymru.

1 Cyflwyniad

Diben yr Adroddiad

- 1.1 Penodwyd **Old Bell 3 Cyf.**, mewn cysylltiad gyda Dateb a Steve Raybould, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr 2010 i gynnal ymchwil i'r cyflenwad a'r galw am addysg uwch ran-amser yng Nghymru.
- 1.2 Nod yr ymchwil oedd 'helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddynodi lle medrai fod angen iddi weithredu i gynnal a chynyddu cyfranogiad llwyddiannus mewn addysg uwch ran-amser yng Nghymru'.
- 1.3 Islaw hyn, gosodwyd nifer o amcanion penodol ar gyfer yr ymchwil. Dangosir hyn ym Blwch 1.

Blwch 1: Amcanion yr Ymchwil

- 1 Adolygu nodweddion cyfranogiad rhan-amser yn ôl sefydliad, pwnc, nodau cymhwyster, ac ymrestradau.
- 2 Dynodi ac ymchwilio tueddiadau neu batrymau parthed y dulliau astudio sydd ar gael a'r nifer sy'n eu defnyddio: e.e. e-ddysgu, ar gampws, astudiaeth penwythnos, rhan-amser min-nos/dydd, dysgu seiliedig ar waith, addysg uwch mewn addysg bellach.
- 3 Dynodi ac ymchwilio tueddiadau neu batrymau mewn gadael cyrsiau heb eu gorffen (e.e. os yn sylweddol o ran dull, pwnc, math dysgwr, lleoliad ac ati).
- 4 Dynodi ac ymchwilio lle medrai fod tystiolaeth yn dangos tueddiadau'r dyfodol (e.e. demograffeg ac amgylchiadau economaidd).
- 5 Ymchwilio graddfa a chymeriad argaeledd addysg ran-amser drwy gyfrwng y Gymraeg a'r defnydd o hynny.
- 6 Ymchwilio os medrai fod galw nas diwallwyd ar gyfer addysg uwch ran-amser yng Nghymru, a ph'un ai neu sut y caiff ei gofnodi.
- 7 Dynodi ac ymchwilio'r ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau SAU ar p'un a yw rhaglenni i gael eu darparu ar sail ran-amser ai peidio. Yn

- arbennig, sut mae SAU yn dynodi ac asesu galw cudd.
- 8 Dynodi'r ffactorau sy'n effeithio ar ba raglenni addysg uwch rhan-amser a gyflenwir gan ddarparwyr addysg uwch.
 - 9 Y rhesymau dros y gostyngiad yn y nifer sy'n ymrestru ar raglenni addysg uwch rhan-amser yng Nghymru ers 2005.
 - 10 Ymchwilio barn SAU am effaith cyfranogiad a darpariaeth ran-amser ar berfformiad, cenhadaeth, proffil ac ansawdd eu sefydliad.
 - 11 Ymchwilio barn SAU ar eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol parthed addysg uwch ran-amser, a'r cyfleoedd a'r heriau a ragwelant parthed cynnal ac ehangu addysg uwch ran-amser.
 - 12 Ymchwilio p'un ai yw'r ffioedd a godir gan SAU am gyrsiau rhan-amser yn ffioedd pro rata a godir am gyrsiau llawn-amser.
 - 13 Ymchwilio barn dysgwyr a fynegwyd drwy Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) Cymru a chyrrff cynrychioli eraill addas ar y ddarpariaeth bresennol y rhaglenni sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr rhan-amser.
 - 14 Ymchwilio barn dysgwyr a fynegwyd drwy NUS Cymru a chyrrff cynrychioli eraill addas ar y gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser a sut mae'n effeithio ar benderfyniadau am barhau mewn addysg.

- 1.4 Cydnabuwyd yn y Cam Dechreuol y medrai'r data cyfyngedig oedd ar gael lesteirio'r gallu i drin yr holl amcanion hyn yn llawn.

Cefndir

- 1.5 Cafodd cyfrifoldeb cyffredinol am ariannu addysg uwch yng Nghymru ei ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru pan y'i sefydlwyd yn 1999. Yn ddilynol, datganolodd Deddf Addysg Uwch 2004 gyfrifoldeb am ffioedd hyfforddiant a chymorth myfyrwyr i Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan felly roi cyfle i Lywodraeth y Cynulliad lunio darpariaeth addysg uwch ymhellach ar draws Cymru. Caiff cyllid ar gyfer SAU ei weinyddu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad ac a sefydlwyd gan statud, sydd â'r genhadaeth o 'hybu addysg uwch o safon

ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru a thu hwnt’.

1.6 Ar yr un pryd mae’r 12 SAU yng Nghymru yn gweithredu mewn cyd-destun a gaiff ei ddylanwadu’n drwm gan ddatblygiadau mewn rhannau eraill o’r Deyrnas Unedig ac yn wir yn fyd-eang. Mae’r Cynghorau Ymchwil, sy’n dyfarnu cyllid ar gyfer ymchwil penodol, yn gyrrff i’r Deyrnas Unedig gyfan ac mae’r farchnad ar gyfer Sefydliadau Cymreig yn llawer mwy na Chymru:

- mae myfyrwyr sy’n hanu o Gymru yn cyfrif am lai na 50% yr holl ymrestrïadau ar gyrsiau llawn-amser;
- mae traean o fyfyrwyr Cymru sy’n astudio’n llawn-amser yn gwneud hynny y tu allan i Gymru;
- mae bron 30% yr holl fyfyrwyr ôlraddedig a bron 50% o fyfyrwyr ôlraddedig rhan-amser yn SAU Cymru yn fyfyrwyr ‘tramor’ (h.y. tu allan i’r Undeb Ewropeaidd)¹.

1.7 Mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gynyddol wedi tanlinellu pwysigrwydd darpariaeth ran-amser yn nhermau cynnig mwy o hyblygrwydd i ateb anghenion myfyrwyr unigol, yn arbennig rai o gefndiroedd heb fod yn draddodiadol a chyflogwyr, yr ystyrir eu bod yn gynyddol angen cefnogaeth bwrpasol i ateb anghenion sgiliau lefel uchel.

1.8 Felly, mae Cam 2 yr Adolygiad o Genhadaeth, Diben, Rôl ac Ariannu Addysg Uwch, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dan arweiniad yr Athro Myrfyn Jones, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2009, yn nodi rôl hanfodol darpariaeth ran-amser:

‘Mae cyfleoedd rhan-amser effeithiol a darpariaeth hyblyg yn elfennau hanfodol o ehangu mynediad, ond mae ganddynt ystyr ehangach mewn perthynas ag addysg uwch. A chofio’r angen i feithrin sgiliau lefel uwch yn y sectorau â blaenoriaeth, anghenion sgiliau’r rheini nad ydynt ar hyn o bryd yn rhan o’r gweithlu, a’r angen i ddarparu ar gyfer cymuned ddysgu sy’n mynd yn fwy amrywiol, mae bod yn hyblyg o ran darpariaeth yn ofyniad craidd. Mae

¹ Ffigurau o Adroddiad Blynyddol 200/2009 CCAUC yn defnyddio data 2007/2008

addysg uwch ran amser, a'r system gyllido'n seiliedig ar gredydau sy'n sail iddo, yn cynnig cyfle sylweddol i Gymru godi lefelau cyfranogaeth a chyflawniad addysg uwch o fewn gweithluoedd a chymunedau.²

1.9 Fodd bynnag, nododd yr adroddiad rai o rwystrau rhag darpariaeth ran-amser: 'Rydym wedi nodi'r gwahaniaeth yn y trefniadau ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr llawn-amser, yn enwedig gan fod myfyrwyr rhan-amser – yn wahanol i'r rheini sy'n astudio'n llawn-amser – yn gorfod talu eu ffioedd ymlaen llaw. Er bod y rhesymau dros wahaniaethau o'r fath yn gymhleth ac yn amrywiol, mae'r cyferbyniad rhyngddynt yn anghyfforddus, yn enwedig gan fod patrymau astudio myfyrwyr llawn-amser a rhan-amser mewn gwirionedd yn mynd yn fwy annelwig oherwydd yr hyblygrwydd posibl sydd ar gael drwy'r system gredydau, ond gan gydnabod hefyd fod hyn yn amrywio o un sefydliad i'r llall yn dibynnu ar genhadaeth, cyfansoddiad y corff myfyrwyr a'r sylfaen boblogaeth leol.'³

1.10 Nododd hefyd bod 'angen ymchwilio'n fwy manwl i feysydd lle mae ein dealltwriaeth ar hyn o bryd yn wan', yn cynnwys galw cudd am astudiaeth ran-amser, y graddau yr oedd talu ffioedd ymlaen llaw a chostau eraill yn atal cyfranogiad a maint yr anawsterau cadw a brofwyd gan SAU yng nghyswllt astudiaethau rhan-amser. Bu'r galwad am ymchwil pellach yn sail i gomisiynu'r astudiaeth hon.

1.11 Mewn ymateb i Adolygiad Merfyn Jones, ym mis Tachwedd 2009 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru '*Er Mwyn Ein Dyfodol - Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain*'. Mae hyn yn trafod thema'r angen am ffocws llawer cryfach ar astudiaeth ran amser:

'Disgwyliwn weld mwy o gyfleoedd i unigolion ddysgu yn rhan-amser, gyda mwy o raglenni'n cael eu cynllunio gyda'r hyblygrwydd priodol. Disgwyliwn weld darparwyr addysg uwch yn ymateb yn gryfach i'r farchnad a all sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cyfleoedd dysgu, yr angen a'r galw. Disgwyliwn

² Yr Adolygiad o Genhadaeth, Diben, Rôl ac Ariannu Addysg Uwch, t.13

³ Ibid.

hefyd weld rhagor o degwch rhwng myfyrwyr rhan-amser ac amser llawn o ran cymorth ariannol a pholisi ffioedd⁴.

- 1.12 Fodd bynnag, mae'r Strategaeth hefyd yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r trefniadau presennol yn caniatáu i CCAUC gyfeirio darpariaeth. Caiff £270 miliwn o'r £296 miliwn o gyllid a roddir i CCAUC ar hyn o bryd i ariannu addysgu yn SAU Cymru ei sianelu drwy gyllid fformiwla. Mae hyn yn cynnwys taliad y pen cymharol fach ar gyfer pob myfyriwr a ymrestrodd a thaliad fesul credyd a addysgir. Er bod dyraniadau SAU yn seiliedig ar ddata hanesyddol sy'n cynnwys rhaniad rhwng y credydau a astudir gan fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser, mae SAU yn rhydd i newid y cymysgedd darpariaeth (rhwyng y ddau fath o astudiaeth a rhwyng pynciau).
- 1.13 Mae *'Er Mwyn ein Dyfodol'* yn gwneud yn glir fwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda CCAUC i ddatblygu newidiadau cadarn i gynllunio ac ariannu addysg uwch, yn cynnwys creu dull rhanbarthol, i gyflawni ei nodau polisi ehangach. Mae'r ymchwil presennol felly'n gyfle i helpu'r broses hon drwy roi sylfaen tystiolaeth fwy awdurdodol.

Methodoleg

- 1.14 Roedd y rhaglen waith ar gyfer yr ymchwil yn cynnwys dadansoddiad eilaidd o setiau data perthnasol, yn arbennig y rhai oedd ar gael gan Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru ac adolygiad o ddogfennau polisi allweddol a deunydd i egluro'r hyn oedd yn sbarduno a'r cyd-destun ar gyfer darpariaeth ran-amser addysg uwch yng Nghymru).
- 1.15 Roedd hefyd yn cynnwys gwaith maes gyda chyfanswm o 18 unigolyn o ystod o sefydliadau rhanddeiliad perthnasol, yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hunan, CCAUC, Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, NUS Cymru,

⁴ Er Mwyn Ein Dyfodol - Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain, t4

Addysg Uwch Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Arian Myfyrwyr (NASMA), Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a NIACE Dysgu Cymru yn ogystal â 19 o aelodau staff perthnasol yn y SAU dilynol:

- Prifysgol Aberystwyth (Aberystwyth)⁵;
- Prifysgol Bangor (Bangor);
- Prifysgol Caerdydd (Caerdydd);
- Prifysgol Glyndŵr (Glyndŵr);
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru;
- Prifysgol Abertawe (Abertawe);
- Prifysgol Fetropolitan Abertawe; (SMU)
- Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin (Y Drindod);
- Prifysgol Morgannwg (Morgannwg);
- Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC);
- Prifysgol Cymru, Casnewydd (Casnewydd)

Strwythur yr Adroddiad

1.16 Yng ngweddill yr adroddiad rydym yn:

- Rhoi adroddiad llawnach o'r cyd-destun polisi ar gyfer cynnal yr ymchwil (Adran 2);
- Cyflwyno dadansoddiad o ddata perthnasol ar broffil Addysg Uwch ran-amser yng Nghymru (Adran 3);
- Rhoi adroddiad ar ganfyddiadau ein gwaith maes ansoddol gyda SAU a rhanddeiliaid eraill, gan ganolbwyntio yn neilltuol ar yr hyn sy'n sbarduno ac yn rhwystro darpariaeth cyfleoedd rhan-amser (Adran 4);
- Cyflwyno ein Casgliadau ac Argymhellion (Adran 5).

⁵ Yng ngweddill yr adroddiad yma defnyddiwn y byrfoddau a ddangosir mewn cromfachau

2 CYD-DESTUN POLISI

Crynodeb o'r Bennod

Mae SAU Cymru yn gweithredu o fewn cyd-destun marchnad addysg uwch sy'n ehangu ond sydd hefyd yn gystadleuol, lle mae hyblygrwydd o ran darpariaeth yn dod yn gynyddol bwysig. Mae newid demograffig gyda'r twf yn y galw am sgiliau lefel uwch a'r angen cynyddol i'r rhai o fewn y gweithlu presennol i ddiweddarau eu sgiliau yn unol gyda newid cyflym mewn technoleg a chymdeithas yn arwain at fwy o bwyslais ar ddarpariaeth sy'n diwallu gofynion ystod llawer ehangach o ddysgwyr na'r ymadawr ysgol 'traddodiadol'.

O fewn y Deyrnas Unedig, mae dysgu rhan-amser eisoes yn cynrychioli tua 40% o bob ymrestriad o fewn SAU. Fodd bynnag, mae darpariaeth ran-amser yn amrywiol, gyda phresenoldeb cryf o ddysgu galwedigaethol a phroffesiynol ynghyd ag unigolion yn dewis dilyn cymwysterau israddedig neu ôlraddedig mwy traddodiadol ar sail ran-amser. Mae Adolygiad King (2008) o addysg uwch ran-amser yn awgrymu, er y cyflawnwyd llawer nid yn lleiaf fel canlyniad y galw gan ddysgwyr unigol am fwy o hyblygrwydd, fod darpariaeth ran-amser yn parhau i fod yng nghysgod dysgu llawn-amser mwy traddodiadol.

Yng Nghymru mae polisi ers datganoli wedi tanlinellu pwysigrwydd darpariaeth ran-amser wrth gyflawni dwy nod allweddol polisi addysg uwch, ehangu mynediad i rannau o'r boblogaeth nad ydynt yn draddodiadol wedi manteisio ar addysg uwch a diwallu anghenion cyflogwyr yn nhermau cynyddu sgiliau'r gweithlu. Mae cyfres o adolygiadau annibynnol wedi tanlinellu pwysigrwydd sicrhau nad yw newidiadau i gyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr yn tanseilio hyfywedd darpariaeth ran-amser ac yn fwy diweddar mae *'Er Mwyn Ein Dyfodol'*, strategaeth newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar addysg uwch, wedi tanlinellu'r angen am system addysg uwch yng Nghymru sy'n llawer mwy ymatebol i'r newid mewn galw gan unigolion a chyflogwyr, gyda dimensiwn rhanbarthol cryf a mwy o bwyslais ar ailgyflunio a chydweithredu rhwng SAU.

Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r Adran hon yn gosod y cyd-destun ar gyfer datblygu addysg uwch ran-amser yng Nghymru yn y dyfodol, gan gydnabod er bod polisi wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru, bod Sefydliadau Addyg Uwch Cymru yn gweithredu o fewn marchnad ar draws y Deyrnas Unedig (ac yn wir, farchnad fyd-eang) ac felly bod datblygiad polisi ac ymchwil mewn rhannau eraill o fewn y Deyrnas Unedig yn effeithio arno.
- 2.2 Yn gyntaf, ystyrir y cyd-destun byd-eang y mae addysg uwch yn gweithredu ynddo (Adran 2.2) cyn troi at ddatblygu polisi Cymru yng nghyswllt addysg uwch ers datganoli yn 1999 (Adran 2.3), esblygiad polisi ar lefel y Deyrnas Unedig (Adran 2.4) ac ymchwil ddiweddar ar faterion ehangach yng nghyswllt addysg uwch a'i oblygiadau ar gyfer darpariaeth ran-amser (Adran 2.5).

Y Cyd-destun Byd-eang ar gyfer Addysg Uwch

- 2.3 Amlinellodd *'Prosperity for all in the global economy - world class skills'* (Adroddiad Leitch) gyfres o dargedau heriol ar gyfer sgiliau a hyfforddiant yn y Deyrnas Unedig a galwodd am adolygiad trylwyr o'r sectorau sgiliau ac addysg oedolion⁶. Drwy wneud hynny, rhoddodd Leitch symbyliad newydd i wneuthurwyr polisi a phenderfyniadau i herio arferion presennol a ffurfio systemau a dulliau a fyddai'n helpu i sicrhau gallu cystadleuol y Deyrnas Unedig yn y 21ain ganrif.
- 2.4 Roedd yr angen i sefydlu ac ymwreiddio 'diwylliant o ddysgu' ar draws y Deyrnas Unedig a fyddai'n gweithredu i godi ymwybyddiaeth ac uchelgais a chynyddu dewis yn ganolog i argymhellion Adroddiad Leitch⁷. Fodd bynnag, dadleuwyd na chyflawnid hyn drwy'r dull traddodiadol o gynllunio ochr gyflenwi darpariaeth dysgu. Yr hyn oedd ei angen yn lle hynny oedd cynigion i symleiddio'r system sgiliau, tuag at ddull a gâi ei arwain yn fwy gan alw ac yn

⁶ Adolygiad Leitch o Sgiliau (2006) *Prosperity for All in the Global Economy – World Class Skills* (Adolygiad Leitch), HMSO: Llundain.

⁷ Ibid, tudalen 140.

rhoi lle mwy canolog i unigolion a chyflogwyr. Byddai hyn yn golygu fod angen cysylltiadau agosach a gwell rhwng llywodraeth, SAU a chyflogwyr i lunio'r ymagwedd at ddarpariaeth dysgu⁸.

2.5 Wrth gyfeirio'n benodol at addysg uwch, gosododd Adroddiad Leitch darged i fwy na 40% o oedolion y DU gyrraedd cymhwyster Lefel 4 erbyn 2020 (i fyny o 29 y cant yn 2005)⁹. Yn sail i'r targed hwn, nododd yr Adolygiad bod angen:

- rhannu cyfrifoldeb – cynyddu buddsoddiad mewn addysg uwch gan unigolion, cyflogwyr a llywodraeth;
- addysg 'economaidd werthfawr' a darpariaeth a arweinir gan alw, hynny yw, darpariaeth sy'n diwallu anghenon unigolion a chyflogwyr ac yn cefnogi symudedd llafur;
- system addysg a all addasu i farchnadoedd sy'n newid;
- parhad a gwrthod newid er mwyn newid, gan ddewis yn lle hynny welliannau a geir drwy symleiddio a rhesymoli strwythurau presennol.

2.6 Mewn llawer o ffyrdd, yr oedd Adolygiad Leitch yn cadarnhau ymhellach yr hyn a ddeallid gan SAU yn gweithredu o fewn y 'farchnad' addysg. Ar lefel sylfaenol, caiff darpariaeth ran-amser mewn addysg uwch yng Nghymru ei gyrru gan yr un grymoedd byd-eang sy'n gyrru pob darpariaeth addysg uwch ac addysg bellach. Caiff rôl SAU ei thrawsnewid gan y symud tuag at economi wybodaeth fyd-eang ac mae heriau sylweddol wrth ateb galw cynyddol am systemau addysg uwch ansawdd uchel a blaenllaw¹⁰.

2.7 Ymhellach, cafodd y pwyslais uwch hwn ei gyfateb gyda thwf yn y sector ar y lefel fyd-eang. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at fwy o gystadlu rhyngwladol am staff, myfyrwyr, cyllid ac arian ymchwil. Fel canlyniad rhoddir mwy o bwysau ar lywodraethau cenedlaethol i ddarparu datrysiadau effeithiol, effeithlon a theg sy'n cynnig proffil cystadleuol yn y farchnad fyd-eang.

⁸ Ibid, tudalen 138

⁹ Ibid

¹⁰ Adroddiad Terfynol Astudiaeth Annibynnol i Ddatganoli'r System Cymorth i Fyfyrwyr a'r Drefn Ffioedd Dysgu yng Nghymru (2005) *Fair and Flexible Funding: A Welsh Model to Promote Quality and Access in Higher Education* (Adolygiad Rees), Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, tudalen 15

- 2.8 Mae'r galw am addysg uwch yn parhau i dyfu ar draws Cymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, er y bu gwelliant mewn cyfraddau cyfranogiad dros y degawd diwethaf, maent yn dal i fod yn is na llawer o economïau eraill datblygedig¹¹. Ymhellach, mae cydberthynas sylweddol yn dal i fod rhwng mynediad i addysg uwch ag incwm a chyfoeth rhieni¹².
- 2.9 Mae dysgu rhan-amser yn y sector addysg uwch eisoes yn sylweddol o ran maint: ar draws y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, mae tua miliwn o fyfyrwr rhan-amser addysg uwch mewn SAU a Sefydliadau Addysg Bellach¹³. Mae hyn tua 40% o'r holl fyfyrwr addysg uwch¹⁴.
- 2.10 Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu mai benywod yw cyfran cymharol uchel o fyfyrwr rhan-amser yn astudio am gymwysterau (62% o gyfanswm myfyrwr rhan-amser, o gymharu gyda 54% o fyfyrwr yn astudio'n llawn-amser). Ar yr un pryd mae'r cyfrannau o leiafrifoedd ethnig sy'n astudio'n rhan-amser yn is (10% o gymharu gyda 17% ar gyfer cyrsiau llawn-amser)¹⁵.
- 2.11 Mae'n sicr fod y rhesymau am astudio'n rhan-amser yn amrywiol (gallai fod yn fwy felly nag sy'n wir am fyfyrwr llawn-amser) ond maent yn cynnwys: y rhai sy'n edrych am astudiaeth 'ail gyfle' sy'n gorfod cyfuno astudiaeth gyda gwaith; graddedigion diweddar yn ennill mwy o sgiliau penodol i swydd; datblygiad proffesiynol parhaus yn gysylltiedig â'r gweithle a diweddarau gwybodaeth/sgiliau i gynnal, gwella neu newid gyrfaoedd; y rhai o grwpiau ehangu cyfranogiad a'r rhai sy'n astudio am resymau diddordeb/hamdden ag addysg barhaus analwedigaethol yn cynnwys y rhai mewn oedran ymddeol¹⁶.
- 2.12 Yn fras, fodd bynnag, mae canfyddiadau ymchwil yn awgrymu bod:

¹¹ Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2009), *Higher Ambitions: The future of universities in the knowledge economy, Executive Summary*, Llywodraeth y DU: Llundain Llywodraeth y DU, tudalen 2.

¹² Ibid

¹³ Universities UK & Guild HE (2006) *Part-time Students and Part-time Study in Higher Education in the UK, Strand 1: A Quantitative Data Analysis of 2003/2004 HESA Data* paratowyd gan yr Athro Brian Ramsden Nigel Brown Associates, Llundain: Universities UK, tudalen 10.

¹⁴ Ibid

¹⁵ Ibid

¹⁶ Ibid, tudalen 11

- y rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser am gymwysterau sylweddol yn nodi mai rhesymau galwedigaethol yw'r prif gymhellion am astudio (yr eithriad yw doethuriaethau ymchwil sydd wedi'u rhannu rhwng ffactorau galwedigaethol a ffactorau eraill);
- caiff myfyrwyr rhan-amser sy'n dilyn rhaglenni HNC eu cymell bron yn llwyr gan ffactorau galwedigaethol, yn yr un modd â'r rhai sy'n dilyn diplomâu a thystysgrifau ôlraddedig;
- mae diddordeb yn y pwnc yn brif gymhelliant i tua 30% o fyfyrwyr rhan-amser gradd gyntaf¹⁷.

2.13 Yn nhermau'r cyrsiau a gymerwyd, pynciau'n perthynol i feddygaeth ac addysg¹⁸ yw'r pynciau a astudir fwyaf ar gyrsiau addysg uwch rhan-amser¹⁹. Gwyddorau biolegol, y gyfraith, peirianeg a'r celfyddydau creadigol yw'r rhai a astudir leiaf. Fodd bynnag, tu hwnt i hyn mae'n rhaid pwysleisio bod nifer sylweddol a math o gyrsiau a rhaglenni ar gael ar draws y Deyrnas Unedig, gan adlewyrchu'r amrywiaeth mewn cymhellion dysgwyr. Er hyn, medrir dynodi categori a ddiffinnir yn eang:

- darpariaeth israddedig ac ôlraddedig a gyflenwir ar sail ran-amser. Mae'r elfen hon yn rhannu llawer o nodweddion y farchnad lawn-amser gradd gyntaf/ôl-radd. Credir fod darpariaeth ran-amser israddedig yn cael ei gyrru'n bennaf gan alw cyflogwyr am raddedigion a'r buddion ariannol net tybiedig i'r unigolyn o gael gradd; credir y caiff darpariaeth ran-amser ôl-raddedig ei yrru'n bennaf gan y galw yn yr economi am y sgiliau lefel uchaf ac argaeledd cymorth ariannol gan gyflogwyr neu ffynonellau eraill
- y gwahanol feysydd o gymwysterau proffesiynol a galwedigaethol (yn cynnwys graddau sylfaen) a all fod ar lefel israddedig neu ôlraddedig a darpariaeth dysgu cymunedol eraill yn cynnwys cyrsiau a gyflenwir mewn partneriaeth gydag addysg bellach²⁰. Gall hyn gynnwys cyrsiau sy'n parhau

¹⁷ Ibid, tudalennau 19 a 20

¹⁸ Ibid tudalen 35. Mae 'pynciau perthynol i feddygaeth' yn cynnwys: Anatomeg, Ffisioleg a Phatholeg, Gwyddorau Clyw a Llafar, Meddygeth Ategol, Technoleg Feddygol, Nyrsio, Maeth, Ophthalmeg, Ffarmacoleg, Gwenwyneg a Fferylliaeth. Mae 'Addysg' yn cynnwys: Astudiaethau Academaidd mewn Addysg, Hyfforddi Athrawon, Sgiliau Ymchwil ac Astudio mewn Addysg a phynciau Eraill mewn Addysg.

¹⁹ Ibid, tudalen 19

²⁰ Ibid, tudalen 14.

am gyfnod eithaf byr ond sydd er hynny â chredyd o fewn y system credyd addysg uwch.

Polisi Addysg Uwch yng Nghymru ers Datganoli

Sylfeini Polisi

- 2.14 Bu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad ers peth amser i gefnogi addysg uwch ran-amser yng Nghymru. Ers Datganiad Bologna (1999), bu Cymru a chenhedloedd eraill Ewrop yn ymrwymedig i ateb heriau addysg uwch drwy fabwysiadu ymagweddau hyblyg, hygyrch a symudol ar draws ardaloedd a rhanbarthau.²¹
- 2.15 Gosododd Strategaeth Addysg Uwch gyntaf Cymru, *'Ymgeisio yn Uwch'* (2002) lawer o'r egwyddorion sy'n sail i'r ymagwedd bresennol at addysg uwch ran-amser yng Nghymru, yn arbennig bwyslais ar ehangu mynediad drwy dargedu 'ardaloedd cyfranogiad isel', bod yn rhagweithiol wrth gefnogi myfyrwyr, (e.e. cyllid caledi myfyrwyr a chefnogi cyflenwi seiliedig ar gymuned), gwella cyfraddau cadw drwy annog dilyniant academiaidd tu hwnt i'r lefelau presennol a 'galluogi myfyrwyr i drosglwyddo'n rhwydd' rhwng cyrsiau seiliedig ar waith a chyrsgiau addysg bellach ar y naill law a darpariaeth SAU ar y llaw arall²². Yn yr un modd, yng nghyswllt cysylltiadau cyflogwyr, roedd *'Ymgeisio yn Uwch'* yn cynnwys ymrwymadau generig i ddatblygu gweithlu mwy medrus, gwella'r berthynas rhwng SAU a'r sector preifat a chynyddu masnacheiddio proffidiol gwybodaeth a ddatblygwyd o fewn SAU.
- 2.16 Yn 2002, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei strategaeth economaidd 10 mlynedd *'Cymru'n Ennill'*²³. Roedd y rhyng-ddibyniaeth rhwng economi Cymru, dysgu gydol oes a lluo o feysydd polisi eraill megis iechyd, trafndiaeth a datblygu cymunedol yn elfen greiddiol o'r strategaeth.

²¹ Datganiad Bologna (1999) *Joint declaration of the European Ministers of Education* (Mehefin 1999).

²² Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Ymgeisio yn Uwch: Addysg Uwch a'r Wlad sy'n Dysgu: Strategaeth ar gyfer y Sector Addysg Uwch yng Nghymru*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, tudalennau 8-10

²³ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Cymru'n Ennill: Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- 2.17 Rhoddwyd ymrwymiad pellach i'r themâu a godwyd yn '*Ymgeisio yn Uwch*' yn '*Cymru: Gwlad Well*' (2003), rhaglen llywodraethu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru rhwng 2003 a 2007²⁴. Dynododd y Rhaglen fod sgiliau ac addysg ansawdd uchel yn sbardun allweddol wrth sicrhau economi cystadleuol, cynhyrchol a gwerth ychwanegol uchel, gydag ymrwymiad SAU a chyflogwyr a throsglwyddo gwybodaeth yn cael eu gweld fel dulliau pwysig ar gyfer ceisio cyflawni hyn.
- 2.18 Yn '*Creu'r Cysylltiadau*' (2005) gwnaeth y Llywodraeth yn glir ei bod yn gyffredinol yn gwrthod ymagweddau cystadleuol at wasanaeth cyhoeddus o blaid modelau mwy cydweithiol o ddarpariaeth a fyddai'n grymuso'r defnyddwyr gwasanaeth wrth lunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru²⁵. Medrid dadlau bod y strategaeth hefyd yn awgrymu dull 'llai o adrodd, mwy o ymddiried' at ddarparu gwasanaeth yng Nghymru drwy egluro'r angen i 'symleiddio haenau rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'²⁶.
- 2.19 Yn gynnar yn oes Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ôl datganoli, nodwyd ei fframwaith polisi addysg eang yn '*Y Wlad sy'n Dysgu*' (2001)²⁷. Dododd y strategaeth gysyniad dysgu gydol oes yng nghalon yr agenda addysg yng Nghymru. Yn '*Y Wlad sy'n Dysgu 2: Cyflawni'r Addewid*' (2006) dodwyd pwyslais clir ar system addysg oedd yn hygyrch i bawb ac ar bob lefel²⁸, tra ymrwymodd '*Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*' (2006) yn benodol, yng nghyswllt Addysg Uwch, i 'wella'r cyfleoedd ar gyfer astudio rhan amser a'r

²⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru (Medi 2003) *Cymru Gwlad Well: Agenda Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

²⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005), *Creu'r Cysylltiadau: Gwasanaethau Gwell i Gymru: Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

²⁶ *Creu'r Cysylltiadau*, tudalen 25

²⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru (Medi 2001) *Y Wlad sy'n Dysgu*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

²⁸ Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2006): *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Cyflawni'r Addewid*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

gefnogaeth a ddarperir i ddysgwyr rhan amser, mewn ymateb i argymhellion Adolygiad Graham²⁹.

Rees, Graham, Webb a Jones

2.20 Yn ymarferol, cafodd llawer o bolisi cysylltiedig ag addysg uwch ran-amser ei lunio gan gyfres o adolygiadau annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn blynyddoedd diweddar.

2.21 Yn 2003/2004, yn dilyn y drafodaeth am gyflwyno ffioedd hyfforddi amrywiol yn Lloegr, cytunodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylid datganoli cyfrifoldeb am gyllid myfyrwyr a'r drefn ffioedd hyfforddiant i Lywodraeth Cynulliad Cymru³⁰. Yn dilyn hynny comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad annibynnol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Teresa Rees CBE i'w chynghori ar y ffordd ymlaen yng nghyswllt ffioedd hyfforddiant a chymorth myfyrwyr³¹.

2.22 Cyhoeddwyd adroddiad Adolygiad Rees ym mis Mai 2005. Mae'r Adolygiad yn cydnabod yn glir rôl bwysig a chynyddol astudiaeth addysg uwch ran-amser yng Nghymru, gan dynnu sylw neilltuol at werth astudiaeth addysg uwch ran-amser wrth wella sgiliau cyflogeion, ehangu cyfranogiad, cefnogi adfywio economaidd, a gwella diwylliant sifil a diwylliannol yng Nghymru drwy effeithio ar gydlyniaeth gymdeithasol, dinasyddiaeth weithgar a mesurau eraill.

2.23 Roedd yr angen i sicrhau 'hyblygrwydd' yn y system cymorth myfyrwyr yn thema hanfodol yn yr adolygiad; er enghraifft, y medrai er y medrai dysgu gydol oes gynnwys astudiaeth addysg uwch medrai hefyd gynnwys hyfforddiant galwedigaethol a/neu lefel is barhaus. Y gosodiad cyffredinol oedd, er y gwnaed llawer eisoes i wella mynediad i, a darpariaeth, addysg ran-amser o fewn SAU Cymru, fod llawer yn parhau i'w wneud, yn neilltuol wrth sicrhau

²⁹ Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2006): *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

³⁰ Adran 27 a 38, *Part 3: Student Fees and Fair Access, Chapter 8, Higher Education Act 2004*, Llywodraeth y Deyrnas Unedig: Llundain

³¹ Adroddiad Terfynol Astudiaeth Annibynnol i ddatganoli'r System Cymorth Myfyrwyr a'r Drefn Ffioedd Hyfforddiant yng Nghymru (2005) *Fair and Flexible Funding: A Welsh Model to Promote Quality and Access in Higher Education* (Adolygiad Rees), Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

cydraddoldeb rhwng trefniadau astudio rhan-amser a llawn-amser. Yn y cyswllt hwn, cydnabu Adolygiad Rees y pwysau cynyddol ar SAU Cymru (fel sefydliadau masnachol) i sicrhau fod cyrsiau rhan-amser yn rhoi adenillion ariannol tebyg i'w cymheiriaid llawn-amser³². Yn neilltuol, cydnabuwyd y medrai unrhyw fwch sylweddol rhwng yr adenillion ariannol a gynhyrchwyd o ddarpariaeth ran-amser a darpariaeth llawn-amser oedd yn ganlyniad y trefniadau ffi newydd greu gwrthanogaeth i addysg uwch Cymru yn ei chyfanrwydd i gyflenwi darpariaeth ran-amser (a chyrsiau hyblyg eraill megis cyrsiau byr) ac y medrai fod o anfantais neilltuol i'r SAU hynny oedd â ffocws cymharol fwy ar ddarpariaeth ran-amser³³.

2.24 I gloi, awgrymodd yr awdroddiad y dylai unrhyw drefniadau cyllido newydd ar gyfer addysg uwch a systemau cymorth myfyrwyr wella yn hytrach na pheryglu darpariaeth ran-amser lwyddiannus bresennol³⁴. Yn y cyswllt hwn, galwodd pedwerydd argymhelliad yr Adolygiad (oedd yn canolbwyntio ar fyfyrwyr rhan-amser) am gynnal adolygiad annibynnol i wneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar greu system fforddiadwy, ymarferol, syml a thryloyw o ffioedd a chymorth myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr rhan-amser³⁵.

2.25 Yng ngoleuni Adolygiad Rees, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyflwyno strwythur ffioedd hyblyg uwch – yn debyg i gyflwyniad tebyg yn Lloegr – ar gyfer SAU yn dechrau yn 2007/2008. Galluogodd hyn SAU i godi hyd at £3,000 y flwyddyn ar gyfer ffioedd cwrs ar gyfer israddedigion llawn-amser a darpariaeth i gyflwyno benthyciadau ffioedd hyfforddiant i sicrhau nad oedd myfyrwyr llawn-amser yn gorfod talu unrhyw elfen o'r ffioedd ymlaen llaw. Fodd bynnag, ac yn wahanol i Loegr – cyflwynodd y Cynulliad Cenedlaethol hefyd Grant Ffi'r Cynulliad o £1,800 i fyfyrwyr yn hanu o Gymru sy'n dewis astudio mewn SAU yng Nghymru, gan felly roi uchafbwynt o £1,200 ar y ffioedd a delid gan unigolion.

³² *Adolygiad Rees*, tudalen 83

³³ Nododd yr Adolygiad fod SAU yn gorfod wynebu llawer o gostau sefydlog yn cynnwys staff, darpariaeth llyfrgelloedd, adeiladau ac adnoddau eraill p'un ai oeddent yn darparu cyrsiau rhan-amser neu llawn-amser. Gan fod ffioedd ar gyfer cyrsiau llawn-amser yn uwch na'u cyrsiau rhan-amser cyfatebol, byddai datgymhelliant cynhenid i SAU ddarparu cyrsiau rhan-amser.

³⁴ *Ibid*, tudalen 86

³⁵ *Ibid*, tudalen 53

- 2.26 Roedd y trefniadau yng nghyswllt ffioedd yn canolbwyntio'n benodol ar fyfyrwyr llawn-amser, gyda myfyrwyr rhan-amser heb fod yn gymwys naill ai am y Grant Ffi'r Cynulliad na'r Benthyciad Ffi Hyfforddiant.
- 2.27 Daeth yr ymateb i bedwerydd argymhelliad Adolygiad Rees ar wedd Adolygiad Graham - yr Adolygiad Annibynnol o Gyllid Addysg Uwch Rhan-amser yng Nghymru, a gadeiriwyd gan Dr Heather Graham, a adroddodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mehefin 2006³⁶.
- 2.28 Nod yr adolygiad oedd paratoi argymhellion ar system fforddiadwy, ymarferol a thryloyw o ariannu, ffioedd a chymorth myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr rhan-amser addysg uwch yng Nghymru³⁷ ac roedd yn seiliedig ar ddymuniad i sicrhau 'cydraddoldeb parch' at draws y gwahanol ymagweddau at ddysgu³⁸. Yn neilltuol, golygai hyn dderbyn nad oedd angen i batrymau dysgu ddilyn continwwm llawn-amser ond yn hytrach gydnabod a cheisio patrymau dysgu heb fod yn barhaus, hyblyg a rhan-amser. Yn hanfodol i hyn oedd cyflawni niwtraliaeth ariannol rhwng y dewisiadau sy'n cystadlu o astudiaeth llawn-amser, ran-amser neu doredig tra, ar yr un pryd, yn cydnabod fod terfyn ar adnoddau cyhoeddus.
- 2.29 Dangosodd yr ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad fod myfyrwyr yn dewis astudio'n rhan-amser am resymau pragmatig yn bennaf megis fforddiadwyedd, ymrwymadau teuluol a 'chyfleustra'³⁹. Y prif gymhellion oedd 'ennill cymhwyster', 'gwella sgiliau a rhagolygon gyrfa' ac i raddau llai 'ddiddordeb cyffredinol yn y pwnc' neu 'ddymuniad i gael eu hystyngiadau'⁴⁰.
- 2.30 Yn nhermau'r hyn oedd yn rhwystro pobl rhag astudio'n rhan-amser, canfu arolwg Adolygiad Graham i dros hanner y myfyrwyr rhan-amser ddweud nad

³⁶ Adroddiad Terfynol, cadeiriwyd gan Dr Heather Graham (2006) *Independent Review of Part-Time Higher Education Study in Wales* (Adolygiad Graham), Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

³⁷ Adroddiad Graham, tudalen 29 29

³⁸ Ibid, tudalen 28 yn seiliedig ar *National Committee of Inquiry into Higher Education (The Dearing Report)* 1997, DU:NCIHE Publications.

³⁹ Roedd cyfleustra ac argaeledd pynciau penodol hefyd yn helpu i benderfynu lle astudent.

⁴⁰ Adroddiad Graham, tudalen 8

oedd y cymorth ariannol a ddarparwyd yn ddigonol - a bod y canran hwn hyd yn oed yn uwch ar gyfer myfyrwyr ifanc a gweithwyr rhan-amser⁴¹.

2.31 Roedd yr Adroddiad yn glir wrth ddweud y dylai trefniadau cymorth yn y dyfodol gael eu darparu drwy system sy'n:

- ymatebol i, ac wedi ei theilwra ar gyfer, anghenion ehangach y gymdeithas a'r economi yng Nghymru;
- cael adnoddau digonol ac yn cynnig defnydd effeithiol o arian cyhoeddus;
- rhoi ystyriaeth i'r setliad a gytunwyd eisoes ar gyfer dysgwyr llawn-amser mewn addysg uwch yng Nghymru;
- diogelu a lle'n bosibl yn gwella cyfleoedd rhan-amser presennol mewn addysg uwch, yn cynnwys y rhai a gefnogir gan gyflogwyr;
- cynyddu cyfleoedd i bawb fedru cael mynediad a chymryd rhan mewn addysg uwch safon uchel;
- galluogi dysgwyr i wneud dewisiadau am ddull astudiaeth yn seiliedig ar yr hyn sydd fwyaf addas i'w hanghenion yn hytrach nag anogaeth neu wrthanogaeth ariannol (heblaw lle medrir rhoi cyfiawnhad gwrthrychol dros wahaniaethau o'r fath neu lle maent yn y diddordeb cyhoeddus);
- rhoi ystyriaeth i allu amrywiol myfyrwyr i wneud cyfraniad ariannol at gost eu hastudiaethau, a rhoi'r cefnogaeth fwyaf i'r rhai mewn angen mwyaf;
- heb achosi anfantais ariannol i sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd rhan-amser;
- galluogi myfyrwyr i ddilyn eu hastudiaethau hyd eithaf eu gallu;
- rhoi cydraddoldeb parch at wahanol ddulliau o astudiaeth, megis astudiaeth wyneb i wyneb a dysgu o bell;
- clir, syml, cynhwysfawr a chyson;
- hyblyg ac yn ymatebol i'r dysgwr a'r darparwydd ac yn rhwydd ei gweinyddu;
- seiliedig ar degwch a chyfle cyfartal;
- cynorthwyo i gynyddu cyfranogiad mewn dysgu o'r rhannau hynny o Gymru a'r adrannau hynny o gymdeithas Cymru lle mae lefelau cyfranogiad yn isel ar hyn o bryd;
- ymatebol i amgylchiadau dysgwyr o bob rhan o Gymru yn cynnwys rhai o gymunedau daearyddol anghysbell.⁴²

⁴¹ Ibid, tudalen 8

- 2.32 Cyflwynodd Adroddiad Graham 16 argymhelliad penodol, yn cynnwys model generig a ffafrir o gymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser ac argymhellion ehangach yn ymwneud â hawl a threfniadau, yn anelu i ostwng cymhlethdod, cynyddu cyfraddau defnydd a sicrhau cydraddoldeb (cyn belled ag oedd yn bosibl o gofio am gyfyngiadau ar adnoddau) gyda'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr llawn-amser.
- 2.33 Wrth gyflwyno'r argymhellion hyn, fodd bynnag, nododd yr Adroddiad yr anawsterau yn deillio o'r trefniadau darniog sy'n nodweddu cyllid ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a'r amrywiaeth o fathau o ddarpariaeth ran-amser (a myfyrwyr rhan-amser) yn SAU Cymru.
- 2.34 Roedd yr argymhellion yn golygu fod angen mabwysiadu model o gyllid myfyrwyr oedd yn nhermau cyllid cyhoeddus yn cynnwys – yn ychwanegol at daliad fesul pen ar gyfer pob myfyriwr a ymrestrodd a thaliad at gostau hyfforddiant wedi'i gyfrif pro rata ar sail niferoedd credydau a phwnc – ffrwd cyllid ychwanegol y bwriadwyd iddi wneud iawn am y ffioedd hyfforddiant is a dalir ar gyfanswm nifer y credydau rhan-amser a astudir ym mhob sefydliad⁴³.
- 2.35 Awgrymodd argymhellion eraill y dylai'r ffrwd cyllid ychwanegol hwn gael ei gysylltu â dwy thema ehangach polisi SAU, Ehangu Mynediad a gweithgareddau Trydedd Genhadaeth gyda chyflogwyr, yr ystyriwyd eu bod yn neilltuol o berthnasol i ddarpariaeth ran-amser.
- 2.36 Yng ngoleuni argymhellion Adolygiad Graham, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru weithgor o randdeiliaid allweddol yn y sector addysg uwch yng Nghymru i ddatblygu cynigion addas yn unol â chanfyddiadau'r Adolygiad. Yn ganolog i'w hawgrymiadau dilynol oedd ariannu gweithgareddau i gefnogi:
- yr agenda ehangu mynediad o fewn SAU (wedi'i gysylltu'n bennaf â strategaethau Ehangu Mynediad SAU ond hefyd yn cynnwys eu strategaethau dysgu ac addysgu);

⁴² Adroddiad Graham, tudalen 4

⁴³ Ibid, tudalen 74

- ymrwymo cyflogwyr (yn gysylltiedig â strategaethau Trydedd Genhadaeth SAU)⁴⁴.

2.37 Mae Ffigur 1 yn rhoi cefndir pellach ar y ddau faes hyn o weithgaredd SAU sy'n hollbwysig i ddealltwriaeth o'r ffordd y defnyddiwyd y cyllid ychwanegol.

Ffigur 1: Strategaethau Ehangu Mynediad a'r Drydedd Genhadaeth

Ehangu Mynediad

Cyflwynodd SAU Cymru strategaethau ehangu mynediad am y tro cyntaf, yn eu ffurf bresennol ym mis Chwefror 2001⁴⁵. Yn fras, nod yr agenda ehangu mynediad fu cael gwared â'r rhwystrau tybiedig ac ehangu mynediad i ddysgu mewn addysg uwch.

Gwnaeth y strategaeth Ymgeisio yn Uwch a gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2002 ymrwymiad ffurfiol - yn cynnwys ymrwymiad i gyllid ychwanegol - i gefnogi a datblygu'r agenda ehangu mynediad. Mewn ymateb, ffurfiodd CCAUC y cynllun Ymgyrhaedd yn Ehangach i hybu cynnydd yng nghyswllt y pedwar grŵp targed ehangu mynediad Ymgeisio yn Uwch: pobl yn byw yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, grwpiau pobl dduon a lleiafrif ethnig, pobl sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a phobl anabl. Sefydlwyd pedair partneriaeth ranbarthol - Gogledd, Gorllewin a'r Canolbarth, y De Orllewin a'r De Ddwyrain - yn 2002 i hybu gweithgareddau ehangu mynediad ac Ymgeisio yn Uwch mewn dull wedi'i gydlynw'n rhanbarthol⁴⁶.

Y Drydedd Genhadaeth

Ffurfiwyd Cronfa'r Drydedd Genhadaeth gan CCAUC ym mis Mehefin 2004 i gefnogi gweithgareddau sy'n ysgogi a chyfeirio cymhwysiad ac ymelwa ar wybodaeth er budd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd cymdeithas⁴⁷. Mae enghreifftiau o weithgareddau'r Drydedd Genhadaeth yn cynnwys cynlluniau'n cefnogi menter ac entrepreneuriaeth, yn cynnwys datblygu cwmnïau deillio, hyfforddiant, gwasanaethau ymgynghoriaeth ac ymchwil ar gontract i fusnesau, a phrosiectau arloesedd a throsglwyddo gwybodaeth.

⁴⁴ CCAUC (2009) *Evaluation of the Additional Funding for Part-time Student*, Adroddiad Terfynol a baratowyd gan Old Bell 3 Cyf (Tachwedd 2009), Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

⁴⁵ Arad Consulting, *Evaluation of the Widening Access Activities and Reaching Wider Initiatives in welsh higher education institutions*, Adroddiad Terfynol Ionawr 2007, tudalen i

⁴⁶ Gwerthusiad Arad Consulting tudalen ii

⁴⁷ Trefnadau Cyllido'r Drydedd Genhadaeth 2007-08 i 2009-10, Cylchlythyr CCAUC W07-18HE, 2 Mai 2007, tudalen 1

2.38 Canfu gwerthusiad o gyllid Graham a gynhaliwyd gan Old Bell 3 ar gyfer CCAUC yn 2009 er y bu dechrau araf gan rai SAU, fod tystiolaeth dda yn gyffredinol fod y mesurau wedi cael eu gweithredu⁴⁸. Ystyriwyd bod y gweithredu ar flaenoriaethau ehangu mynediad, ar y cyfan, yn ardderchog⁴⁹. Fodd bynnag, er y medrodd SAU yng Nghymru arddangos lefelau boddhaol o ymrwymiad cyflogwyr, mynegwyd pryder yn gyntaf fod y rhain yn tueddu i wyro'n ormodol at sefydliadau sector cyhoeddus ac yn ail mai anaml y gofynnid i gyflogwyr gyfrannu at gostau ymrwymiad ac unrhyw ddarpariaeth ddilynol. Roedd y canfyddiad diwethaf yn neilltuol o ddiddorol yn y cyd-destun yr ystyriai llawer o SAU fod y gweithgareddau ariannu ychwanegol yn doddi baich cost sylweddol ar orbenion presennol. Yn fwy cyffredinol, codwyd pryderon am categorïau Ehangu Mynediad a'r Trydedd Genhadaeth yng nghyswllt y graddau yr oedd SAU yng Nghymru wedi llwyddo i gysylltu gweithgareddau gyda deilliannau mesuradwy megis cynnydd y medrid ei briodoli yn y nifer o fyfyrwyr rhan-amser.

2.39 Roedd goblygiadau Adolygiad Graham a ffocws dilynol CCAUC ar weithgareddau Ehangu Mynediad a gweithgareddau ymrwymiad cyflogwyr yn anochel yn herio SAU yng Nghymru i edrych eto ar eu cysylltiadau presennol gyda Sefydliadau Addysg Bellach.

2.40 Yn 2007, galwodd yr Adolygiad Annibynnol ar Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru, a gadeiriwyd gan Syr Adrian Webb, am newidiadau blaengar yn y ffordd y darperir addysg ôl-14 yng Nghymru⁵⁰. Roedd yr 139 argymhelliad yn cynnwys yr angen i adeiladu cysylltiadau agosach rhwng addysg bellach ac addysg uwch (a rhwng addysg bellach ac addysg uwch a chyflogwyr) i sicrhau cadw a chefnogi dilyniant i astudiaeth lefel uwch, a thanlinellodd yr Adroddiad y pwysigrwydd fod addysg uwch yn cynnig llwybrau galwedigaethol, yn ymateb i anghenion cyflogwyr yn cynnwys graddau sylfaen.

⁴⁸ CCAUC (2009) *Evaluation of the Additional Funding for Part-time Student*, Adroddiad Terfynol a baratowyd gan Old Bell 3 Cyf (Tachwedd 2009), Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymrut.

⁴⁹ *Ibid*, tudalen 39. Er y teimlwyd y medrid bod darparu mwy yn gyffredinol o ran cefnogaeth fugeiliol.

⁵⁰ *Addewid a Chyflawniad: Adroddiad Adolygiad Annibynnol ar Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhagfyr 2007

- 2.41 Roedd yr argymhellion yn her gynhenid i agweddau presennol SAU at addysg bellach, gan mewn gwirionedd ofyn iddynt edrych eto ar brif fyrdwn '*Creu'r Cysylltiadau*' a mabwysiadu dull gweithredu a fyddai'n seiliedig ar gydwethio ar draws yr holl sector ôl-16 yn hytrach na chystadleuaeth.
- 2.42 Yn sgîl Adolygiad Webb a gyda phwysau'n cynyddu yn nhermau ymrwymadau ariannol yn deillio o'r pecyn cyllid myfyrwyr a gytunwyd fel canlyniad i Adolygiad Rees, yn 2008 comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Adolygiad Annibynnol o Addysg Uwch yng Nghymru dan gadeiryddiaeth yr Athro Merfyn Jones.
- 2.43 Cyflwynodd y Grŵp gam cyntaf ei ganfyddiadau, gyda ffocws ar gyllid myfyrwyr, ym mis Hydref 2008. Cadarnhaodd yr Adroddiad y dylai unrhyw system cyllid myfyrwyr 'fynd i'r afael yn effeithiol ag amcanion polisi Llywodreth Cynulliad Cymru gan gynnwys ehangu mynediad, cynyddu nifer y rhai sy'n astudio pynciau blaenoriaeth, sicrhau gweithlu medrus i Gymru, a hybu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg'⁵¹.
- 2.44 Nododd yr adolygiad nad oedd Grant Ffi'r Cynulliad (yn darparu grant o £1,800 i flwyddyn i fyfyrwyr israddedig llawn-amser yn hanu o Gymru) wedi'i dargedu'n dda tuag at y nodau polisi cyffredinol hyn ac argymhellodd ei ddiddymu, gyda myfyrwyr yn lle hynny yn medru cael mynediad i Fenthyciadau Ffi Hyfforddiant ar gyfer y ffi £3,000 llawn a godir gan SAU (fel oedd yn digwydd yn Lloegr). Dadleuwyd y medrid defnyddio'r arbedion a wnaed yn defnyddio'r dull gweithredu newydd hwn i ariannu cymorth wedi'i dargedu'n well at fyfyrwyr gyda'r anghenion ariannol mwyaf.
- 2.45 Gwnaeth Cam 2 yr Adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2009, nifer o argymhellion yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol berthnasol i astudiaeth ran-amser yng Nghymru, yn cynnwys:

⁵¹ *Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru Cam 1: Trefniadau Cyllid Myfyrwyr: Adroddiad gan Gadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen*, yr Athro R. Merfyn Jones, Hydref 2008.

- nodi'n gliriach rôl a phwysigrwydd addysg uwch i unigolion a chyflogwyr a chymunedau;
- adfywio'r Strategaeth Fynediad Genedlaethol i dargedu ardaloedd o gyfranogiad isel;
- dull gweithredu cliriach a mwy cryno i gyflenwi'r agenda ehangu mynediad, a fyddai'n cael ei gyflawni'n bennaf drwy gyfuno gwahanol feysydd cymorth presennol;
- fframwaith clir a thryloyw ar gyfer bwrsariaethau myfyrwyr gyda phrawf modd yn adlewyrchu anghenion dysgwyr a blaenoriaethau cenedlaethol;
- cefnogi'r trefniadau cymorth presennol yn deillio o Adolygiad Graham: 'Caiff dysgu rhan amser ei gefnogi a'i fonitro mewn ffordd sy'n cydnabod ei arwyddocâd presennol ac i'r dyfodol o ran cyflawni dyheadau, cynhwysiant a datblygu'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r trefniadau cefnogi presennol a gyflwynwyd ar ôl adolygiad Graham'⁵²;
- cryfhau'r berthynas rhwng busnes-addysg uwch i fod yn sail well i'r galw, ymelwa'n well ar wybodaeth drwy ymchwil gymwysedig a chynyddu hyfforddiant.

2.46 Fodd bynnag, nododd yr Adolygiad hefyd nifer o rwystrau posibl i weithredu'r argymhellion hyn yn llwyddiannus, yn cynnwys:

- gostyngiad diweddar yn nifer y myfyrwyr rhan-amser yng Nghymru (ar ôl twf sylweddol am ddegawd);
- ansicrwydd economaidd (ac ariannu) cyfredol yn gysylltiedig â'r dirwasgiad byd-eang diweddar;
- newidiadau sefydliadol (e.e. yr uniad rhwng Llanbedr Pont Steffan a Choleg y Drindod);
- tueddiadau tymor hwy yn cynnwys proffil demograffig heneiddiol.

Datblygiadau Polisi Diweddar

2.47 Ailadroddodd 'Cymru'n Un', y rhaglen ar gyfer llywodraeth glymbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol a fabwysiadwyd ddiwedd 2007, yr uchelgais am economi seiliedig ar wybodaeth a thanlinellu pwysigrwydd cynyddu

⁵² *Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru Cam 2* (Mehffin 2009), tudalen22.

hyblygrwydd y system addysg uwch a chyfranogiad oedolion mewn addysg uwch:

‘Rydym yn benderfynol o ddatblygu system addysg bellach ac uwch sy’n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu, sy’n ymateb i anghenion myfyrwyr a chyflogwyr, ac sy’n mynd i’r afael â thlodi ac anfantais. Rydym wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad ym maes addysg uwch’⁵³.

2.48 Cyflwynodd y rhaglen hefyd weledigaeth o Gymru ‘lle mai dysgu gydol oes yw’r norm’⁵⁴ a thanlinellodd bwysigrwydd mwy a gwell cydweithio rhwng sefydliadau addysgol a ffocws cynyddol ar ddatblygu’r sgiliau hynny oedd eu hangen yn y gweithle.

2.49 I gyflawni hyn cynigiodd ‘*Cymru’n Un*’:⁵⁵

- cymorth ychwanegol gyda dyled myfyrwyr a chadw’r lefelau ffioedd presennol yng Nghymru hyd at ac yn cynnwys 2009/10, ynghyd â chynnal y lefel bresennol o adnoddau drwy gydol tymor pedair blynedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gwneud beth bynnag oedd yn bosibl i liniaru’r effeithiau os byddid yn dileu’r uchafswm ar ffioedd ar fyfyrwyr yn hanu o Gymru;
- cefnogi gwaith ar ehangu cyfranogiad i bob oedran mewn addysg bellach ac addysg uwch, gan hyrwyddo dysgu oedolion yn y gymuned yng nghyswllt cyflogadwyedd a manteision ehangach addysg;
- sicrhau clymu cyllid ychwanegol gyda dulliau gweithredu newydd mewn addysg uwch, yn neilltuo’l yr agenda ail-gyflunio a chydweithio, sy’n anelu i gynyddu sefydlogrwydd ariannol SAU Cymru a datblygu patrwm mwy cydlynol o ddarpariaeth ar draws Cymru;
- Sefydlu Cronfa Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol newydd, Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, Canolfannau Ymchwil Cenedlaethol newydd a Rhwydwaith Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.

⁵³ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Cymru’n Un: Agenda blaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, tudalen 24.

⁵⁴ *Cymru’n Un*, tudalen 21

⁵⁵ *Ibid.*

2.50 Yn dilyn 'Cymru'n Un', roedd 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' (2008) yn disodli'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth cynharach (2005) ac yn ffurfio prif ymateb Cymru i ganfyddiadau Adolygiad Leitch.

2.51 Er nad oedd y strategaeth yn canolbwyntio'n ormodol ar SAU, gwnaeth gysylltiadau clir gyda'r agenda galw a chyflwyno'r achos dros geisio cyfraniadau ariannol uwch gan unigolion a chyflogwyr, yn neilltuol ar lefelau uwch o ddysgu⁵⁶. Dadleuodd y strategaeth am ymagwedd at addysg yng Nghymru oedd yn:

- integreiddio: cyswllt annatod rhwng sgiliau, cyflogaeth a datblygu busnes;
- ymatebol: 'ymateb i anghenion unigryw ein cwsmeriaid'⁵⁷;
- rhannu'r cyfrifoldeb: dylai unigolion a chyflogwyr gyfrannu at gostau dysgu lle y maent yn cael y budd gorau;
- ansawdd: diffiniwyd fel diwallu anghenion cwsmeriaid, gyda dim ond darpariaeth o safon yn derbyn cyllid cyhoeddus;
- cyfle cyfartal: i bawb o bynnag hil, ethnigrwydd, anabledd, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran neu grefydd neu ddewis darpariaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

2.52 Mewn llawer o ffyrdd gofynnodd y strategaeth i randdeiliaid yng Nghymru edrych ar yr agenda sgiliau gyda llygaid newydd. Er enghraifft, cafodd y 'diwylliant targedau' tybiedig ei drafod gyda chydabyddiaeth mai 'creu sgiliau' yn hytrach na chyflawni 'targedau cymwysterau mympwyol' oedd yr hyn oedd yn bwysig.⁵⁸

2.53 Soniodd yr adroddiad hefyd am bwysigrwydd:

- y Fframwaith Credydau a Chymwysterau yng Nghymru drwy gynnig mwy o hyblygrwydd i ddysgwyr yn y ffordd y maent yn astudio yn neilltuol yng nghyswllt cyrsiau byr gyda ffocws a gynhelir ar gyfnodau cyfleus i'r cwsmer⁵⁹;
- cynyddu'r galw am, a'r cyflenwad, o sgiliau canolraddol a lefel uchel, yn cynnwys sgiliau rheoli, arweinyddiaeth a thechnegol⁶⁰;

⁵⁶ *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, tudalen 29

⁵⁷ 'Cwsmeriaid' yw dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau ledled Cymru

⁵⁸ *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, tudalen 21

⁵⁹ *Ibid*, tudalen 62

- sicrhau cydbwysedd addas rhwng cefnogi datblygiad sgiliau ‘cludadwy’ ac arbenigol (h.y. penodol i’r cyflogydd)⁶¹;
- symleiddio prosesau ymgysylltu â chyflogwyr drwy Raglen Datblygu Gweithlu estynedig, yn gweithredu fel rhan o’r rhaglen Cymorth Hyblyg i Fusnes⁶²;
- SAU yn mynd i’r afael â materion maint drwy gydweithio gyda’i gilydd ac ymgysylltu gyda chyflogwyr ar brosiectau ar y cyd (er enghraifft drwy’r rhaglen Arbenigedd Academaidd i Fusnes).

2.54 Rhoddodd y strategaeth hefyd gymeradwyaeth benodol am y tro cyntaf i raddau sylfaen a chydabod y byddai’r rhan fwyaf o hyfforddiant ac addysg sgiliau gweithlu lefel-uchel yn rhan-amser. Yn ogystal ag ymrwymo cyllid (y Drydedd Genhadaeth) yn benodol i gysylltu gyda chyflogwyr, ystyriodd y strategaeth hefyd yr angen i dargedu nifer o sectorau blaenoriaeth ar gyfer economi Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys y sectorau hynny sy’n draddodiadol wedi gofyn am raddedigion mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) yn ogystal ag eraill a ystyriwyd yn strategol bwysig ar gyfer twf economi Cymru.

2.55 Ar sail y datblygiadau hyn, cyhoeddodd CCAUC ei Strategaeth Gorfforaethol newydd tair-blynedd yn 2009⁶³. Nododd y strategaeth nifer o ddeilliannau strategol y disgwylir iddynt fod yn eu lle mewn addysg uwch yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2012.

2.56 Er bod gan yr holl feysydd blaenoriaeth allweddol a ddynodwyd yn y strategaeth rai cysylltiadau gyda darpariaeth ran-amser yng Nghymru, roedd gan o leiaf dri maes gysylltiadau uniongyrchol neu gryf, sef:

- cyflawni’r agenda ad-drefnu a chydweithio;
- ehangu mynediad i addysg uwch, gyda phwyslais neilltuol ar fyfyrwyr rhan-amser;

⁶⁰ Ibid, tudalen 22

⁶¹ Ibid, tudalen 54

⁶² Ibid, tudalen 57

⁶³ Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (2009) *Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Corfforaethol 2009/110 i 2011/12*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009.

- cryfhau rôl economaidd, gymdeithasol a diwylliannol SAU, yn cynnwys yn yr agenda sgiliau a chyflogaeth, yn arbennig yng nghyd-destun yr heriau yn deillio o'r dirwasgiad⁶⁴.

2.57 Yn sail i'r amcanion hyn oedd yr angen i CCAUC gefnogi SAU wrth fabwysiadu ymagwedd fwy holistig at weithgareddau ar draws tri maes cenhadaeth addysg uwch (ymchwil, addysgu a'r drydedd genhadaeth) sy'n eu galluogi i sôn yn fwy effeithiol am eu heffaith ar les economaidd, cymdeithasol a diwylliannol⁶⁵. I gyflawni hyn, bydd angen i CCAUC weithio wmwyn partneriaeth gyda rhanddeiliaid o fewn a thu allan i'r sector addysg uwch.⁶⁶

2.58 Yn ôl y Cynllun Strategol, byddai hefyd angen cyflawni nifer o heriau tymor byr⁶⁷:

- effaith y dirwasgiad diweddar a sut i liniaru ei effeithiau;
- angen parhaus i symleiddio addysg uwch yng Nghymru drwy'r agenda ad-drefnu a chydweithio, yn cynnwys nifer o gynlluniau proffil uchel megis cydweithio ar gynllun Prifysgol Blaenau'r Cymoedd⁶⁸ a'r Coleg Ffederal gyda SAU;
- medru dangos cynnydd amlwg e.e. drwy ddatblygu fframwaith i gasglu tystiolaeth o ddarpariaeth ac effaith a gwerthuso effeithiolrwydd gwariant presennol wrth sicrhau deilliannau;
- sicrhau hyfywedd ariannol SAU Cymru, gan fod y newidiadau mewn trefniadau ffioedd hyfforddiant yng Nghymru yn effeithio ar y sector, newidiadau yn y defnydd strategol o gyllid craidd a ffactorau eraill allanol eraill megis cyfleoedd yn deillio o'r rhaglenni cyllid Ewropeaidd ar y sector.

2.59 Roedd y Cynllun Strategol hefyd yn codi pryderon yng ngoleuni penderfyniad yr Adran Arloesi, Prifysgol a Sgiliau (DIUS) fel y bodolai bryd hynny i ddileu cyllid

⁶⁴ Strategaeth Gorfforaethol, tudalen 9

⁶⁵ Ibid, tudalen 21

⁶⁶ Ibid, tudalen 6

⁶⁷ Ibid, tudalen 7 a 8

⁶⁸ Ibid, tudalen 24

ar gyfer myfyrwyr yn astudio am gymwysterau yn gyfwerth neu'n is na chymwysterau oedd ganddynt eisoes (y rheolau ELQ)⁶⁹.

- 2.60 Yn olaf, roedd y strategaeth ychydig yn aneglur am unrhyw gynlluniau penodol yng nghyswllt sicrhau 'cydraddoldeb' rhwng y profiad addysg uwch llawn-amser a rhan-amser, er y medrai materion megis gwella gofal bugeiliol a mynediad i gyfleusterau o fewn SAU gael eu cynnwys yn yr ymrwymiad i weithio gyda'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd i weithredu trefniadau sicrwydd ansawdd newydd i sicrhau darpariaeth o ansawdd ar gyfer dysgwyr a diwallu cyfrifoldebau statudol CCAUC a datblygu ymhellach eu dulliau gweithredu i gefnogi gwella ansawdd⁷⁰.
- 2.61 Er y bwriedir i Strategaeth Gorfforaethol CCAUC gwmpasu'r cyfnod hyd 2012, mae'r tirlun wedi newid ers ei chyhoeddi gan ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygiad Jones a gynhwysir yn '*Er Mwyn Ein Dyfodol*' (2009), y strategaeth newydd ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru⁷¹.
- 2.62 Mae'r strategaeth hefyd yn nodi dull gweithredu newydd at lawer o'r nodau gwreiddiol a ddisgrifiwyd yn '*Ymgeisio yn Uwch*'. Fel thema drosfwaol, mae'r adroddiad yn cydgydio syniadaeth bresennol ar yr hyn sydd ei angen er mwyn cyflawni'r nod o ddysgu gydol oes yng Nghymru a fyddai'n sylfaen i gyfraniad ehangach addysg uwch i amcanion economaidd a chyfiawnder cymdeithasol.
- 2.63 Ystyr hyn yn ymarferol yw system addysg uwch yng Nghymru sy'n arddangos mwy o gydlyniaeth a gallu i ymateb drwyddi draw⁷². Mae'r strategaeth yn cydnabod y bydd gan wahanol ddarparwyr wahanol gryfderau, yn ogystal â gwahanol amcanion sefydliadol⁷³. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn egluro'r angen i SAU gydweithio (a gydag addysg bellach) i ategu a gwella'r cryfderau a'r cenadaethau unigol hyn. Ymhellach, anogir addysg uwch i ddatblygu

⁶⁹ Ni chafodd y rheolau hyn eu gweithredu yng Nghymru hyd yma

⁷⁰ Ibid, tudalen 8

⁷¹ Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Tachwedd 2009) *Er Mwyn ein Dyfodol – Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru

⁷² *Er Mwyn Ein Dyfodol*, tudalen 11

⁷³ Ibid, tudalen 1

dimensiwn mwy rhanbarthol at gynllunio a chyflenwi addysg uwch er mwyn gostwng ymhellach gystadleuaeth leol nas dymunir rhwng darparwyr⁷⁴. Yn y ffyrdd hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud yn glir fod angen seilio cynllunio a chyflenwi ar y cyd ar fethodoleg newydd ar gyfer cyllido⁷⁵.

2.64 Mae *'Er Mwyn Ein Dyfodol'* hefyd yn pwysleisio y bydd angen i ddarparwyr addysg uwch fod yn fwy ymatebol wrth sicrhau fod y cyflenwad yn ateb y galw. Mae hyn yn golygu cydnabod ac addasu i newidiadau mewn 'proffiliau dysgwyr' a'u hanghenion cysylltiedig, er enghraifft, addasu i newidiadau yn y proffiliau oedran cyfartalog, cymhellion a disgwyliadau dysgwyr y dyfodol. Wrth fesur mesurau 'gallu i ymateb i'r farchnad', dylid cynnwys mesurau megis canfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr. Ymhellach, dylai 'cyflogadwyedd' fod yn ddeilliant allweddol o'r system addysg uwch. Mae hyn yn golygu pwyslais ar sgiliau gyda ffocws gwaith megis arweinyddiaeth, arwain tîm, arloesi a chyfathrebu, a gweithio gyda Chynghorau Sgiliau Sector, cyflogwyr ac eraill i sicrhau gwell cysylltiadau rhwng cynnwys cwrs a phrinder, bylchau ac anghenion sgiliau a ddynodwyd⁷⁶.

2.65 Mae'r strategaeth hefyd yn ei gwneud yn glir y disgwyliad y bydd addysg uwch yn rhoi mwy o gyfleoedd i unigolion ddysgu ar sail ran-amser, gyda mwy o hyblygrwydd yn rhan o'r cyrsiau a chynigion ehangach gan addysg uwch yn rhoi gwahanol ffyrdd i brofi addysg uwch.

2.66 Mae'r argymhellion eraill yn canolbwyntio ar:

- mwy o gwmpas ar gyfer dysgu mewn camau cynyddol drwy Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Mae hyn yn golygu mwy o ystyriaeth i achredu dysgu blaenorol a gwaith pellach ar ddatblygu llwybrau;
- annog mwy o ddysgu seiliedig ar waith drwy bartneriaeth rhwng cyflogwyr a darparwyr a fyddai'n cynnwys llunio a chyflenwi'r dysgu hwnnw p'un ai ar wedd cyrsiau safonol fel Graddau Sylfaen neu ddysgu pwrpasol;

⁷⁴ Ibid, page 12

⁷⁵ Ibid, page 11

⁷⁶ Ibid, tudalen 6

- parhau gwaith ehangu cyfranogiad a gwella llwybrau i ddysgu addysg uwch gan SAU yng Nghymru drwy gydweithio gyda chyrff partner i sicrhau mynediad cyfartal, gan dargedu'n neilltuol ardaloedd gwledig a/neu amddifadus;
- mwy o bwyslais o fewn y system addysg uwch ar gefnogi ailhyfforddi/ailsgilio a phynciau STEM yn gyffredinol;
- mwy o gydraddoldeb rhwng myfyrwyr rhan-amser a llawn-amser yn nhermau cefnogaeth ariannol a pholisi ffioedd.

Esblygiad polisi'r Deyrnas Unedig

2.67 Y tu allan i Gymru, roedd Adroddiad King ar astudiaeth ran-amser mewn addysg uwch yn y Deyrnas Unedig (2008) yn adolygiad sylweddol o'r sefyllfa bresennol a'r rhagolygon ar gyfer addysg uwch ran-amser o fewn y Deyrnas Unedig gan gadarnhau, er y cyflawnwyd llawer ers adroddiad Leitch, bod llawer mwy i'w wneud⁷⁷. Nododd yr adroddiad mai ychydig dros chwarter oedolion sydd â gradd – llai na llawer o wledydd eraill yr OECD a chryn dipyn yn is na tharged Leitch y byddai gan fwy na 40% o'r boblogaeth oedran gwaith â chymhwyster i lefel 4 ac uwch erbyn 2020⁷⁸.

2.68 Dynododd yr adroddiad rhai rhwystrau sy'n llesteirio dilyniant gyda'r agenda rhan-amser, yn cynnwys:

- cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser sy'n is nag sydd ar gael i fyfyrwyr llawn-amser gan gynyddu'r canfyddiad fod astudiaeth ran-amser yn llai pwysig nag astudiaeth lawn-amser;
- materion yn ymwneud â mynediad i ddysgu yn weinyddol ac yn ddaearyddol (yn cynnwys diffyg dulliau ar-lein a dysgu cyfunol);
- systemau, amserlenni a chalendrau prifysgol traddodiadol yn dal i gael eu paratoi yng nghyswllt astudiaeth lawn-amser ac yn fwy cyffredinol ddiwylliant

⁷⁷ King C. (2008) *Part-time Study in Higher Education*, adroddiad a gomisiynwyd gan John Denham, Ysgrifennydd Gwladol Arloesedd (Adroddiad King), Universities and Skills, Llundain: HMSO.

⁷⁸ Yn ddi-ddorol, ar y pwynt hwn, mae Sefydliad Polisi Addysg Uwch wedi cyflwyno tystiolaeth mai dim ond drwy gynydd sylweddol mewn darpariaeth ran-amser y medrir cyrraedd targed Leitch. (Gweler Bekhradnia, B (2007) *Demand for higher education to 2020 and beyond*, Adroddiad HEPI Crynodeb 31).

addysg uwch yn seiliedig ar dybiaeth y dylai dysgwyr wneud i'w bywydau ffitio gyda'r systemau hyn yn hytrach na'r ffordd arall o amgylch;

- crynhoi darpariaeth ran-amser mewn dim ond rhai o SAU ar draws y Deyrnas Unedig, gyda 77% o'r myfyrwyr rhan-amser mewn 60 o SAU;
- mynediad i gyfleusterau prifysgol megis cymorth myfyrwyr, arlwyo neu lyfrgelloedd yn gyfyngedig iawn ar fin-nos a phenwythnos, gan wneud dysgu rhan-amser yn 'brofiad llwm';
- risg gweithio gyda chyflogwyr ac felly fod yn agored i risgiau yn seiliedig ar y penderfyniadau a wnânt ac y cyd-destun y gweithredant ynddynt, a all yn aml fod yn ansicr.

2.69 Soniodd yr adroddiad hefyd am yr eironi, er bod 83% o fyfyrwyr rhan-amser mewn cyflogaeth, ei bod hefyd yn wir fod 66% o fyfyrwyr llawn-amser mewn cyflogaeth yn ystod y tymor a 82% yn y gwyliau⁷⁹.

2.70 Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod cymhlethdod trefnu darpariaeth i ddiwallu anghenion amrywiol gwahanol fathau o fyfyrwyr rhan-amser wedi arwain at dderbyn y sefyllfa yn dadedog mewn cyfarfodydd cynllunio prifysgolion a rhoi darpariaeth ran-amser ar y cyrion o gymharu â'r 'busnes go iawn' o addysg llawn-amser. I rai mewn Sefydliadau Addysg Uwch, dywedwyd fod ail-flaenoriaethu'r system tuag at ddarpariaeth ran-amser yn debyg i'r 'gynffon yn ysgwyd y ci'⁸⁰.

2.71 Serch hynny, gan nodi fod tua 40% o holl fyfyrwyr addysg uwch y Deyrnas Unedig eisoes yn astudio ar sail ran-amser, pwysleisiodd adroddiad King y rôl ganolog y medrai SAU ei chwarae wrth helpu i gefnogi'r agenda sgiliau.

Soniodd yr adroddiad am nifer o ffactorau galluogi yn cynnwys:

- mynediad i dechnolegau newydd yn rhoi ffyrdd newydd o ddysgu yn cynnwys dulliau ar-lein a chyfunol;
- agweddau cynyddol hyblyg o fewn SAU;

⁷⁹ Callender, C et al. (2006) *Part-time research strand 3: A survey of students' attitudes and experiences of part-time study and its costs*.

⁸⁰ Adroddiad King, tudalen 4.

- SAU mewn lle da i sicrhau nid yn unig gynnydd mewn dysgu rhan-amser a hyblyg ond hefyd yn dangos cynnydd mewn sgiliau yn benodol gysylltiedig â ffyniant economaidd megis arloesi, creadigrwydd a menter⁸¹;
- y potensial i SAU gynnig llawer mwy wrth ragweld a hyrwyddo yr hyn a elwir yn 'bynciau gwawr', y meysydd sgil newydd hynny y mae'n debygol y bydd galw mawr amdanynt yn y dyfodol;
- darpariaeth ran-amser yn ymddangos yn nes at lawer o sefyllfaoedd economaidd modern megis symudedd economaidd, diwedd swydd am oes a llwybrau aml-yrfa wrth i rai sectorau gynyddu ac eraill ostwng;
- cysylltiadau clir gyda newidiadau yn agweddau cymdeithas a normau diwylliannol megis rhieni yn weithgar mewn cyflogaeth neu hyfforddiant yn ystod blynyddoedd cynnar magu plentyn;
- yn y farchnad fyd-eang gystadleuol ar gyfer recriwtio dysgwyr bod gweithlu presennol y DU yn cynnig galw mawr sydd i raddau helaeth yng nghudd⁸², gyda thystiolaeth yn awgrymu er bod cynnydd mewn astudiaeth ran-amser yn bennaf gysylltiedig gyda dysgwyr hŷn yn ymuno neu'n ailymuno ag addysg uwch, bod mwy o bobl ifanc hefyd yn dewis dysgu rhan-amser mewn addysg uwch;
- tystiolaeth gynyddol y medrai SAU ymateb i'r her o ddarparu dulliau dysgu hyblyg drwy gydnabod a diwallu anghenion ystod eang o fathau dysgwyr.

2.72 Gan gyfeirio at waith Beer a Marr (2007), awgrymodd Adroddiad King opsiynau (er y gall rhai ohonynt fod braidd yn ddelfrydgar) ar gyfer cynyddu hyblygrwydd⁸³. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, dileu'r rhaniad rhwng ariannu llawn a rhan-amser yn nhermau rheoleiddio, cyllid a chymorth, a chyflwyno systemau cyllido hyblyg yn seiliedig yn llwyr ar y credyd a gyflawnwyd, beth bynnag oedd modd a dull cyflenwi, maes pwnc a ph'un a yw dysgwr yn mynd mewn ac allan o ddysgu.

⁸¹ Ibid, tudalen 2

⁸² DIUS (2008) Adroddiad ymchwil 08 06 *University is not just for young people: Working adults' perceptions of orientation to higher education*, Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth.

⁸³ Beer, J a Marr, L (2007) *Re-imagining the Student Experience* Anerchiad allweddol yng nghynhadledd flynyddol HEA, Harrogate, 2007.

2.73 Yn olaf, mae'r adroddiad yn rhoi nifer o argymhellion ar gyfer gwneuthurwyr polisi yng nghyswllt addysg uwch ran-amser. Ymddengys mai prif fyrddwn yr argymhellion hynny yw:⁸⁴

- gweithio gyda'r sector addysg uwch a chyflogwyr i ddeall mwy am anghenion rhanddeiliaid allweddol yng nghyswllt addysg uwch ran-amser a'r ffyrdd y meddir cefnogi'r anghenion hyn;
- adnabod risgiau herio darpariaeth addysg uwch draddodiadol a darparu cymorth yn cynnwys cymorth ariannol sy'n cydnabod y costau ychwanegol yn gysylltiedig gyda newid;
- cefnogi - efallai drwy ddangosyddion perfformiad diwygiedig - SAU i herio diwylliant cyfredol y sector sy'n tueddu i roi mwy o barch i'r academyddion hynny sy'n cynnal ymchwil neu'n darparu addysgu na'r rhai sydd er enghraifft yn darparu dysgu hyblyg a datblygu gweithlu;
- tanlinellu cyfraddau cadw fel y mesur allweddol ar gyfer bodlonrwydd dysgwyr rhan-amser ac arwydd o hyblygrwydd SAU wrth ddiwallu anghenion dysgwyr;
- cydnabod, er bod gwahaniaethau rhwng galw dysgwyr unigol ar Lefel 4 ac uwch a galw cyflogwyr, fod y ddau yn bwysig i'r rhan fwyaf o SAU;
- sicrhau bod mynediad cyfartal i ddarpariaeth addysg uwch ran-amser;
- sicrhau fod y systemau cyngor ac arweiniad presennol yn cynnwys gwybodaeth ar gyfleoedd dysgu hyblyg ac ymchwilio'r cysyniad o system gais genedlaethol (ar hyd llinellau UCAS ar gyfer myfyrwyr llawn-amser) i wasanaethu anghenion ymrwymiad a gwybodaeth defnyddwyr yn well;
- sicrhau datblygiad dulliau ariannu addas i hwyluso twf dysgu hyblyg;
- cyflwyno system o gyllid a chymorth myfyrwyr ar gyfer pob dull dysgu sy'n ysgogi dilyniant ac ystyried dulliau gweithredu gwledydd fel Norwy a ddangosodd dwf sylweddol mewn dysgu rhan-amser;
- mabwysiadu barn realistig o ymrwymiad cyflogwyr a gweithio i bennu'n well faint galw cyflogwyr a chost cyflenwi rhaglenni pwrpasol;
- deall na ddylai cyd-ariannu (mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch yn Lloegr wedi ceisio cynyddu'r gyfran o gyfanswm costau dysgu cysylltiedig â gwaith y mae cyflogwyr yn talu amdano) gymryd lle cyllid prif ffrwd fel model i gyflenwi mynediad estynedig i sgiliau a chymwysterau lefel uwch.

⁸⁴ Adroddiad King, tudalen 10 a 11

2.74 Dylid hefyd sôn yr ymddengys mai'r cysyniad sy'n sail i lawer o Adroddiad King yw mai'r dysgwyr eu hunain sy'n herio strwythurau a thybiaethau addysg uwch. Yr honiad yw bod newidiadau ehangach mewn cymdeithas yn golygu fod myfyrwyr yn gynyddol ddetholgar yn eu dewis o ddarparwydd dysgu ac y gall hyn fod yn neilltuol o amlwg ar gyfer dysgwyr rhan-amser. O'r herwydd, am y tro cyntaf gallai SAU fod yn gorfod addasu eu dulliau gweithredu i anghenion a dymuniadau dysgwyr.

2.75 Yn dilyn Adroddiad King, mae'r strategaeth '*Higher Ambitions*' a gyflwynwyd gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn ymrwymo Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau y gall pawb sydd â'r gallu i gael budd ohono gael mynediad i addysg uwch⁸⁵. Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i fynd ymhellach gyda phethau fel ehangu cyfranogiad, er enghraifft, ddefnyddio ffyrdd newydd i ddefnyddio data cyd-destun yng ngweithdrefnau derbyn SAU i asesu gallu a photensial rhai o gefndiroedd tlawd i lwyddo⁸⁶. Mae'n werth nodi fod y strategaeth hefyd yn galw am addysgu ardderchog ar gyfer pob myfyriwr mewn addysg uwch, gyda phrifysgolion yn cystadlu i ddenu myfyrwyr ar sail eu gwasanaeth ardderchog⁸⁷. Ymddengys fod hyn rywfaint yn wahanol i '*Er Mwyn Ein Dyfodol*' sy'n galw am fwy o gydweithredu a llai o gystadlu ar lefel leol, er ar yr un pryd, mae'n amlwg yn cyd-fynd gyda'r agenda yng Nghymru i roi lle blaenllaw i 'brofiad myfyrwyr' addysg uwch yn y deilliannau ar ôl eu hailddiffinio (gyda chyfeiriad marchnad).⁸⁸.

2.76 Serch hynny, ac yn unol gyda '*Er Mwyn Ein Dyfodol*', mae '*Higher Ambitions*' yn tanlinellu ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynyddu maint darpariaeth ran-amser:

'In order to attract a greater diversity of students, more part-time study, more vocationally-based foundation degrees, more work-based study and more

⁸⁵ Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2009), *Higher Ambitions: The future of universities in the knowledge economy, Executive Summary*, Llywodraeth y DU: Llundain, tud 33

⁸⁶ Ibid, tudalen 5

⁸⁷ Ibid, tudalen 12

⁸⁸ Ibid, tudalen 5. Dywedodd canfyddiadau o astudiaeth gan Brifygol Bryste a adroddwyd ym mhapur newydd The Times (28 Mawrth 2010) y gall y dulliau gweithredu posibl gynnwys derbyn graddau is gan fyfyrwyr sy'n mynychu ysgolion mewn ardaloedd amddifadus.

study whilst living at home must be made available. This is a core aim of these proposals, and our wider skills strategy⁸⁹.

2.77 Ymysg pethau eraill, ystyriodd adolygiad yr Athro Adrian Smith yn 2010 o Addysg Uwch i ôlraddedigion yn y Deyrnas Unedig faterion eraill yn ymwneud â mynediad i gyrsiau ôlraddedig⁹⁰. Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- gwnaed cynnydd da yng nghyswllt darparu dulliau eraill o gynnig cyrsiau megis dysgu o bell, dysgu cyfunol a chysiau ôlraddedig modwlar;
- mae SAU a gwasanaethau gyrfaoedd yn darparu lefelau da o wybodaeth hygyrch (yn arbennig ar-lein) er nad oes un pwynt cyfeirio ar gyfer rhywun sy'n ystyried astudiaeth ôl-radd;
- dim ond lleiafrif o'r ôlraddedigion a ddysgir sy'n derbyn cymorth ariannol ar gyfer astudiaeth ôlraddedig ac mae systemau'n wahanol iawn i'r hyn sydd ar gael ar gyfer lefel israddedig;
- mae'n syndod cyn lleied a wyddys am gefndir ôlraddedigion, ac yn neilltuol os yw rhai o gefndiroedd llai breintiedig yn llai tebygol o gymryd rhan;
- dylid gwneud mwy ar yr ochr gyflenwi i sicrhau fod sgiliau ôlraddedig yn ymateb i anghenion a gofynion y farchnad lafur. Mae hyn yn golygu cysylltu gyda Chynghorau Sgiliau Sector ac eraill i ddynodi'r materion penodol sy'n cyfeirio at sgiliau lefel ôlraddedig;
- dylid gwneud mwy ar yr ochr gyflenwi i sicrhau fod sgiliau ôlraddedig yn ymatebol i anghenion a gofynion y farchnad lafur. Mae hyn yn golygu ymgysylltu gyda Chynghorau Sgiliau Sector ac eraill i ddynodi'r materion penodol yn gysylltiedig â sgiliau lefel ôlraddedig;
- dylai SAU weithio gyda'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd i oresgyn unrhyw rwystrau y medrir eu dynodi i roi sicrwydd ansawdd i ddarpariaeth ôlraddedig hyblyg a gaiff ei chyflenwi yn rhannol yn y gweithle neu gan fwy nag un SAU.

2.78 Yn olaf, dylid pwysleisio y gall *Lord Browne's Review of Student Finance in HE in England* gael effaith bwysig (efallai hollbwysig) ar dirlun addysg uwch ran-amser yng Nghymru. Bydd yr adolygiad, fydd yn ystyried myfyrwyr llawn-amser

⁸⁹ Ibid., tudalen 3

⁹⁰ Yr Athro Adrian Smith (Mawrth 2010), *One Step Beyond: Making the most of post graduate education*, Adolygiad a gyflwynwyd i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Llundain.

yn ogystal â myfyrwyr rhan-amser, yn edrych ar fantol cyfraniadau i brifysgolion gan drethdalwyr, myfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr. Caiff ystod o opsiynau - yn cynnwys y lefel ffioedd hyfforddiant - eu hystyried.

- 2.79 Fodd bynnag, er na chaiff y canfyddiadau eu cyhoeddi cyn yr Etholiad Cyffredinol, beirniadwyd yr adolygiad am baratoi'r ffordd ar gyfer ffioedd uwch a marchnad mewn prisiau fyddai'n golygu na fyddai myfyrwyr tlotach yn medru fforddio ffioedd y prifysgolion uchaf eu bri⁹¹.

Ymchwil Ddiweddar i Ddarpariaeth Ran-amser

- 2.80 Mae ymchwil ddiweddar arall a gynhaliwyd i'r sector addysg uwch wedi ystyried nifer o faterion yn ymwneud â ffactorau galw ac ochr gyflenwi.
- 2.81 Mae nifer o adroddiadau polisi DU-gyfan wedi canolbwyntio ar bobl hŷn a goblygiadau newid demograffig ar batrymau dysgu. Mae *'Building a society for all ages'*⁹², *'The learning revolution'*⁹³ a *'Inquiry into the future of lifelong learning'*⁹⁴ i gyd wedi tanlinellu pwysigrwydd addysg ar gyfer rhai dros 50 oed. Fodd bynnag, yn ôl NIACE, mae cydbwysedd cyfle a chymorth ar gyfer dysgu drwy wahanol gyfnodau bywyd o anghywir⁹⁵. Nodant fod cyfranogiad yn gostwng yn uniongyrchol gydag oedran mewn ffordd llawer mwy nag y medrid ei esbonio gan unrhyw ostyngiad cysylltiedig ag oedran ar sail unigol⁹⁶. Yn lle hynny cynigiant y dylid mabwysiadu model newydd o gwrs bywyd addysgol fel modd o dargedu adnoddau'n well at anghenion penodol ar draws y cenedlaethau. Diffinnir eu model gan bedwar cam grŵp oedran: dan 25, 25-50, 50-75, 75+ oed⁹⁷.

⁹¹ <http://news.bbc.co.uk/1/hi/education/8350051.stm>

⁹² Adran Gwaith a Phensiynau (2009) *Building a society for all ages* Llundain: DWP.

⁹³ Adran Arloesi, Prifysgolion a Sgiliau (2009) Llundain: DIUS.

⁹⁴ Schuller T a Watson D (2009) *Learning through life* Caerlŷr: NIACE.

⁹⁵ NIACE (2009) *Learning Through Life: Inquiry into the Future of Lifelong Learning* Crynodeb a baratowyd gan Schuller, T a Watson D, DU: Flexpress Ltd, tud. 4.

⁹⁶ Ibid, tudalen 5

⁹⁷ Ibid, tudalen 3

- 2.82 Mae adroddiad Universities UK *'Active ageing and universities engaging older learners'*⁹⁸ yn ystyried y materion addysg a hyfforddiant cyfredol a dyfodol yn ymwneud â dysgwyr hŷn (a ddiffinnir fel rhai 50 oed a throsodd) gan roi sylw neilltuol i'w hymgyfraniad mewn addysg uwch.
- 2.83 Gan nodi mai dim ond cyfran fechan o'r grŵp oedran 50+ sy'n ymwneud ag astudiaeth addysgol ffurfiol ar hyn o bryd ac y daw'r rhan fwyaf o'r galw am ddarpariaeth ran-amser gan 'fyfyrwyr aeddfed' o grwpiau oedran iau, dywed yr adroddiad gyda'r twf disgwylidig o tua miliwn o oedolion dros 50 oed yn y degawd nesaf, y bydd y cyd-destun ar gyfer addysg uwch yn debyg o newid yn syfrdanol⁹⁹. Pwynt canolog yr adroddiad yw y gall fod yn rhaid i ddinasyddion y DU weithio'n hirach ac ailhyfforddi mwy o weithiau yn ystod eu bywydau nag mewn cenedlaethau blaenorol. Ymhellach, caiff dulliau traddodiadol o weithio eu herio fel y dangosir gan y cynnydd diweddar mewn hunangyflogaeth, gweithio ran-amser a gwaith ymgynghoriaeth.
- 2.84 Mae'r adroddiad yn codi pryderon, er bod nifer o brifysgolion yn y Deyrnas Unedig wedi datblygu canolfannau neu sefydliadau dysgu gydol oes, yn y rhan fwyaf o achosion bod darpariaeth cyrsiau wedi ei 'adeiladu' ar dulliau presennol yn hytrach na chael ei deilwra neu roi ystyriaeth i anghenion neilltuol dysgwyr cenedlaeth hŷn ('trydydd oed'). Mae enghreifftiau'n cynnwys darpariaeth gyfyngedig o gyrsiau hyblyg yn darparu ar gyfer dulliau dysgu anffurfiol (fel y rhai a hyrwyddir gan Brifysgol y Trydydd Oed) a phryderon am gymorth ariannol (a gafodd ei ddileu eisoes yn Lloegr ac sydd dan drafodaeth yng Nghymru) ar gyfer rhai sy'n cymryd cymwysterau ar lefel is nag sydd ganddynt eisoes¹⁰⁰.
- 2.85 Yn fyr, mae'r adroddiad yn dadlau y gall SAU gymryd nifer o ddulliau i gefnogi dysgu 'trydydd oed', yn cynnwys¹⁰¹:

⁹⁸ *Universities UK (2010) Active ageing and universities: engaging older learners*, Adroddiad a baratowyd gan Phillipson C. ac Ogg J.

⁹⁹ *Ibid*, tudalen 11

¹⁰⁰ *Ibid*, tudalen 33-34 a 36

¹⁰¹ *Ibid*, tudalen 40

- rhaglenni addysgol a datblygiad personol: tebyg i ddarpariaeth bresennol dysgu gydol oes ond wedi'i deilwra at anghenion a chymhellion amrywiol y farchnad ôl-50;
- rhaglenni cysylltiedig â chyflogaeth i gefnogi'r rhai sy'n parhau/ymestyn eu bywydau gwaith. Bydd y pwyslais yma ar symud o gyflogaeth lawn-amser i hunangyflogaeth ac ymgynghoriaeth;
- rhaglenni cynhwysiant cymdeithasol: ehangu cyfranogiad ar gyfer rhai dros 50 yn ogystal â grwpiau oedran iau;
- rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol: gyda thema ganolog '*heneiddio egniol*'.

2.86 Yn nhermau ymrwymiad cyflogwyr, cadarnhaodd NIACE rôl bwysig cyflogwyr yn y penderfyniad i gymryd rhan mewn dysgu gydol oes¹⁰². Canfuont fod ymlyniad i waith yn 'ffactor rymus' wrth benderfynu cymryd rhan mewn dysgu. Hyd yn oed mewn swyddi isel eu statws, mae tebygrwydd pobl o gymryd rhan yn uwch nag ar gyfer rhai sydd yn llwyr allan o'r farchnad lafur¹⁰³.

2.87 Fodd bynnag, mae ymchwil gan y Cyngor Diwydiant ac Addysg Uwch yn awgrymu fod diffyg cyfatebiaeth rhwng anghenion tybiedig cyflogwyr a'r cyflenwad a gynnigir gan addysg uwch: mae cyflogwyr yn ystyried bod SAU yn cynnig hyfforddiant fwy ffurfiol (llai teilwredig) dros amserlenni hwy drwy gyfleusterau ar-safle (campws); eto mae cyflogwyr eisiau amrediad o bynciau hyfforddi a gaiff eu gyrru gan anghenion penodol ac ar wahân yn amrywio o wella sgiliau sylfaenol i PhD a chydweithio ar ymchwil lefel uchel¹⁰⁴.

2.88 Mae hyn yn creu dilema ar gyfer llawer o SAU: a ddylent wneud yr hyn y tybir eu bod orau am ei wneud neu herio dulliau gweithredu traddodiadol i gynnig datrysiadau mwy teilwredig? Mae'r ymchwil yn dadlau efallai mai dull tir canol sy'n cynnig y ffordd orau ymlaen: y bydd addysg uwch yn manteisio mwyaf o ganolbwyntio ar yr hyn y mae'n dda amdano - gan mai dyma'r hyn mae

¹⁰² NIACE (2009) *Learning Through Life: Inquiry into the Future of Lifelong Learning* Crynodeb a baratowyd gan Schuller, T a Watson D, UK: Flexpress Cyf. Tudalen 7

¹⁰³ Ibid, tudalen 5

¹⁰⁴ Cyngor Diwydiant ac Addysg Uwch, (2008) *Influence Through Collaboration: Employer Demand for Higher Learning and Engagement with Higher Education Summary Report* paratowyd gan Connor H. a Hirsh W., London: CIHE.

cyflogwyr yn ei werthfawrogi fwyaf - fodd bynnag, mae galw cyflogwyr am ddysgu uwch yn fwy tebygol o gael ei drosi'n llwyddiannus i gyflenwad addysg uwch os oes cydweithredu gwirioneddol a chyd-fudd, yn cynnwys rhoi ystyriaeth i anghenion y grŵp rhanddeiliad arall: y dysgwyr¹⁰⁵.

2.89 Yn ymarferol mae hyn yn golygu y dylai SAU:

- godi eu proffil drwy fwy a gwell marchnata ymysg cyflogwyr a rhoi gwybodaeth ar y mathau o ddulliau hyfforddiant ac addysg y medrant eu cynnig ac yn holl bwysig y buddion posibl i gyflogwyr o ymgysylltu gyda SAU;
- sicrhau nas anghofir am anghenion dysgwyr er enghraifft yng nghyswllt darpariaeth gwybodaeth ansawdd da a hygyrch gyda ffocws ar y dysgwr;
- bod yn barod i fuddsoddi lefelau priodol o adnoddau i feithrin cysylltiadau;
- cadw ymagwedd hyblyg, meddwl agored (medrai enghreifftiau gynnwys llunio darpariaeth yn seiliedig ar adborth dysgwyr; bod yn barod i weithio gyda, neu ar y cyd â, darparwyr hyfforddiant eraill; a bod yn barod i gyflenwi cyrsiau ymaith o'r campws) ac annog cyflogwyr a dysgwyr i fabwysiadu ffordd debyg o feddwl;
- bod â phroses drefniadaeth a gweinyddol effeithiol megis un pwynt cyswllt;
- gwneud y defnydd gorau o'r berthynas yng nghyswllt, er enghraifft, cael gwybodaeth ar yr ymchwil ddiweddaraf gan ddiwydiant a gwybodaeth ehangach yn cynnwys newyddion, 'sbardunau' ac amodau masnachu;
- cefnogi nodau ehangach prifysgolion drwy, er enghraifft, adeiladu cysylltiadau gyda chyflogwyr yng nghyswllt recriwtio graddedigion¹⁰⁶.

2.90 Yn gyffredinol, mae'r ymchwil yn cwestiynu dilysrwydd y math traddodiadol o gontract rhwng cwsmer-cyflenwr o gysylltiad rhwng cyflogwyr ac addysg uwch gan ffafrio yn lle hynny ddull lle mae cyflogwyr a darparwyr addysg uwch yn ymrwmo i adeiladu ymddiriedaeth a dealltwriaeth.

2.91 Daw'r ymchwil i ben drwy nodi y gall gwneuthurwyr polisi gefnogi ymrwymiad rhwng SAU a chyflogwyr drwy:

¹⁰⁵ Ibid, tudalen 9

¹⁰⁶ Ibid, tudalennau 10-12.

- gefnogi datblygu cydweithredu gwirioneddol yn hytrach nag ymrwymiad a arweinir gan gyflenwyr;
- cydnabod bod dysgu lefel uwch yn gweithredu o fewn rhwydwaith ehangach o ddarparwyr hyfforddiant ac y dylid datblygu'r cryfder hwn drwy gydweithio yn hytrach na chystadleuaeth;
- helpu cyflogwyr a darparwyr Addysg Uwch i ganfod partneriaid da a chynnal perthynas dros gyfnod;
- sicrhau rôl ganolog i Gynghorau Sgiliau Sector wrth leisio anghenion sgiliau'r sector i Addysg Uwch a helpu i hwyluso ymrwymiad cyflogwyr gydag Addysg Uwch;
- rhoi cymorth ymarferol a chyllid ond o fewn system sy'n llai cymhleth i gyflogwyr;
- hyrwyddo pwysigrwydd arloesi a chefnogi datblygiadau sgiliau yn gysylltiedig gydag arloesi ¹⁰⁷.

¹⁰⁷ Ibid, tudalen 13

3 PROFFIL CYFRANOGIAD RHAN-AMSER YN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH CYMRU

Crynodeb o'r Bennod

Er bod y ffigurau pennawd yn awgrymu y bu cynnydd cyson yn nifer a chyfran ymrestriadau myfyrwyr rhan-amser mewn addysg uwch, mae hyn i raddau helaeth oherwydd y caiff ymrestriadau Cymraeg i Oedolion, sy'n gyffredinol yn astudio ar lefelau islaw lefel israddedig ('addysg bellach') eu cynnwys yn y data ers yn gymharol ddiweddar. Ar ôl cynnydd cyflym ym mlynnyddoedd cyntaf y degawd, mae ymrestriadau israddedig rhan-amser wedi gostwng o uchafbwynt o 44,985 ers 2004/5, er yr ymddengys i hyn fod yn rhannol yn ganlyniad cwymp yn nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau llai dwys, gan y bu cyfanswm nifer y credydau yn cynyddu mewn blynyddoedd diweddar.

Mae SAU Cymru'n amrywio'n sylweddol yn nhermau rôl darpariaeth ran-amser. Mae ymrestriadau 'addysg bellach' yn elfen allweddol o ddarpariaeth ran-amser nifer o heb fod fawr o bwys i SAU eraill. Mae pedwar SAU yng Nghymru (y Brifysgol Agored yng Nghymru, Morgannwg, Glyndŵr a Chasnewydd) gyda'i gilydd yn cyfrif am fwy na 60% o ddarpariaeth addysg uwch ran-amser yng Nghymru, er y bu'r gyfran o ymrestriadau rhan-amer fel cyfran o'r holl ymrestriadau yn gostwng ym mhob un ohonynt, heblaw am y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Mae cyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser nag o fyfyrwyr llawn-amser yn fenywod (er bod hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng SAU ac mae myfyrwyr rhan-amser yn gyffredinol yn hŷn, gyda 71% rhwng 25 a 59 oed a dim ond 8% yn 20 oed ac iau (gyda'r ffigurau cyfatebol ar gyfer myfyrwyr llawn-amser yn 19% a 53%). Mae pedwar maes pwnc - leithoedd, Addysg, Busnes ac Astudiaethau Gweinyddol - yn cyfrif am tua 50% o'r holl ymrestriadau rhan-amser, er y bu hyn yn gostwng dros gyfnod.

Er yr ymddengys fod Cymru'n llwyddiannus wrth recriwtio myfyrwyr llawn-amser o ardaloedd gyda chyfranogiad cyffredinol isel mewn addysg uwch, mae hyn yn llai gwir ar gyfer myfyrwyr rhan-amser aeddfed.

Yn yr un modd er bod Cymru yn gyffredinol yn 'fewnforiwr' net o fyfyrwyr nid yw hyn yn wir am gyrsiau dysgu o bell, lle mai nifer cymharol fach o fyfyrwyr rhan-amser seiliedig yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau a ddarperir gan SAU Cymru. Heb gyfrif y Brifysgol Agored yng Nghymru, mae mwyafrif helaeth myfyrwyr rhan-amser yn SAU Cymru mewn darpariaeth seiliedig ar gampws, gyda dim ond 10% o'r holl ddysgwyr rhan-amser israddedig yn SAU Cymru yn dilyn cyrsiau dysgu o bell.

Caiff tua 14% o ddarpariaeth 'addysg uwch' a 34% o ddarpariaeth 'addysg bellach' (y rhan fwyaf ohono yn Gymraeg i Oedolion) ei ddarparu drwy drefniadau ffransais gyda Sefydliadau Addysg Bellach. Mae dau SAU - Casnewydd a Morgannwg - yn cyfrif rhyngddynt am dros 60% o'r 6,215 o ddysgwyr addysg uwch ar ffransais, er bod hyn hefyd yn gyfran sylweddol o ymrestriadau rhan-amser Glyndŵr, Llanbedr Pont Steffan ac UWIC. Mae 4,660 arall o ddysgwyr addysg ran-amser wedi ymrestru'n uniongyrchol yn SAU Cymru.

Nid yw tua 30% o'r israddedigion rhan-amser yn SAU Cymru yn dal ati i astudio ar ôl eu blwyddyn gyntaf - mwy nag ar gyfer myfyrwyr llawn-amser ond ychydig yn is nag ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Fodd bynnag, roedd myfyrwyr rhan-amser yn sylweddol fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ar ôl gorffen eu cyrsiau ac yn debyg o fod yn ennill incwm uwch na'u cymheiriaid llawn-amser - er y gall hyn yn rhwydd fod yn ganlyniad y proffiliau oedran gwahanol iawn a'r ffaith y byddai llawer o fyfyrwyr rhan-amser wedi bod mewn cyflogaeth pan oeddent yn astudio.

Mae darpariaeth ran-amser drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n eithaf cyfyngedig, gydag ychydig dan 4% o'r holl ddysgwyr yn derbyn rhan o'u hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, er bod nifer ymrestriadau wedi cynyddu ers 2006/7.

Patrymau a Thueddiadau mewn Cyfranogiad yn ôl Sefydliad, Pwnc, Nodau Cymhwyster, a Gwerthoedd Credyd

- 3.1 Ar draws Cymru ac yn cynnwys ymrestriadau ar gyfer dysgu mewn SAU nad yw ei hunan o lefel addysg uwch (a labelir yn ddarpariaeth ‘addysg bellach’¹⁰⁸ yn y data), gwelwyd cynnydd flwyddyn ar flwyddyn yn nifer yr ymrestriadau rhan-amser¹⁰⁹ yn SAU Cymru¹¹⁰ ers 2000/01 (Tabl 1). Rhwng 2000/01 a 2008/09 cynyddodd nifer y myfyrwyr a ymrestrodd ar gyrsiau rhan-amser ar draws SAU Cymru o 51,175 yn 2000/01 i 74,470 yn 2008/09.
- 3.2 Fel cyfran o'r holl ymrestriadau yn SAU Cymru, cynyddodd pwysigrwydd ymrestriadau rhan-amser dros tua'r ddeng mlynedd ddiwethaf - o 44% yn 2000/01 i 47% erbyn 2008/09, ond mae'r twf yma wedi sefydlogi dros tua'r tair blynedd ddiwethaf.

Tabl 1: Ymrestru (blwyddyn gron) yn SAU Cymru¹¹¹ yn ôl modd astudiaeth¹¹²

	2000/01	2000/02	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09
Rhan-amser	51,175	56,345	59,550	61,215	63,750	65,115	68,825	73,980	74,470
Llawn-amser	66,195	67,890	70,855	72,415	74,025	75,320	78,350	79,585	82,555
Cyfan	117,370	124,235	130,405	133,630	137,775	140,435	147,175	153,570	157,025
Rh-A fel % o'r Cyfan	44%	45%	46%	46%	46%	46%	47%	48%	47%

Ffynhonnell: HESA

- 3.3 Fodd bynnag, mae'r nifer o ymrestriadau rhan-amser (fel cyfran o bob ymrestriad yn sefydliadau addysg uwch Cymru) yn amrywio'n sylweddol (Tabl 2). Mae'r gwahaniaeth ym maint gwahanol SAU hefyd yn golygu fod rhai o'r

¹⁰⁸ Yn yr Adran hon defnyddiwn ‘addysg uwch’ ac ‘addysg bellach’ i gyfeirio at lefel (neu ndod cymhwyster) astudiaeth ac AU ac AB i gyfeirio at y math o ddarparwydd sy'n gyfrifol am gyflenwi'r dysgu.

¹⁰⁹ Myfyrwyr rhan-amser yw'r rhai a gofnodwyd fel bod yn astudio'n rhan-amser, neu'n astudio'n llawn-amser ar gyrsiau sy'n parhau llai na 24 wythnos, ar ryddhad bloc, neu'n astudio yn ystod y minnos yn unig. Myfyrwyr rhan-amser yn y tabl hwn yw'r rhai sy'n astudio ar bob lefel – lefel ôlraddedig, is-raddedig ac addysg bellach.

¹¹⁰ Yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru

¹¹¹ Yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru

¹¹² Newidiodd y ffordd y casglwyd data ar ddysgwyr (AB) Cymraeg i Oedolion o 2007/08. Mae hyn yn golygu y caiff sawl mil o ddysgwyr AB yng Nghymru a fyddid wedi eu cynnwys mewn man arall yn flaenorol yn awr yn cael eu hadrodd i HESA gan y pum SAU yng Nghymru sy'n gweithredu fel canolfannau rhanbarthol ar gyfer darpariaeth Cymraeg i Oedolion. Oherwydd hyn ni fedrir cymharu data 2007/08 yn iawn gyda data o 2007/08 ymlaen.

SAU gyda chyfraddau cyfartalog neu is na'r cyfartalog o ymrestriadau rhan-amser serch hynny yn gyfranwyr sylweddol at y boblogaeth myfyrwyr rhan-amser yn nhermau niferoedd absoliwt.

- 3.4 Dros y tair blynedd ddiwethaf y SAU Uwch mwyaf o ddigon o ran darpariaeth ran-amser fu Morgannwg (fel y medrir gweld islaw, mae hyn oherwydd darpariaeth sylweddol o addysg bellach) ac er y bu gostyngiad bychan yn nifer y dysgwyr rhan-amser sy'n astudio yn y Sefydliad rhwng 2007/08 a 2008/09, roedd yn dal i fod â 12,055 o ddysgwyr rhan-amser yn ystod 2008/2009. Mae Bangor, Caerdydd ac Abertawe hefyd yn chwaraewyr allweddol o ran darpariaeth ran-amser - ac er i Gaerdydd weld gostyngiad yn nifer a chyfran y dysgwyr rhan-amser rhwng 2006/07 a 2007/08 llwyddodd i adennill niferoedd tebyg erbyn 2008/09. Gwelodd Bangor ac Abertawe gynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr rhan-amser yn eu sefydliadau dros y tair blynedd ddiwethaf (o 6,710 yn 2006/07 i 9,390 erbyn 2008/09 ym Mangor ac o 4,835 i 8,810 yn Abertawe) er bod cyfran sylweddol o hyn yn debygol o fod oherwydd y caiff darpariaeth Cymraeg i Oedolion ei gynnwys o fewn data HESA o 2007/08 ymlaen (gweler islaw).
- 3.5 Ar wahân i'r Brifysgol Agored yng Nghymru, y SAU gyda'r *gyfran* uchaf o ymrestriadau rhan-amser (er yn is na blynyddoedd blaenorol) yw Llanbedr Pont Steffan (ar 71% o bob ymrestriad yn y sefydliad hwnnw yn ystod 2008/09) a ddilynir gan Glyndŵr a Chasnewydd. Fodd bynnag, bu'r gyfran o ymrestriadau rhan-amser yn gostwng yn yr holl SAU hyn dros y tair blynedd ddiwethaf gyda'r cyfraddau uchaf o ymrestriadau rhan-amser. Fodd bynnag, bu'r gyfran o ymrestriadau rhan-amser yn gostwng yn yr holl SAU hyn dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn wir, gwelodd pob SAU gyda'r cyfraddau uchaf o ymrestriadau rhan-amser yn 2006/07 gwmp ac eithrio Bangor (a all unwaith eto fod yn gysylltiedig gyda darpariaeth Cymraeg i Oedolion).
- 3.6 Ar draws SAU Cymru, UWIC a Chaerdydd sydd â'r gyfran isaf o ymrestriadau rhan-amser. Mae'r gyfran cymharol wael gan UWIC yn syndod o gofio am ei ffocws cryf ar bynciau galwedigaethol a chysylltiadau gyda diwydiant.

Tabl 2: Ymrestru Rhan-amser¹¹³ (blwyddyn gron) yn SAU Cymru yn ôl sefydliad

	2006/07 (Nifer)	2006/07 (% pob ymrestru)	2007/08 (Nifer)	2007/08 % pob ymrestru	2008/09 (Nifer)	2008/09 (% pob ymrestru)
Prifysgol Cymru, Caerdydd	5,920	61%	5,415	58%	5,240	56%
Prifysgol Glyndŵr	4,720	64%	4,505	62%	4,740	61%
UWIC, Caerdydd	2,415	23%	2,040	20%	2,610	23%
Prifysgol Morgannwg	13,025	51%	13,535	49%	12,055	47%
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	2,155	37%	2,110	37%	2,230	37%
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	1,095	45%	940	42%	1,105	47%
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	6,710	82%	6,410	81%	4,390	71%
Prifysgol Aberystwyth	4,640	40%	6,460	49%	6,465	47%
Prifysgol Bangor	6,715	48%	8,580	52%	9,390	53%
Prifysgol Caerdydd	9,950	33%	8,810	31%	9,965	33%
Prifysgol Abertawe	4,835	32%	8,065	44%	8,180	44%
Holl SAU Cymru	62,260	44%	66,880	46%	66,375	45%
Y Brifysgol Agored	6,565	100%	7,100	100%	8,095	100%
Cyfanswm (SAU Cymru a'r Brifysgol Agored)	68,825	47%	73,980	48%	74,470	47%

Ffynhonnell: HESA

3.7 Mae patrymau dros amser a hefyd rhwng SAU yn edrych ychydig yn wahanol pan gânt eu hystyried o safbwynt lefel neu nod cymhwyster y dysgu a ddarperir gan SAU Cymru (Tabl 3).

3.8 Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ran-amser yn SAU Cymru ar lefel addysg uwch - un ai israddedig neu ôlraddedig: yn y gorffennol mae hyn wedi cyfrif yn gyffredinol am 84% neu fwy o ymrestriadau rhan-amser yn SAU Cymru.

3.9 Fodd bynnag mewn blynyddoedd diweddar iawn cynyddodd pwysigrwydd addysg bellach¹¹⁴: erbyn 2008/09 roedd yn cyfrif am fwy na chwarter (28%) yr holl ymrestriadau yn SAU Cymru a bod y cynnydd yn nifer yr ymrestriadau ar gyfer y cyrsiau hyn wedi cuddio gostyngiad mewn niferoedd absoliwt ar gyrsiau addysg uwch yn y tair blynedd rhwng 2006/07 a 2008/09 (Tabl 3).

3.10 Medrir priodoli'r rhan fwyaf o'r cynnydd diweddar mewn ymrestriadau lefel addysg uwch ran-amser i newid yn y ffordd y cesglir data ar ddysgwyr ac ymrestriadau Cymraeg i Oedolion. Mae hyn yn golygu y caiff nifer o filoedd o ddysgwyr yng Nghymru a fyddai wedi eu cynnwys rywle arall o'r blaen yn awr

¹¹³ Diffiniwyd fel bod yn ymrestriadau heb fod yn llawn-amser

¹¹⁴ Myfyrwyr Addysg Bellach yw'r myfyrwyr hynny ar raglenni astudiaeth y mae lefel y cyfarwyddyd ar eu cyfer yn gyfartal neu'n is na lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, h.y. cyrsiau'n arwain at TAG Lefel A, VCA Lefel A neu SQA Uchaf/Uwch.

eu cyfrif yn y data i HESA gan y pum SAU yng Nghymru sy'n gweithredu fel canolfannau rhanbarthol ar gyfer darpariaeth Cymraeg i Oedolion.

3.11 Ymrestrïadau rhan-amser yn gyffredinol sydd i gyfrif am y mwyafrif helaeth o'r holl ymrestrïadau addysg bellach yn SAU Cymru (93% yn ystod 2007/08). Yn achos tri SAU (Aberystwyth, Abertawe a Chaerdydd), mae lleoedd rhan-amser yn cyfrif am eu holl ddarpariaeth addysg bellach ¹¹⁵.

Tabl 3: Ymrestru Rhan-amser (blwyddyn gron) yn SAU Cymru¹¹⁶ yn ôl lefel astudiaeth

	2000/01	2000/02	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09
Addysg Uwch (Gwir)	44,795	49,510	52,445	53,150	56,485	56,915	57,620	54,430	53,580
Addysg Uwch (%)	88%	88%	88%	87%	87%	87%	84%	74%	72%
Addysg Bellach (Gwir)	6,380	6,835	7,105	8,065	7,265	8,200	11,210	19,555	20,890
Addysg Bellach (%)	12%	12%	12%	13%	13%	13%	16%	26%	28%

3.12 Yn gyffredinol gwelodd ymrestrïadau lefel addysg uwch (israddedig ac ôlraddedig) yn SAU Cymru gynnydd mewn gwir dermau dros hanner cyntaf y ddegawd ddiwethaf, gydag ymrestrïadau ôlraddedig yn cyrraedd brig o 13,565 yn 2006/07 ac ymrestrïadau ôlraddedig yn cyrraedd brig o 44,985 yn 2004/05 (Tabl 4). Ers hynny, bu gostyngiad yn nifer yr ymrestrïadau ar gyfer addysg uwch ran-amser gydag ymrestrïadau israddedig yn parhau i ostwng flwyddyn ar flwyddyn ers 2006/07. Gall y gostyngiad yn y nifer o ymrestrïadau ôlraddedig rhwng 2006/07 a 2007/08 fod oherwydd newid yn niffiniadau HESA.

3.13 Er y gwelwyd cynnydd diweddar iawn yn nifer y myfyrwyr ôlraddedig rhan-amser rhwng 2007/08 a 2008/09 mae cyfanswm nifer y dysgwyr addysg uwch ran-amser yn dal i fod tua 4,000 yn is na'r brig yn 2006/07.

3.14 Ymrestrïadau israddedig sydd i gyfrif am fwyaf ymrestrïadau addysg uwch ran-amser SAU (ar 75% yn 2008/09) ac er nad yw'r gyfran wedi newid yn sylweddol, y mae rywfaint yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol, gan

¹¹⁵ Gweler Tabl 5.

¹¹⁶ Yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru

adlewyrchu'r ffaith y bu cynnydd mewn ymrestriadau ôlraddedigion a gostyngiad yn nifer ymrestriadau is-raddedigion.

3.15 Mae ymrestriadau is-raddedigion rhan-amser yn cyfrif am ychydig dros draean (37% yn 2008/09) yr holl ymrestriadau israddedig yn SAU Cymru, er bod hyn yn golygu, yn nhermau cyfwerth â llawn-amser, fod astudiaeth lawn-amser yn parhau'n bendant iawn y 'norm' ar lefel israddedig. Mae ymrestriadau ôlraddedig rhan-amser yn cyfrif am ychydig dros hanner (52% yn 2008/09) yr holl ymrestriadau ôlraddedig yn SAU Cymru.

Tabl 4: Ymrestru Addysg Uwch Rhan-amser (blwyddyn gron) yn SAU Cymru yn ôl nod cymhwyster¹¹⁷

	2000/01	2000/02	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09
Ôlraddedig	10,055	10,510	11,100	11,545	11,500	12,175	13,565	12,440	13,535
Ôlraddedig (%)	22%	21%	21%	22%	20%	21%	21%	23%	25%
Israddedig	34,740	39,000	41,345	41,600	44,985	44,740	44,055	41,985	40,045
Israddedig (%)	78%	79%	79%	78%	80%	79%	79%	77%	75%

Ffynhonnell: HESA

3.16 Ar lefel y DU, mae patrymau SAU yn y Deyrnas Unedig¹¹⁸ yn cadarnhau'r tueddiad hwn, gan ganfod ar draws y DU fod ymrestriadau israddedig mewn SAU wedi cynyddu gan 25% yn gyffredinol yn y cyfnod o 10 mlynedd rhwng 1998 a 2007/08. Aiff ymlaen i ddweud y bu *'noticeable greater increase in the number of part-time enrolments (especially in Scotland and Wales) than full-time enrolments at undergraduate level over the last 10 years'*. Fodd bynnag, newidiodd y tueddiad hwn mewn ymrestriadau rhan-amser ychydig yn y DU yn 2007/08 fel yng Nghymru ar yr un amser.

3.17 O safbwynt SAU (Tabl 5), mae symud darpariaeth addysg bellach yn newid 'trefn graddiad' gwahanol SAU, gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cyfrif am y nifer uchaf o ymrestriadau israddedig rhan-amser (ar ôl gweld twf sylweddol mewn blynyddoedd diweddar yn y nifer o ymrestriadau), yn gyfanswm o bron 19% ar gyfer pob ymrestriad o'r fath, a ddilynwyd gan

¹¹⁷ Yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru

¹¹⁸ O adroddiad gan yr Athro Brian Ramsden ar ran Grŵp Strategaeth Tymor Hwy Universities UK. Caiff nawfed rhifyn *Patterns of higher education institutions in the UK* ei gefnogi gan Uned Ewrop UK Higher Education sy'n seiliedig yn Universities UK.

Forgannwg (16%), Glyndŵr (11) a Chasnewydd (10%). Mae'r pedwar SAU hyn felly'n cyfrif am bron 60% yr holl ddarpariaeth ran-amser israddedig.

3.18 Fodd bynnag, ar wahân i'r Brifysgol Agored yng Nghymru, Llanbedr Pont Steffan sydd â'r gyfran uchaf o ymrestriadau ôlraddedig rhan-amser (ar 77%) gyda Glyndŵr a Chasnewydd yn dilyn.

3.19 Y sefydliadau gyda'r gyfran fwyaf o ôlraddedigion rhan-amser yw Casnewydd, UWIC a Morgannwg, er mewn termau absoliwt, mae gan Gaerdydd nifer sylweddol uwch o ymrestriadau rhan-amser ar y lefel hon. Yn ddiddorol, Abertawe a Bangor sydd â'r cyfrannau isaf o ymrestriadau rhan-amser ar lefel israddedig a hefyd ôlraddedig, gan awgrymu fod eu perfformiad cryf o ran niferoedd pennawd ymrestriadau rhan-amser wedi ei borthi gan eu presenoldeb cryf mewn darpariaeth addysg bellach neu gymunedol. Yn y cyddestun hwn, roedd dros ddau-draean ymrestriadau Abertawe a thros hanner rhai Aberystwyth ar lefel addysg uwch.

Tabl 5: Ymrestru rhan-amser ¹¹⁹ (blwyddyn gron) gan SAU Cymru yn ôl sefydliad a modd (2008/09)

	Ôlraddedig		Israddedig		Addysg Uwch	
	Nifer ymrestru rh.a.	% pob ymrestru ôl-radd	Nifer	% pob ymrestru isradd	Nifer	% pob ymrestru AB
Prifysgol Cymru, Casnewydd	1,090	64%	4,075	55%	75	32%
Prifysgol Glyndŵr	465	51%	4,275	63%	*	*
UWIC, Caerdydd	1,785	59%	825	10%	10	8%
Prifysgol Morgannwg	1,925	59%	6,435	36%	3,695	76%
Prifysgol Fetropoilitan Abertawe	660	57%	1,520	32%	50	32%
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	110	43%	995	48%	*	*
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	655	50%	3,735	77%	*	*
Prifysgol Aberystwyth	800	44%	2,135	25%	3,525	100%
Prifysgol Bangor	1,000	42%	1,855	21%	6,535	98%
Prifysgol Caerdydd	3,805	50%	4,085	20%	2,070	100%
Prifysgol Abertawe	730	34%	2,530	21%	4,925	100%
Holl SAU Cymru	13,020	51%	32,465	32%	20,890	93%
Y Brifysgol Agored	515	100%	7,580	100%	*	*
Cyfanswm (SAU Cymru a'r Brifysgol Agored)	13,535	52%	40,045	37%	20,890	93%

Source: HESA

*Mae'r eitem ddata yma yn ddatgeliadol ac nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi

¹¹⁹ Diffinir fel ymrestriadau heb fod yn amser-llawn

- 3.20 Mae mwy o fenywod yn cymryd rhan mewn astudiaeth ran-amser yn SAU Cymru na dynion (yn yr un modd â data ar draws y Deyrnas Unedig) a hyn fu'r tueddiad ers peth amser (Tabl 6). Mae'r gyfran o fenywod sy'n ymwneud ag astudiaeth ran-amser yn SAU Cymru wedi cynyddu ychydig dros y degawd diwethaf. Er enghraifft, cynyddodd y gyfran o fenywod sy'n ymwneud ag astudiaeth ran-amser (yn SAU Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru) fel cyfran o'r holl fyfyrwyr rhan-amser ychydig o 58% yn 2000/01, i 60% erbyn 2003/04 gan gyrraedd uchafswm o 62% yn ystod 2007/08. O gymharu, mae'r gyfran o fenywod sy'n ymwneud ag astudiaeth lawn-amser yn is - ar 52% yn 2007/08 er enghraifft - er bod menywod yn dal i fod yn y mwyafrif.
- 3.21 O'r holl fenywod oedd wedi ymrestru mewn SAU yn ystod 2008/09 yng Nghymru, roedd ychydig dros hanner ar gyfer astudiaeth ran-amser (51%), cynnydd bychan ar ganran 2007/08 o 49%. Dim ond 43% o'r holl ddynion a ymrestrodd yn SAU Cymru oedd ar gyfer astudiaeth ran-amser (eto'n gynnydd bychan ar gyfran 2007/08 o 41%).
- 3.22 Mae'r rhaniad rhwng benywod a gwrywod yn astudio'n rhan-amser ar draws SAU Cymru yn amrywio'n sylweddol - yn y Drindod, er enghraifft, roedd 82% o'r holl ymrestriadau rhan-amser yn ystod 2008/09 yn fenywod (cyfran uwch nag ar gyfer ymrestriadau llawn-amser) tra gostyngodd y gyfran i 44% yn Glyndŵr (cyfran is nag ar gyfer ymrestriadau llawn-amser).

Tabl 6: Ymrestru rhan-amser ¹²⁰ (blwyddyn gron) yn SAU Cymru yn ôl sefydliad a rhyw

	2007/08 Gwryw	2007/08 Benyw	2008/09 Gwryw	2008/09 Benyw
Prifysgol Cymru, Casnewydd	2,040 (38%)	3,375(62%)	1,955(37%)	3,285 (63%)
Prifysgol Glyndŵr	2,410 (53%)	2,100 (47%)	2,635(56%)	2,105(44%)
UWIC, Caerdydd	1,125 (55%)	915 (45%)	1,505(47%)	1,710(53%)
Prifysgol Morgannwg	5,440 (40%)	8,090 (60%)	5,060(42%)	6,990(58%)
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	925 (44%)	1,185 (66%)	925(41%)	1,305(59%)
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	175 (19%)	765 (81%)	200(18%)	905(82%)
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	2,370 (37%)	1,040 (63%)	1,835(42%)	2,560(58%)
Prifysgol Aberystwyth	2,090 (33%)	4,370 (67%)	2,000(31%)	4,465(69%)
Prifysgol Bangor	2,770(32%)	5,785 (68%)	3,060(33%)	6,330(67%)
Prifysgol Caerdydd	3,375(38%)	5,435 (62%)	3,735(38%)	6,230(62%)
Prifysgol Abertawe	2,470 (31%)	5,595 (69%)	2,490(30%)	5,690(70%)
Pob SAU Cymru	25,195 (38%)	41,650 (62%)	25,395(38%)	40,980(62%)
Y Brifysgol Agored	2,965 (42%)	4,135 (58%)	3,290(41%)	4,800(59%)
Cyfanswm (SAU Cymru a'r Brifysgol Agored)	28,165 (38%)	45,785 (62%)	28,685(39%)	45,780(61%)

Ffynhonnell: HESA

3.23 Mae'n debyg bod yr amrywiadau hyn yn adlewyrchu'r gwahanol gyfuniad o fathau o ddarpariaeth ran-amser (gweler Adran 4) a gwahanol gwricwla.

3.24 Mae dynion yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn astudiaeth addysg uwch ran-amser (yn hytrach nag astudiaeth addysg bellach ran-amser) na menywod (gydag, er enghraifft, tua 77% o ymrestriadau gwryw rhan-amser mewn SAU ar gyrsiau addysg uwch o gymharu gyda 69% o'r holl fenywod a ymrestrodd yn rhan-amser yn 2008/09). Cynyddodd y bwlch hwn yn ddiweddar iawn yn 2007/08 (rhwng 2000/01 a 2006/07 roedd tua 89% o bob ymrestriad gwryw rhan-amser ar gyfer astudiaeth addysg uwch o gymharu gyda 86% ar gyfer ymrestriadau benyw rhan-amser) ac ymddengys fod hynny oherwydd y gyfran uchel o fenywod mewn darpariaeth addysg uwch, nid yn lleiaf mewn darpariaeth Cymraeg i Oedolion.

3.25 Yn nhermau lleoliad eu cartrefi, mae myfyrwyr yn hanu o Gymru yn gyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser nag o fyfyrwyr llawn-amser yn SAU Cymru, gyda 66% o'r holl ymrestriadau addysg uwch ran-amser yn SAU Cymru (ac eithrio'r Brifysgol Agored yng Nghymru ¹²¹) yn hanu o Gymru o gymharu â 49% ar gyfer ymrestriadau addysg uwch llawn-amser.

¹²⁰ Diffiniwyd fel ymrestriadau heb fod yn llawn-amser

¹²¹ Caiff ymrestriadau ar gyfer y Brifysgol Agored eu gwneud drwy god post preswylfa, gyda'r holl ymrestriadau gan unigolion gyda chodau post Cymru yn awtomtig yn cael eu ymrestru yn y Brifysgol Agored yng Nghymru. Mae felly'n gwneud synnwyr i beidio cynnwys y data yma.

- 3.26 Mae'r gyfran o fyfyrwyr israddedig rhan-amser yn SAU Cymru yn unig (h.y. ac eithrio'r Brifysgol Agored yng Nghymru) sy'n hanu o Gymru hyd yn oed yn uwch (ar 73% o gymharu gyda 50% ar gyfer ymrestriadau ôlraddedig yn ystod 2008/09) ond mae'r tueddiad hwn hefyd yn wir ar gyfer y rhai sy'n ymrestru ar gyrsiau llawn-amser.
- 3.27 Mae'r gyfran o fyfyrwyr sydd â'u cartref yn y Deyrnas Unedig sy'n ymrestru am astudiaeth addysg uwch ran-amser yn SAU Cymru (ac eithrio'r Brifysgol Agored yng Nghymru) yn nes at y gyfran sy'n gwneud hynny ar sail llawn-amser (84% o gymharu â 83% yn ystod 2008/09) gyda'r gyfran o fyfyrwyr sydd â'u cartrefi yn y DU a ymrestrodd ar gyfer astudiaeth israddedig llawn-amser neu ran-amser yn debyg (ar 92% a 91% yn yr un drefn). Fodd bynnag, mae'r gyfran o fyfyrwyr gyda'u cartrefi yn y DU a ymrestrodd ar gyrsiau ôlraddedig rhan-amser yn llawer uwch ar 77% na'r rhai a wnaeth hynny ar gyfer cyrsiau llawn-amser (ar 46%), lle mae mwyafrif y myfyrwyr yn dod o dramor.
- 3.28 Yn nhermau oedran, mae gan fyfyrwyr addysg uwch ran-amser broffil oedran hŷn na'u cymheiriaid llawn-amser (Tabl 7). Yn ystod 2008/09 roedd dros ddau-draean (71%) o fyfyrwyr rhan-amser yn SAU Cymru rhwng 25 a 59 oed o gymharu â dim ond 19% o fyfyrwyr Addysg Uwch llawn-amser.
- 3.29 Ychydig iawn o fyfyrwyr rhan-amser sy'n 20 oed ac iau (dim ond 8% yn 08/09) o gymharu ag ychydig dros hanner y myfyrwyr llawn-amser.

Tabl 7: 2008/09 Ymrestru Addysg Uwch (blwyddyn gron) yn SAU Cymru ¹²² yn ôl Oedran a Dull

	Addysg Uwch [2008/09]					
	Llawn-amser	Llawn-amser %	Rhan-amser	Rhan-amser %	Cyfan	Cyfan %
Dan 16	0	0%	15	0.03%	15	0.01%
16-18	11,760	15%	1,525	3%	13,285	10%
19-20	30,935	38%	2,550	5%	33,485	25%
21-24	22,920	28%	6,880	13%	29,800	22%
25-39	12,470	15%	20,980	39%	33,450	25%
40-59	2,745	4%	17,220	32%	19,960	15%
60+	150	0.3%	4,295	8%	4,445	3%
Oedran Anhysbys	10	0.01%	115	0.2%	125	0.1%
Pob	80,990	100%	53,580	100%	134,565	100%

Ffynhonnell: HESA

3.30 Yn nhermau ymrestrïadau o ardaloedd cyfranogiad isel, daeth 12.4% o fyfyrwyr israddedig rhan-amser a 6.8% o fyfyrwyr israddedig rhan-amser aeddfed ¹²³ yn SAU Cymru o ardaloedd cyfranogiad isel ¹²⁴ yn 2008/09. Roedd gan y DU ffigurau cyfatebol o 13.3% ar gyfer myfyrwyr ifanc newydd a 6.8% ar gyfer myfyrwyr newydd aeddfed. O gymharu, roedd 10.2% o fyfyrwyr ifanc gradd gyntaf llawn-amser a 12.0% o fyfyrwyr aeddfed newydd gradd gyntaf llawn-amser yn SAU Cymru yn ystod 2008/09 yn dod o ardaloedd cyfranogiad isel. Mae SAU Cymru felly'n recriwtio cymharol lai o fyfyrwyr aeddfed 'ehangu mynediad' ar gyrsiau rhan-amser nag ar gyrsiau llawn-amser.

3.31 Dengys y data a gafwyd ar nifer y cynllun hepgor ffioedd israddedigion rhan-amser y cefnogwyd 2,122 o fyfyrwyr drwy SAU Cymru yn ystod 2008/09 (Tabl 8). Ar wahân i'r Brifysgol Agored yng Nghymru, y SAU gyda'r nifer uchaf o fyfyrwyr yn manteisio o'r cynllun hepgor ffioedd oedd Casnewydd gydag Abertawe a Llanbedr Pont Steffan yn dilyn. Mae'n bwysig nodi fod gan rai o'r SAU gyda chyfrannau eithaf uchel o ddysgwyr rhan-amser serch hynny niferoedd yn manteisio o'r Hepgor Ffioedd. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r 'cymysgedd' o wahanol fathau o ddarpariaeth ran-amser, gyda rhai o Sefydliadau Addysg Uwch ôl-92 â ffocws cryf ar ddysgu cysylltiedig â gwaith a chymharol ychydig o ddarpariaeth math 'addysg gymunedol', a rhai o'r SAU

¹²² Yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru

¹²³ Myfyrwyr ifanc yw rhai sydd dan 21 oed ar 30 Medi y flwyddyn academaidd y cawsant eu cofnodi fel bod yn ymuno â'r sefydliad a myfyrwyr aeddfed yw rhai 21 oed a throsodd, hefyd ar 30 Medi y flwyddyn academaidd y cânt eu cofnodi fel bod yn ymuno â'r sefydliad.

¹²⁴ Diffinnir ardaloedd cyfranogiad isel fel wardiau gyda chyfraddau cyfranogiad sydd yn 20% isaf o wardiau a raddiwyd yn ôl diffiniad POLAR. Cyflwynwyd y dangosydd newydd hwn yn 2007/08.

mwy traddodiadol â phresenoldeb eithaf cryf yn nhermau darpariaeth gymunedol.

Tabl 8: Cynllun Heggwr Ffioedd

	2008/2009 Nifer myfyrwyr a gefnogwyd drwy'r cynllun heggwr ffioedd
Prifysgol Cymru, Casnewydd	300
Prifysgol Glyndŵr	6
UWIC, Caerdydd	25
Prifysgol Morgannwg	43
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	24
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	35
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	241
Prifysgol Aberystwyth	90
Prifysgol Bangor	174
Prifysgol Caerdydd	210
Prifysgol Abertawe	249
Holl SAU Cymru	1397
Y Brifysgol Agored	725
Cyfanswm (SAU Cymru a'r Brifysgol Agored)	2122

Ffynhonnell: CCAUC

3.32 Yn nhermau anabledd, yn ystod 2008/09 roedd yn hysbys fod gan 3,905 fyfyrwyr addysg uwch rhan-amser anabledd, cyfran o 7.3% o holl fyfyrwyr addysg uwch rhan-amser (Tabl 9). Mae'r gyfran hon ychydig yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol (er enghraifft yn ystod 2006/07 dim ond 6.7% oedd). Mae myfyrwyr addysg uwch rhan-amser yn SAU Cymru yn llai tebygol o fod ag anabledd hysbys o gymharu â myfyrwyr addysg uwch llawn-amser (ar 8.5%).

3.33 Mae gan gyfran uwch o fenywod sy'n fyfyrwyr rhan-amser anabledd hysbys o gymharu â'u cymheiriaid gwryw tra bod gan gyfran is o fyfyrwyr benyw llawn-amser anabledd hysbys o gymharu â'u cymheiriaid gwryw.

Tabl 9: Ymrestru Addysg Uwch (blwyddyn gron) yn SAU Cymru¹²⁵ yn ôl Anabledd

	Llawn-amser 2008/09		Rhan-amser 2008/09		Cyfan 2008/09	
	Nifer	Fel % o'r cyfan llawn- amser	Nifer	Fel % o'r cyfan rhan- amser	Nifer	Fel % o'r cyfan
Benywod gydag anabledd hysbys	3,530	8.2%	2,425	7.7%	5,955	8.0%
Gwrywod gydag anabledd hysbys	3,345	8.9%	1,475	6.7%	4,820	7.5%
Pob anabledd hysbys	6,875	8.5%	3,905	7.3%	10,775	8.0%

¹²⁵ Yn cynnwys y Brifysgol Agored

- 3.34 Yn nhermau pynciau a astudiwyd (Tabl 10), yn draddodiadol y pynciau gyda'r nifer uchaf o ymrestriadau addysg uwch ran-amser ar draws SAU Cymru fu leithoedd, Addysg, Busnes ac Astudiaethau Gweinyddol ac Astudiaethau Cymdeithasol: mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa ar draws y Deyrnas Unedig (gweler Adran 2 uchod). Tueddiad diweddar rhwng 2007/08 a 2008/09 fu gostyngiad yn nifer y myfyrwyr rhan-amser leithoedd ac Astudiaethau Cymdeithasol a chynnydd yn nifer myfyrwyr astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth ran-amser. (Fodd bynnag mae'n bwysig nodi y gall y gostyngiadau fod yn gysylltiedig â chynnydd sylweddol mewn dysgwyr pwnc Cyfun rhan-amser a fedrai gynnwys pynciau leithoedd ac Astudiaethau Cymdeithasol er enghraifft).
- 3.35 Roedd pedwar pwnc leithoedd, Addysg, Busnes ac Astudiaethau Gweinyddol ac Astudiaethau Cymdeithasol gyda'i gilydd yn cyfrif am 24,115 ymrestriad yn ystod 2008/2009 (neu 45% o bob ymrestriad addysg uwch rhan-amser). Mae hyn yn cymharu gyda chyfran o 54% yn ystod 2007/08 a 50% yn ystod 2006/07.
- 3.36 Mae'n amlwg y gwelodd dau faes pwnc ostyngiad sydyn yn nifer ymrestriadau rhan-amser rhwng 2006/07 a 2008/09 – sef Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol a'r Celfyddydau Creadigol a Dylunio.
- 3.37 Yn ogystal â chyfrif am gyfran fawr o bob ymrestriad rhan-amser, mae pedwar maes pwnc leithoedd, Addysg, Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth ac Astudiaethau Cymdeithasol hefyd yn rhai lle mae cyfran uchel o bob ymrestriad ar gyfer astudiaeth ran-amser (ar 39% neu drosodd ym mhob achos), gan awgrymu fod gan fyfyrwyr yn y pynciau hyn dueddiad uwch na'r cyfartaledd i astudio'n rhan-amer. Mae gan bynciau eraill (yn arbennig bynciau cyfun, pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio yn ogystal â phynciau perthynol â meddygaeth) hefyd gyfrannau uchel tebyg o ymrestriadau rhan-amser. Mae hyn yn cymharu gyda phynciau eraill megis Celfyddydau Creadigol a Dylunio, gwyddorau ffisegol, gwyddorau biolegol a'r gyfraith lle'r oedd y gyfran o

ymrestriadau addysg uwch rhan-amser yn isel iawn - ar 14% neu lai yn ystod 2008/09.

Tabl 10: Ymrestru Addysg Uwch Rhan-amser (blwyddyn gron) yn SAU Cymru¹²⁶ yn ôl pwnc.

	Rhan-amser 6/07		Rhan-amser 07/08		Rhan-amser 08/09	
	Nifer	Fel % o ymrestru pwnc	Nifer	Fel % o ymrestru pwnc	Nifer	Fel % o ymrestru pwnc
Meddygaeth a Deintyddiaeth	1,560	41%	1,430	39%	1,710	41%
Pynciau perthynol â meddygaeth	5,500	42%	4,925	40%	5,270	42%
Gwyddorau biolegol	1,670	16%	1,225	12%	1,495	14%
Gwyddor milfeddygol	*	*	*	*	*	*
Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig	355	30%	285	24%	300	25%
Gwyddorau ffisegol	590	13%	510	11%	710	14%
Gwyddorau mathemategol	230	21%	210	19%	265	21%
Gwyddor gyfrifiadurol	1,685	34%	1,570	32%	1,250	26%
Peirianneg a thechnoleg	2,910	36%	3,010	37%	2,910	36%
Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio	1,025	43%	1,015	42%	1,175	43%
Astudiaethau cymdeithasol	6,120	49%	6,550	52%	4,720	43%
Y Gyfraith	830	18%	645	14%	610	14%
Busnes ac astudiaethau gweinyddol	7,485	44%	6,895	41%	7,145	39%
Cyfathrebu torfol a dogfennu	910	31%	785	28%	895	29%
Ieithoedd	7,545	59%	8,250	60%	4,485	46%
Astudiaethau hanesyddol ac athronyddol	4,095	52%	2,840	43%	2,785	42%
Celfyddydau creadigol a dylunio	2,215	23%	1,205	14%	1,090	12%
Addysg	7,530	61%	7,540	61%	7,765	61%
Cyfun	5,360	95%	5,535	95%	8,990	97%
Pob pwnc	57,620	43%	54,430	41%	53,580	40%

Ffynhonnell: HESA

3.38 Yn olaf, wrth droi at werthoedd credydau, dengys dadansoddiad o ddata HESA fod y gwerthoedd credydau cyfartalog a ddyfernir i ddysgwyr addysg ran-amser wedi gostwng yn gyffredinol dros y degawd diwethaf (Tabl 11): parhaodd cyfanswm credydau'n weddol sefydlog ar ryw 2.6 miliwn rhwng 2001/02 a 2003/04 cyn gostwng i ryw 2.3 miliwn erbyn 2004/05. Parhaodd ar y gyfradd hon hyd 2008/09 pan gynyddodd yn gyflym i 2.5 miliwn. Yn ddiddorol, mae'r patrwm hwn bron y gwrthwyneb i'r tueddiadau yn nhermau nifer ymrestriadau rhan-amser lle cynyddodd niferoedd yn y cyfnod cyn 2007/08 ac yna ostwng yn 2008/09 (gweler Siartiau 1 a 2).

¹²⁶ Yn cynnwys y Brifysgol Agored


Tabl 11: Ymrestru Addysg Uwch, cyfwerth â llawn-amser a gwerthoedd credydau (yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru)¹²⁷

	2001/02	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09
Nifer ymrestru	49,512	52,446	53,136	56,418	56,915	57,578	54,259	??
Cyfwerth â llawn-amser	17,913	18,425	18,458	17,857	17,177	17,899	18,947	??
Gwerthoedd credyd (,000)	2,631	2,660	2,635	2,378	2,345	2,362	2,525	??
Gwerth credyd cyfartalog fesul ymrestriad	53	51	50	42	41	41	47	??

Ffynhonnell: Cofnodion myfyrwr a modiwl HESA

Siart 1: Ymrestrïadau yn SAU Cymru (nifer)

Siart 2: Cyfanswm Niferoedd Credydau Rhan-amser



3.39 Mae hyn yn awgrymu fod y cynnydd yn nifer myfyrwr rhan-amser yng nghanol y 2000au yn gysylltiedig gyda chwymp yn nwysedd astudiaeth ac yn 2007/08 fod y gostyngiad yn nifer ymrestrïadau yn gysylltiedig gyda chwtogi niferoedd myfyrwr yn dilyn cyrsiau gwerth credyd cymharol isel.

3.40 Roedd dysgwyr rhan-amser yn ystod 2007/08 felly'n astudio cyrsiau mwy dwys nag yn ystod y tair blynedd flaenorol (cyfartaledd o 47 credyd fesul myfyriwr a ymrestrodd o gymharu gyda 41 a 42 am y tair blynedd flaenorol) ond roedd hyn yn is nag ar ddechrau'r ddegawd (lle'r oedd gwerthoedd credydau cyfartalog fesul ymrestrïad yn y 50au).

¹²⁷ Nid oedd pob sefydliad wedi dychwelyd pob gwerth credyd yn fanwl-gywir rhwng 2001/02 ac felly ni ddylid ystyried y ffigurau gwerth credydau ar gyfer 1998/99 i 2000/01 yn gyflawn).

3.41 Cafodd myfyrwyr ôlraddedig rhan-amser 42 credyd ar gyfartaledd yn ystod 2007/08 - amrywiai hyn o sefydliad i sefydliad gydag er enghraifft SMU yn cael cyfartaledd uchel o 81 gwerth credyd ar gyfer pob myfyriwr rhan-amser a gofrestrodd, a ddilynwyd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, UWIC a Chasnewydd (oll ar 63 credyd fesul myfyrwr israddedig rhan-amser a ymrestrodd). Ar y llaw arall roedd gan sefydliadau fel Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth gyfartaleddau llawer is (16 a 24 gwerth credyd fesul myfyriwr israddedig rhan-amser yn yr un drefn).

Patrymau a thueddiadau yn argaeledd gwahanol ddulliau astudio

3.42 Yn ystod 2008/09, a heb gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru, roedd tua 12% o'r holl fyfyrwyr addysg-uwch SAU a ymrestrodd yn SAU Cymru yn fyfyrwyr dysgu o bell (er mai dim ond ar gyfer tua dau-draean yr holl fyfyrwyr rhan-amser Addysg Uwch y mae data ar gael). Roedd y 88% arall yn seiliedig un ai yn y SAU dychwelyd neu sefydliad ffransais (Tabl 12).

Tabl 12: Myfyrwyr rhan-amser yn ôl lleoliad astudiaeth (2008/09)

	Pob myfyriwr yn SAU Cymru	Myfyrwyr gyda'u cartrefi yng Nghymru
<i>Ôlraddedig</i>		
Dysgu o Bell - myfyriwr seiliedig yn y DU	2,355	1,550
Arall	*	*
Mewn sefydliad dychwelyd a/neu ffransais am yr holl flwyddyn	10,665	8,605
Cyfan	13,020	10,160
<i>Is-raddedig</i>		
Dysgu o Bell - myfyriwr seiliedig yn y DU	3,190	9,240
Arall	*	*
Mewn sefydliad dychwelyd a/neu ffransais am yr holl flwyddyn	29,275	24,990
Cyfan	32,465	34,230
<i>Pob Lefel</i>		
Dysgu o Bell - myfyriwr seiliedig yn y DU	5,445	10,790
Arall	*	5
Mewn sefydliad dychwelyd a/neu ffransais am yr holl flwyddyn	39,940	33,595
Cyfan	45,485	44,390

Ffynhonnell: HESA

Dangosir data llai na 3 fel *. Talgrynnir yr holl ddata arall i'r 5 agosaf.

3.43 Mae'r gyfran o fyfyrwyr ôlraddedig rhan-amser sy'n ymwneud mewn dysgu o bell yn uwch (ar 18%) nag ar gyfer myfyrwyr is-raddedig rhan-amser (ar 10%).

- 3.44 Yn ddiddorol, cafodd y tueddiad hwn ei wrthdroi wrth edrych ar broffil myfyrwyr yn hanu o Gymru (ar draws pob SAU yn y DU) - roedd tua 27% o fyfyrwyr israddedig rhan-amser yn dysgu o bell o gymharu gyda thua 15% o israddedigion rhan-amser. Mae hyn yn awgrymu fod i ryw raddau 'all-lif' net o israddedigion rhan-amser yn hanu o Gymru yn defnyddio dysgu o bell o gymharu â'r sefyllfa gyffredinol yng nghyswllt astudiaeth israddedig rhan-amser lle mae SAU Cymru yn darparu mwy o leoedd nag a gaiff eu cymryd gan fyfyrwyr yn hanu o Gymru. Mae'r gyfran gymharol isel o fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio drwy ddysgu o bell o fewn Cymru efallai'n awgrymu nad yw SAU Cymru wedi cadw'n gydwastad gyda'r galw yn y cyswllt hwn, gyda myfyrwyr yn hanu o Gymru yn anghymesur debygol o edrych i fan arall am ddarpariaeth dysgu o bell rhan-amser.
- 3.45 O ran darpariaeth ffransais, dengys data HESA ar gyfer 2008/09 fod tua 14% o ddarpariaeth addysg bellach ran-amser a 34% o addysg uwch ran-amser (y credir fod y rhan fwyaf ohono yn ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion) yn SAU Cymru ar gael drwy drefniadau ffransais, yn bennaf drwy Sefydliadau Addysg Bellach Cymru (Tabl 13).
- 3.46 Prifysgol Morgannwg, ac wedyn Brifysgol Cymru, Casnewydd yw'r ddau SAU gyda'r nifer fwyaf o fyfyrwyr addysg uwch rhan-amser ar ffransais, ar 2,265 a 1,650 o fyfyrwyr yn yr un drefn.
- 3.47 Casnewydd sydd â'r gyfran uchaf o addysg uwch rhan-amser yn astudio ar sail ffransais (ar 32%), gyda UWIC yn dilyn (ar 31%).
- 3.48 Nid oes gan dri SAU (sef y Drindod, Caerdydd ac Abertawe) unrhyw ddarpariaeth addysg uwch ran-amser ar ffransais.
- 3.49 Dim ond dau Sefydliad (Bangor ac Abertawe) a nododd fod ganddynt ddarpariaeth addysg uwch ran-amser ar ffransais ar gael yn ystod 2008/09 a darpariaeth Cymraeg i Oedolion oedd y rhan fwyaf o hynny.

Tabl 13: Myfyrwyr Rhan-amser yn SAU Cymru yn ôl statws ffransais a dull 2008/09^{128 129}

	Addysg Uwch			Addysg Bellach		
	Ffransais	Dim Ffransais	Cyfan	Ffransais	Dim Ffransais	Cyfan
Prifysgol Cymru, Casnewydd	1,650	3,525	5,175	0	75	75
Prifysgol Glyndŵr	530	4,315	4,845	0	0	0
UWIC, Caerdydd	810	1,830	2,645	0	10	10
Prifysgol Morgannwg	2,265	6,095	8,360	0	3,695	3,695
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	11	2,180	2,190	0	50	50
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	0	1,105	1,105	0	0	0
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	840	3,710	4,550	0	0	0
Prifysgol Aberystwyth	40	2,895	2,935	0	3,525	3,525
Prifysgol Bangor	65	2,795	2,860	4,415	2,120	6,535
Prifysgol Caerdydd	0	7,895	7,895	0	2,070	2,070
Prifysgol Abertawe	0	3,255	3,255	2,775	2,150	4,925
Cyfanswm (SAU Cymru)	6,215	39,600	45,815	7,190	13,700	20,890

Ffynhonnell: HESA

3.50 Mae'r Arolwg Rhyngweithio Busnes a Chymuned Addysg Uwch (HEBCIS)

diweddaraf ar gyfer 2007/08 yn rhoi gwybodaeth ar y mathau o gyrsiau y mae SAU yn eu darparu i gyflogwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Dengys Tabl 14 (islaw), ymysg pethau eraill, fod pob un o'r 11 SAU (ac eithrio'r Brifysgol Agored yng Nghymru) yn darparu cyrsiau byr pwrpasol ar gyfer busnes ar gampws ond mai dim ond saith sy'n gwneud hynny mewn safleoedd cwmnïau. Caerdydd oedd â'r ystod gulaf o ddulliau cyflenwi.

3.51 Mae data HEBCIS yn dangos hefyd fod SAU Cymru wedi medru sicrhau cynnydd sylweddol yn yr incwm a gânt o gyrsiau DPP ac Addysg Barhaus dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf - o £3.6m yn 2001/02 i £43.8m yn 2007/08. Mae'r incwm hwn tua 6% o incwm SAU y DU o'r gweithgareddau hyn yn 2007/08, o gymharu â dim ond 2% yn 2001/02.

¹²⁸ Dangosir data llai na 3 fel 0, talgrynnir yr holl ddata arall i'r 5 agosaf.

¹²⁹ Os yw myfyriwr yn astudio mwy nag un cwrs sydd â gwahanol statws ffransais yna caiff y myfyriwr ei gyfrif yn y ddau gategori. Felly efallai nad yw'r cyfansymiau yn y tabl hwn yn cyfateb â rhai a roddir mewn man arall.

Tabl 14: Dulliau cyrsiau a ddarperir gan SAU

	Dysgu o bell ar gyfer busnesau	Dysgu parhaus seiliedig ar waith	Cyrsiau pwrpasol byr ar gyfer busnes ar y campws	Cyrsiau pwrpasol byr ar safle cwmni	Cyrsiau allanol ar gyfer y cyhoedd
Prifysgol Aberystwyth	√	√	√	Na	√
Prifysgol Bangor	√	√	√	√	√
Prifysgol Caerdydd	Na	Na	√	Na	Na
UWIC, Caerdydd	√	√	√	√	√
Prifysgol Morgannwg	√	√	√	√	√
Prifysgol Glyndŵr	√	√	√	√	√
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	√	√	√	Na	√
Prifysgol Cymru, Casnewydd	√	√	√	√	√
Prifysgol Abertawe	√	√	√	Na	√
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	Na	√	√	√	√
Coleg Prifysgol y Drindod	√	√	√	√	√

Ffynhonnell: Arolwg HEBCIS 2007/2008

3.52 Yn ogystal â'r dysgwyr rhan-amser sydd wedi ymrestru yn SAU, roedd 4,660 o ddysgwyr eraill yn astudio'n rhan-amser ar lefel addysg uwch yn Sefydliadau Addysg Bellach Cymru yn ystod 2008/09 (Tabl 15). Roedd hyn yn cynnwys tua 850 o ddysgwyr yn dilyn cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith. Ni fyddai'r dysgwyr hyn wedi cael eu cyfrif o fewn y data HESA a gyflwynwyd gan SAU¹³⁰. Y Sefydliadau Addysg Bellach allweddol lle mae'r nifer fwyaf o ddysgwyr addysg uwch rhan-amser yw Coleg Llandrillo a Choleg Glannau Dyfrdwy a ddilynir gan Goleg Iâl.

¹³⁰ *Ystadegau Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru 2007/08*
Ystadegau Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Tabl 15: Nifer dysgwyr addysg uwch rhan-amser sydd wedi ymrestru mewn SAU

Sefydliad	2007/08		2008/09 (Data Darpariaethol)	
	Dysgwyr gyda'r cymhwyster lefel addysg uwch uchaf a ddilynwyd	Dysgwyr seiliedig ar waith gyda'r cymhwyster lefel addysg uwch a ddilynwyd	Dysgwyr gyda'r cymhwyster lefel addysg uwch uchaf a ddilynwyd	Dysgwyr seiliedig ar waith gyda'r cymhwyster lefel addysg uwch a ddilynwyd
Coleg y Barri	135	100	105	105
Coleg Penybont	80	*	55	*
Coleg Sir Gar	240	80	255	60
Coleg Ceredigion	40	30	40	30
Coleg Glannau Dyfrdwy	550	105	630	200
Coleg Glan Hafren	200	5	185	*
Coleg Gorseinon	25	25	30	20
Coleg Gwent	220	15	150	*
Coleg Llandrillo	835	145	755	170
Coleg Llysfasi	110	105	120	70
Coleg Meirion Dwyfor	60	*	145	*
Coleg Sir Benfro	220	**	170	**
Dysgu Seiliedig ar Waith Coleg Merthyr Tudful	**	0	**	*
Coleg Morgannwg	55	15	80	0
Coleg Powys	65	*	80	0
Coleg Pabyddol Dewi Sant	0	**	0	**
Coleg Abertawe	205	130	170	85
Coleg Garddwriaeth Cymru	140	50	165	*
Coleg Iâl	370	15	280	55
Coleg Ystrad Mynach	95	25	75	10
WEA De	0	**	15	**
YMCA	0	**	0	**
Coleg Menai	145	*	115	0
Coleg Castell Nedd Port Talbot	180	65	185	35
Coleg Harlech /WEA (Gogledd)	0	**	0	**
Cyfanswm (yn cynnwys unrhyw gyfrif lluosog rhwng darparwyr)	3,965	960	3,810	850

* Rhoddwyd * ar gyfer rhifau mwy na 0 a llai na 5. Talgrynnwyd ffigurau eraill i'r 5 agosaf.

** Dim cofnod ar gael gan LLWR

Patrymau a Thueddiadau mewn Cyfraddau Cwblhau, Cyrchfannau Myfyrwyr a Bodlonrwydd

3.53 Mae israddedigion rhan-amser newydd sy'n mynd i SAU Cymru yn fwy tebygol na chyfartaledd y DU i barhau â'u hastudiaethau ar ôl eu blwyddyn gyntaf. Ni wnaeth 29.9% o israddedigion rhan-amser newydd i SAU Cymru yn 2007/08 oedd yn 30 oed neu iau barhau ar ôl eu blwyddyn gyntaf. Mae hyn yn is na chyfradd y DU o 36.9%. Ni wnaeth cyfran debyg o rai dros 30 oed barhau ar ôl eu blwyddyn gyntaf (30.1%) o gymharu gyda 33.9% ar gyfer y DU. Ar ôl dweud hyn (megis sy'n wir ar draws y DU) mae israddedigion rhan-amser newydd yn SAU Cymru yn llai tebygol na'u cymheiriaid blwyddyn gyntaf i barhau â'u hastudiaethau ar ôl eu blwyddyn gyntaf - gydag er enghraifft 7.4% o fyfyrwyr

gradd gyntaf llawn-amser newydd ifanc a 20.1% o'r holl fyfyrwyr newydd israddedig llawn-amser arall yn SAU Cymru yn 2007/08 heb barhau ar ôl eu blwyddyn gyntaf.

3.54 Dengys y data oedd ar gael ar gyfer modiwlau a gaiff eu pasio gan fyfyrwyr israddedig rhan-amser y cafodd 80.3% o fodiwlau eu pasio yn SAU Cymru yn ystod 2008/09. Mae hyn yn cymharu â chyfran ychydig yn uwch, ar 85%, yn ystod 2007/09. Roedd cyfraddau pasio'n amrywio rhwng SAU Cymru a dengys data 2007/09 (Tabl 16) mai SMU, Llanbedr Pont Steffan a Glyndŵr sydd â'r cyfraddau pas uchaf tra bod gan Fangor gyfradd pas lawer is na'r cyfartaledd (ar 37.1%).

3.55 Ar gyfartaledd yn 2007/08, cymerodd pob myfyriwr israddedig rhan-amser 2.5 modiwl ac roedd pob modiwl yn werth 14% ar gyfartaledd o astudiaeth gyfwerth llawn-amser (gan adlewyrchu'r ffaith fod myfyrwyr rhan-amser ar gyfartaledd yn astudio am gyfwerth â 42 credyd). Eto, roedd hyn yn amrywio rhwng sefydliadau - SMU a UWIC oedd â'r gyfran uchaf o fodiwlau fesul myfyriwr (4.8 a 4.0 yn yr un drefn) tra bod pob modiwl yn werth 16.5% ar gyfartaledd o astudiaeth gyfwerth llawn-amser ym Mhrifysgolion Glyndŵr a Chaerdydd.

Tabl 16: Cyfraddau cwblhau modiwl: israddedigion rhan-amser 2007/08

	Nifer myfyrwyr rhan-amser	Cyfanswm modiwlau	Modiwlau gyda chanlyniadau (%)	Modiwlau a basiwyd	Modiwl fesul myfyriwr	Cyfwerth llawn-amser pob modiwl (%)
Prifysgol Cymru, Casnewydd	4,345	14,725	86.4	84.8	3.4	15.0
Prifysgol Glyndŵr	2,555	6,965	81.2	90.0	2.7	16.5
UWIC, Caerdydd	820	3,250	88.4	93.4	4.0	13.2
Prifysgol Morgannwg	6,685	15,459	85.2	82.0	2.3	15.7
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	1,400	6,677	4.3	99.6	4.8	13.4
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	845	1,943	84.2	83.0	2.3	13.5
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	1,970	5,238	59.5	98.3	2.7	12.6
Prifysgol Aberystwyth	1,885	3,296	82.9	89.0	1.8	10.9
Prifysgol Bangor	1,820	3,138	24.8	37.1	1.7	15.3
Prifysgol Caerdydd	3,745	4,867	90.0	85.9	1.3	16.5
Prifysgol Abertawe	2,720	5,374	93.7	79.5	2.0	6.1
Pob SAU Cymru	28,785	70,932	73.8	85.1	2.5	14.1

Ffynhonnell: HESA

3.56 Yn nhermau cyrchfannau, dengys arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE) HESA fod tri-chwarter cymhwyswyr yn hanu o Gymru (76%) a chymhwyswyr o SAU Cymru (74%) wedi mynd i waith o ryw fath (myfyrwyr 2007/08) (Tabl 17). Tybiwyd fod 6% o fyfyrwyr yn hanu o Gymru a 7% o fyfyrwyr rhan-amser o SAU Cymru yn ddi-waith, gyda mwyafrif y gweddill yn mynd i astudiaeth bellach. Ychydig o newid a welwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf mewn cyrchfannau ar chwe mis.

3.57 Cymhwyswyr ôlraddedig rhan-amser oedd debycaf o fod mewn gwaith gyda 88% o'r rhai a gafodd gymwysterau ôlraddedig o SAU Cymru wedi mynd i ryw fath o gyflogaeth. Ar gyfer israddedigion, roedd cymhwyswyr rhan-amser yn fwy tebygol o fynd i waith na chymhwyswyr llawn-amser. Efallai nad yw hyn yn syndod o gofio y byddai llawer o fyfyrwyr rhan-amser wedi bod mewn cyflogaeth pan oeddent yn astudio.

Tabl 17: Cyrchfannau myfyrwyr – Canran cymhwyswyr yn ôl gweithgaredd a dull astudio, 2007/08

	Cymhwyswyr o SAU Cymru ¹³¹				Cymhwyswyr gyda'u cartrefi yng Nghymru ¹³²			
	Gwaith yn unig	Gwaith ac astudio	Astudio yn unig	Tybir yn ddi-waith	Gwaith yn unig	Gwaith ac astudio	Astudio yn unig	Tybir yn ddi-waith
Llawn-amser								
Ôlraddedig	81	5	5	5	80	6	7	4
Gradd gyntaf	62	8	16	8	63	8	16	8
Israddedig arall	43	13	33	4	46	14	32	4
Rhan-amser								
Ôlraddedig	74	14	5	3	74	16	5	2
Gradd gyntaf	71	18	3	3	65	19	5	3
Israddedig arall	61	27	5	2	61	27	6	2
Pob								
Ôlraddedig	78	9	5	4	78	10	6	3
Gradd gyntaf	62	9	16	8	63	9	15	8
Israddedig arall	54	21	17	3	55	22	17	3
Pob lefel	64	11	14	7	65	11	13	6

Ffynhonnell: 'Cyrchfannau myfyrwyr yn ennill cymwysterau o Sefydliadau Addysg Uwch: Cymru 2007/08'. Daw ystadegau ar gyfer Bwletin Ystadegol Cymru o arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE) yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

¹³¹ Nid yw cymhwyswyr yn cyfrif y rhai na wnaeth ymateb neu rai a ymatebodd i'r arolwg ond a wrthododd roi gwybodaeth. Nid yw'r canrannau yn gyfanswm o 100 gan na ddangosir 'Dim ar gael ar gyfer Cyflogaeth' ac 'Arall'.

¹³² Nid yw cymhwyswyr yn cyfrif y rhai na wnaeth ymateb neu rai a ymatebodd i'r arolwg ond a wrthododd roi gwybodaeth. Nid yw'r canrannau yn gyfanswm o 100 gan na ddangosir 'Dim ar gael ar gyfer Cyflogaeth' ac 'Arall'.

3.58 Yn nhermau'r math o swydd a gaiff myfyrwyr rhan-amser, mae'r DLHE yn awgrymu fod cymhwyswyr cyflogedig o astudiaeth ran-amser yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth barhaol (95%) na rhai o astudiaeth lawn-amser (ychydig dan 80%) ac yn llai tebygol o fod mewn swydd dros dro (ychydig dan 5%) (Tabl 18). Roedd hyn hefyd yn wir ar gyfer cymhwyswyr yn hanu o Gymru.

Tabl 18: Canran cymhwyswyr mewn cyflogaeth daledig lawn-amser yn ôl natur cyflogaeth (2007/08)
133

	Cymhwyswyr o SAU Cymru ¹³⁴				Cymhwyswyr gyda'u cartrefi yng Nghymru ¹³⁵			
	Parhaol ¹³⁶	Dros dro ¹³⁷	Hunan gyflogedig ac arall		Parhaol (b)	Dros dro(c)	Hunan gyflogedig ac arall	
Ôlraddedig	73	26	1		75	24	1	
Gradd gyntaf	78	20	2		80	18	2	
Israddedig arall	78	19	4		78	19	3	
Rhan-amser								
Ôlraddedig	94	5	1		97	3	1	
Gradd gyntaf	97	2	1		96	4	1	
Israddedig arall	95	4	1		95	4	1	
Pob								
Ôlraddedig	81	18	1		83	16	1	
Gradd gyntaf	80	19	2		82	17	2	
Israddedig arall	90	8	2		91	8	1	
Pob lefel								
	81	17	2		83	15	1	

Ffynhonnell: DLHE

3.59 Y cyflog canolrif ar gyfer cymhwyswyr o Gymru, o raglenni gradd gyntaf llawn-amser, a gyflogid yn y DU oedd £20,000 (Tabl 19). Y cyflog canolrif ar gyfer cymhwyswyr o SAU Cymru oedd £19,000. Yn gyffredinol, roedd cymhwyswyr a astudiodd yn rhan-amser yn derbyn cyflogau sylweddol uwch (er y medrai hyn fod yn ffactor o oedran a hanes cyflogaeth).

¹³³ Nid yw'r canran yn cynnwys y rhai nas atebodd.

¹³⁴ Nid yw cymhwyswyr yn cyfrif y rhai na wnaeth ymateb neu rai a ymatebodd i'r arolwg ond a wrthododd roi gwybodaeth. Nid yw'r canrannau yn gyfanswm o 100 gan na ddangosir 'Dim ar gael ar gyfer Cyflogaeth' ac 'Arall'

¹³⁵ Nid yw cymhwyswyr yn cyfrif y rhai na wnaeth ymateb neu rai a ymatebodd i'r arolwg ond a wrthododd roi gwybodaeth. Nid yw'r canrannau yn gyfanswm o 100 gan na ddangosir 'Dim ar gael ar gyfer Cyflogaeth' ac 'Arall'

¹³⁶ Yn cynnwys contractau parhaol, contractau pen-agored neu gontract tymor sefydlog o 12 mis neu fwy

¹³⁷ Yn cynnwys contractau tymor sefydlog o lai na 12 mis a chontractau dros dro a gafwyd drwy asiantethau neu fel arall

Tabl 19: Cyflogau canolrif cymhwyswyr gradd gyntaf gyda'u cartrefi yn y DU mewn cyflogaeth llawn-amser yn y DU (2007/08) (£oedd)

	Hanu o Gymru	Cymhwyswyr o SAU Cymru	Cymhwysir a gyflogir yng Nghymru	Cymhwyswyr y DU
Llawn-amser				
Gwryw	20,000	19,000	17,050	20,000
Benyw	19,000	18,000	19,000	19,000
Personai	19,000	18,000	18,000	20,000
Rhan-amser				
Gwryw	27,000	28,000	27,000	28,000
Benyw	24,000	24,000	24,000	24,000
Personau	25,000	25,000	25,000	25,000
Pob				
Gwryw	20,000	19,000	19,000	20,000
Benyw	20,000	19,000	19,000	20,000
Personau	20,000	19,000	19,000	20,000

Ffynhonnell: DLHE

3.60 Yn nhermau bodlonrwydd myfyrwyr, bu Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS) yn casglu adborth gan fyfyrwyr ym mlwyddyn olaf eu cwrs yn arwain at gredydau neu gymwysterau israddedig ar draws y DU. Daeth data o Arolwg 2009 o Unistats.com¹³⁸ sy'n cyhoeddi'r canfyddiadau ar gyfraddau bodlonrwydd myfyrwyr. Mae angen gofal wrth ddadansoddi'r data hwn gan nad yw gwybodaeth ar gyfer bodlonrwydd myfyrwyr rhan-amser ond ar gael mewn 13 cwrs ar draws chwe phrifysgol (Tabl 20). Mae'r cyfraddau bodlonrwydd cyffredinol yn amrywio o 63% gweddol isel i 100% yn achos un cwrs. Ar ôl dweud hyn, y mae'n cyflwyno darlun cyffredinol gadarnhaol o gymharu gyda chyfraddau bodlonrwydd myfyrwyr llawn-amser. Lle mae data cwrs cymharol ar gael ar gyfer myfyrwyr llawn-amser a myfyrwyr rhan-amser, ym mhob achos heblaw un mae'r gyfran o fyfyrwyr rhan-amser bodlon yn uwch nag ar gyfer myfyrwyr llawn-amser.

3.61 Mae cyfraddau bodlonrwydd ymysg myfyrwyr rhan-amser yn y Brifysgol Agored yn gyffredinol uwch na SAU eraill Cymru (er bod data'r arolwg yn seiliedig ar ymatebion y DU). Mae data lefel y DU ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyrsiau - mae lefel bodlonrwydd ymysg myfyrwyr gradd gyntaf rhan-amser yn 90% ac yn 84% neu'n uwch ymysg myfyrwyr israddedig eraill.

¹³⁸ Daw data o chwiliadau unigol lefel-SAU ar www.Unistats.com ym mis Ebrill 2010

Tabl 20: Cyfran Myfyrwyr yn Fodlon gyda'r Cwrs (Arolwg NSS 2009)¹³⁹

	Teitl y Cwrs	Cyfran myfyrwyr rhan-amser bodlon	Cyfran myfyrwyr llawn-amser bodlon
Prifysgol Glyndŵr	Celfyddydau Creadigol a Dylunio	74%	65%
UWIC, Caerdydd	Astudiaethau academaidd mewn addysg	81%	78%
	Addysg	83%	d/g
Prifysgol Morgannwg	Peirianneg a Thechnegol	78%	58%
	Pynciau perthynol i Feddygaeth	93%	90%
	Amaethyddiaeth ac eraill mewn gwyddor filfeddygol	63%	54%
	Gwyddor Gyfrifiadurol	80%	n/a
	Pynciau eraill perthynol i feddygaeth	83%	83%
Prifysgol Aberystwyth	Gwasanaethau Gwybodaeth	87%	n/a
	Cyfathrebu Torfol a Dogfennu	87%	94%
Prifysgol Bangor	Celfyddydau Creadigol a Dylunio	92%	79%
	Celfyddyd Gain	92%	d.g
Prifysgol Abertawe	Hanes ac Archaeoleg	100%	91% (Hanes) a 96% (Archaeoleg)

Patrymau a Thueddiadau mewn Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

3.62 Yn gyffredinol, mae'r gyfran o fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio rhan o'u cwrs addysg uwch¹⁴⁰ drwy gyfrwng y Gymraeg mewn SAU yn isel (Tabl 21).

Tabl 21: Myfyrwyr gyda pheth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl dull astudio¹⁴¹

	2003/04	2004/05	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09
Llawn-amser	2,265	2,515	2,475	2,735	2,570	2,910
Llawn-amser (fel % o holl fyfyrwyr llawn-amser)	3.1%	3.4%	3.3%	3.5%	3.3%	3.5%
Rhan-amser	1,460	1,180	1,435	1,340	1,880	2,820
Rhan-amser (fel % o holl fyfyrwyr rhan-amser)	3.0%	2.2%	2.6%	2.6%	4.0%	3.8%

3.63 Fodd bynnag mae'r gyfran o fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu flwyddyn ar flwyddyn ers 2006/07 gyda 2,820 o fyfyrwyr rhan-amser (neu 3.8% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser) wedi'u cofnodi fel bod yn astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn

¹³⁹ Data ond ar gael ar gyfer Graddau Cyntaf a Graddau Israddedig rhan-amser dethol lle casglwyd digon o ddata – nid yw'r arolwg yn casglu gwybodaeth gan fyfyrwyr ôl-radd. Ni chasglwyd digon o ddata gan fyfyrwyr rhan-amser ar unrhyw gyrsiau mewn pump SAU sef Casnewydd, Caerdydd, SMU, y Drindod neu Lanbedr Pont Steffan..

¹⁴⁰ Diffiniwyd fel y myfyrwyr hynny sy'n astudio o leiaf un modiwl o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

¹⁴¹ Heb gynnwys y Brifysgol Agored.

2008/2009. Er yn nifer fwy nag yn 2007/08 roedd y gyfran ychydig yn is na'r 4% a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

3.64 Ar draws holl SAU Cymru yn ystod 2008/09, o'r myfyrwyr hynny a dderbyniodd beth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd 49% yn astudio'n rhan-amser a 51% yn llawn-amser. Yn gymesurol, mae myfyrwyr rhan-amser yn fwy tebygol na myfyrwyr llawn-amser i dderbyn eu holl addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg – er enghraifft yn ystod 2007/08 o'r myfyrwyr hynny oedd yn cael peth addysgu Cymraeg, roedd 62% o fyfyrwyr rhan-amser o gymharu â 26% o fyfyrwyr llawn-amser yn derbyn eu holl addysg drwy gyfrwng y Gymraeg¹⁴².

3.65 Yn ystod 2008/09 Llanbedr Pont Steffan oedd â'r nifer fwyaf o fyfyrwyr rhan-amser gyda pheth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (1,035) a'r Drindod yn dilyn gyda 845, sy'n gynydd ar y niferoedd ar gyfer 2007/08 (oedd yn 555 yn Llanbedr Pont Steffan a 515 yng Ngholeg y Drindod (Tabl 22).

Tabl 22: Myfyrwyr gyda pheth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl sefydliad 2008/09

	Llawn-amser	Rhan-amser	Pob dull	Pob myfyriwr
Prifysgol Cymru, Casnewydd	25	220	245	9065
Prifysgol Glyndŵr	105	190	295	7730
UWIC, Caerdydd	120		120	11045
Prifysgol Morgannwg	120	40	160	20900
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	10		10	5870
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	575	845	1420	2345
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	30	1035	1065	6160
Prifysgol Aberystwyth	500	55	555	10210
Prifysgol Bangor	1140	185	1325	11195
Prifysgol Caerdydd	175	105	280	27940
Prifysgol Abertawe	115	140	255	14015
Holl SAU Cymru	2910	2820	5730	126,475

Ffynhonnell: HESA

3.66 Mae'r Drindod yn sefyll allan fel y sefydliad sydd â'r gyfran fwyaf o gryn dipyn o fyfyrwyr rhan-amser yn derbyn peth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (ar 36% yn 2008/09 er bod y gyfran hon yn is na'r gyfradd o 55% yn 2007/08).

3.67 Ymhellach mae'n werth nodi fod gan Goleg y Drindod, Llanbedr Pont Steffan, Casnewydd, Glyndŵr ac Abertawe gyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser (o

¹⁴² *Bwletin Ystadegol: Y Gymraeg mewn SAU, 2007/08 Ystadegau Cymru Rhifyn 2009 SB 40/2009 Tudalen 1*

gymharu â myfyrwyr llawn-amser) gyda pheth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.68 Yn ddiddorol, er mai Bangor oedd â'r ail nifer uchaf o'r holl fwyafrif yn derbyn peth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (ar 1,325 o gymharu â 1,420 yn y Drindod), mae mwyafrif helaeth y myfyrwyr hyn yn llawn-amser a dim ond cyfran fechan iawn sy'n astudio ar sail ran-amser.

3.69 Ac eithrio ieithoedd, y pynciau mwyaf poblogaidd gyda pheth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2007/08 (ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a hefyd llawn-amser) oedd addysg, y celfyddydau creadigol a dylunio, ac astudiaethau hanesyddol ac athronyddol a ddilynwyd gan gyfathrebu torfol a dogfennu ac astudiaethau cymdeithasol. Mae'n ddiddorol fod cyfran llawer uwch o fyfyrwyr rhan-amser yn astudio ieithoedd gyda pheth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (ar 25.2% o gymharu gyda 6.2% o fyfyrwyr llawn-amser). Ar gyfer pob pwnc arall, roedd cyfran is o fyfyrwyr rhan-amser yn astudio'r pwnc gyda pheth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

4 SBARDUNAU A RHWYSTRAU DARPARIAETH RAN-AMSER: CANFYDDIADAU O'R GWAITH MAES

Crynodeb o'r Bennod

Mae'r label 'darpariaeth ran-amser' yn cwmpasu ystod eang iawn o wahanol gyfleoedd dysgu o fewn SAU Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- cyfranogiad mewn cyrsiau 'safonol' a gynigir ar sail ran-amser neu lawn-amser;
- darpariaeth a wneir ar gael yn llwyr ar sail ran-amser ar gampws neu mewn lleoliadau eraill (yn aml yn gysylltiedig â chymwysterau proffesiynol);
- darpariaeth dysgu o bell ar sail ran-amser;
- darpariaeth a deilwriwyd i anghenion cyflogwyr penodol ond lle mae gan y cwrs werth credyd a medrir ei ddefnyddio i dynnu i lawr gyllid gan CCAUC;
- cyrsiau pwrpasol a gaiff eu hariannu'n llwyr gan gyflogwyr;
- darpariaeth addysg gymunedol sydd ar lefel addysg uwch;
- darpariaeth lefel 'mynediad' neu 'addysg bellach' arall.

Credai llawer o'r rhai a gyfwelwyd y medrai polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru roi mwy o ystyriaeth i'r amrywiaeth yma ac y dylai fod yn fwy eglur yn nhermau pa fath(au) o ddarpariaeth ran-amser y mae'n dymuno ei hannog. Teimlwyd hefyd fod angen mwy o eglurder am y berthynas a all yn aml fod yn eithaf cymhleth rhwng darpariaeth ran-amser a'r agendâu ehangu mynediad ac ymrwymo cyflogwyr. Ar yr un pryd, tanlinellodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd fod y gwahaniaeth rhwng myfyrwyr llawn-amser a myfyrwyr rhan-amser yn dod yn gynyddol annelwig o gofio fod mwyafrif myfyrwyr llawn-amser hefyd yn gweithio'n rhan-amser.

Mae gwahaniaeth barn rhwng gwahanol SAU yng Nghymru am bwysigrwydd darpariaeth ran-amser, gyda llawer yn ystyried ei bod yn ymylol ond eraill yn ystyried ei fod yn sylfaenol i'w cenhadaeth. Mae SAU gyda lefelau uchel o ddarpariaeth ran-amser yn gyffredinol yn ystyried mai eu cenhadaeth hwy, yn hytrach na pholisi'r Llywodraeth, yw'r sbardun allweddol yn eu hymrwymiad yn yr agenda yma, er (yn y gorffennol o leiaf) mae darpariaeth ran-amser hefyd wedi galluogi rhai SAU i wneud iawn am y galw isel gan ymgeiswyr llawn-amser a sicrhau incwm ychwanegol, yn neilltuol lle mae cyflogwyr yn medru ac yn barod i ran-ariannu darpariaeth.

Mae SAU yn gyffredinol yn cael anhawster gyda chysyniad galw 'cudd' neu alw 'nas diwallwyd', gyda rhai'n dadlau mai eu cyfrifoldeb hwy yn hytrach yw gyrru galw, yn neilltuol gan gyflogwyr.

Mae SAU yn ystyried mai ffactorau ariannol yw'r prif rwystrau o ddigon i ddarpariaeth ran-amser. Ers cyflwyno ffioedd amrywiol (a'r trefniadau cyllid myfyrwyr cysylltiedig ar gyfer myfyrwyr rhan-amser), bu'n anodd sicrhau incwm cyfwerth gan fyfyrwyr rhan-amser, hyd yn oed lle mae cyflogwyr yn ariannu cyfranogiad, er y croeso a roddwyd i 'Gyllid Graham'. Gyda'r galw cynyddol am leoedd llawn-amser ac o gofio gallu SAU i gyfnewid nifer credydau llawn-amser am rai rhan-amser, mae cyfarwyddwyr cyllid yn gyffredinol yn gwthio am lai o ddibyniaeth ar ddarpariaeth ran-amser. Gwaethygir hyn gan y ffaith nad oes unrhyw beth yn cyfateb i UCAS ar gyfer darpariaeth ran-amser, gan ei gwneud yn anos (a drutach) i SAU ddenu ceisiadau, a dadleuodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd bod cymdeithas yn gyffredinol yn ogystal â SAU yn dal i weithio i sefyllfa ragosod lle mai ymadawyr ysgol llawn-amser yw'r myfyrwyr ac yn trefnu darpariaeth yn unol â hynny.

Yn gyffredinol nid oes gan SAU bolisïau cyson ar ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a dywedir fod cyflogwyr yn amharod i dalu ffioedd ar lefel realistig. Credir yn gyffredinol fod costau darpariaeth ran-amser yn uwch, oherwydd 'cost drafodol' ymrestru a darparu gwasanaethau craidd i bob myfyrwr unigol, costau ychwanegol recriwtio a chostau ychwanegol darpariaeth a chefnogaeth y tu allan i oriau safonol.

Gydag eithriad amlwg y Brifysgol Agored yng Nghymru, ymddengys SAU Cymru yn gymharol amharod i fuddsoddi mewn dysgu o bell, yn arbennig ar gyfer darpariaeth israddedig, oherwydd y costau cychwynnol uchel a materion am reoli ansawdd. Mae rhai SAU yn cynnig cryn dipyn o ddarpariaeth o fewn lleoliadau cymunedol, er bod y rhain yn aml yn sefydliadau lle mae darpariaeth ran-amser ar y cyfan yn gymharol gynnil. Er bod gan rai SAU drefniadau ffransais eithaf helaeth gyda Sefydliadau Addysg Bellach, maent yn gyffredinol yn cael eu cwtogi. Mae llawer o SAU wedi ceisio cynyddu oriau agor cyfleusterau allweddol ar gampysau er mwyn darparu ar gyfer anghenion cynyddol amrywiol myfyrwyr rhan-amser (a llawn-amser) ond i lawer, mae'r rhain yn parhau yn llai hyblyg nag y medrid dymuno.

Mae SAU yn ei chael yn anodd casglu data ystyrlon ar gyfraddau cadw tymor-hwy ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, oherwydd hyblygrwydd darpariaeth o'r fath, ond mae rhyw awgrym fod dilyniant rhwng cyrsiau yn fwy o fater na chadw o'u mewn a bod problemau gyda chadw yn ymwneud yn llawer mwy â nodweddion economaidd-gymdeithasol nag â p'un yw darpariaeth yn llawn-amser neu'n rhan-amser.

Yn nhermau'r dyfodol, er bod lleiafrif y rhai a gyfwelwyd yn credu y bydd newid demograffig a chymdeithasol yn annog SAU i gynyddu eu darpariaeth ran-amser, dadleuodd y rhan fwyaf y bydd darpariaeth ran-amser yn parhau i ddod dan bwysau cryf, wrth i SAU ymateb i'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am leoedd llawn-amser (ac ar yr un pryd rewi neu ostwng nifer credydau fel canlyniad i doriadau mewn gwariant cyhoeddus) drwy roi blaenoriaeth i'r hyn sydd mewn gwirionedd yn opsiwn mwy deniadol yn ariannol o symud mantol darpariaeth tuag at fyfyrwyr amser-llawn. Fodd bynnag, medrai'r posibilrwydd o gyflwyno cap ar ddarpariaeth llawn-amser oherwydd y pwysau ar gyllid myfyrwyr 'newid y gêm, a medrai canlyniad Adolygiad Browne o Ariannu Prifysgol yn Lloegr wneud yr un peth.

Beth mae Darpariaeth Ran-amser yn ei olygu?

- 4.1 Un o'r materion allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r gwaith maes gyda SAU a rhanddeiliaid eraill oedd bod y term cynhwysfawr addysg uwch 'ran-amser' yn

cynnwys ystod gweddol eang o wahanol ddarpariaeth, nad yw mor amlwg o ddadansoddiad syml o'r data. Mae categorïau eang o ddarpariaeth ran-amser yn cynnwys:

- cyfranogiad myfyrwyr unigol ar sail ran-amser ar gyrsiau a ddarperir gan sefydliadau ar sail llawn-amser a rhan-amser ac a gyflwynir ar gampws: yn y model hwn, gall myfyriwr gymryd rhan mewn addysgu wrth ochr myfyrwyr llawn-amser ond dilyn cyfran lai o'r modiwlau ar gyfer y cwrs yn ystod un flwyddyn academiaidd;
- darpariaeth sydd ar gael yn unig ar sail ran-amser, yn bennaf ar gampws ac yn achlysurol mewn lleoliadau cyflogwyr neu gymunedol, ac sy'n darparu rhan o gymwysterau proffesiynol neu DPP cydnabyddedig o fewn proffesiwn, er enghraifft cyrsiau mewn Cyfrifyddiaeth, cyrsiau'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu neu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar gyfer rhai sy'n addysgu mewn gosodiadau ôl-orfodol; yn y model hwn, gall cyflogwyr fod yn ariannu'r ffioedd i ddysgwyr unigol yn ogystal â rhoi peth amser i ffwrdd ar gyfer astudiaeth;
- dysgu o bell ar sail ran-amser y bwriedir iddi roi cymhwyster llawn a roddir i unigolion ond lle gall ffioedd y myfyriwr fod yn cael eu talu gan gyflogwr. Dyma fodel y mwyafrif llethol o ddarpariaeth y Brifysgol Agored;
- darpariaeth a deilwriwyd i anghenion cyflogwyr (p'un ai'n gyflogwyr unigol neu grwpiau o gyflogwyr) ond lle mae gan y cwrs werth credyd a lle mae cyflogwyr yn talu ffi hyfforddiant nad yw'n talu am gost llawn y cwrs (gyda'r gweddill yn cael ei adennill o gyllid credyd CCAUC): yn y model yma, medrir cyflenwi'r ddarpariaeth un ai ar gampws neu ar safle cyflogwr a gall yn rhwydd fod nad oes disgwyliad y bydd y dysgu yn arwain at gymhwyster llawn mewn gradd neu lefel Meistr er y medrir cronni modiwlau unigol neu unedau yn y ffordd hon;
- cyrsiau pwrpasol a ddatblygwyd i ddiwallu anghenion penodol cyflogwyr, a gaiff eu cyflenwi'n hyblyg ac a gaiff eu hariannu'n llawn gan y cyflogwr: gall y rhain fod â chredyd ai peidio ac efallai nad yw dysgwyr wedi ymrestru'n ffurfiol gyda'r sefydliad neu eu cofnodi yn nata HESA;

- darpariaeth 'Addysg Gymunedol' a gyflwynir ar gampws neu mewn lleoliadau cymunedol, fydd â chredyd ac ar lefel addysg uwch ond a all fod wedi'u strwythuro neu beidio i arwain y dysgwyr at ennill cymhwyster llawn;
 - mynediad a darpariaeth gymunedol arall sydd, er y'i cyflenwir gan SAU (un ai ar gampws neu mewn lleoliad addysg bellach neu gymunedol) heb fod ar lefel addysg uwch ac a ariannir drwy System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol APADGOS. Mae darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn elfen sylweddol o hyn, gyda'r rhan fwyaf ohono wedi ei gynnwys o fewn data HESA ers 2007/08.
- 4.2 Yn ychwanegol, a gan dorri ar draws y categorïau llac hyn, gall darpariaeth addysg uwch gael ei chyflenwi gan drefniadau ffransais yn bennaf gyda cholegau addysg bellach, lle caiff yr addysgu ei gyflenwi gan y sawl sydd â'r ffransais ond y caiff y sicrwydd ansawdd ac achredu ei ddarparu gan SAU. Dan y trefniadau hyn, y Sefydliad Addysg Bellach fydd yn talu'n uniongyrchol am y rhan fwyaf o'r costau ac yn derbyn mwyafrif cyfraniad ariannol CCAUC (lle'n berthnasol) ond mae'r SAU yn 'brigdorri' yr incwm ffioedd. Ymrestrir y myfyrwyr gyda'r SAU, a lle mae'r dysgu â chredyd a heb fod yn seiliedig ar adferiad cost llawn, caiff y myfyrwyr eu cofnodi yn nata HESA.
- 4.3 Ymhellach, fel y gwelwch yn Adran 3 uchod, mae nifer cymharol fach o fyfyrwyr addysg bellach a ariannir gan CCAUC ar gyrsiau a gyflwynir yn unig gan golegau addysg bellach dan drefniadau 'addysg bellach mewn addysg uwch', er i ryw raddau roedd rhai a gyfwelwyd yn ystyried bod hyn yn rhywbeth o anomaledd.
- 4.4 Yn olaf, tynnodd un SAU sylw at y diffyg eglurdeb am statws graddau sylfaen. Yn achos y SAU yma, gan fod cyfres o raddau sylfaen yn cael eu cyflenwi ar draws blwyddyn galendr yn hytrach na blwyddyn academaidd, cafodd y cyrsiau eu categoreiddio fel rhai rhan-amser hyd yn oed er eu bod yn golygu 120 gwerth credyd dros y flwyddyn galendr.
- 4.5 Credai llawer o'r rhai a gyfwelwyd fod y drafodaeth am ddarpariaeth ran-amser wedi methu adlewyrchu'r mathau amrywiol a'r cymhellion am ddysgu rhan-

amser a'i fod yn seiliedig ar dybiaethau llac am faint cysylltiadau rhwng dysgu rhan-amser yn gyffredinol ac, ar yr un llaw, ehangu mynediad neu, ar y llaw arall, ymateb i alw cyflogwyr. Er enghraifft, credai un rhanddeiliaid fod naifrwydd o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru am heterogenedd y farchnad ran-amser. Credai rhywun arall, wrth siarad am y mathau o ddarpariaeth ran-amser a dysgwyr rhan-amser:

'Rwy'n credu fod yna lefel o gymhlethdod nad yw'n cael ei deall na'i chydabod o fewn y system bresennol oherwydd bod y system yn llawer yn rhy simplistig'.

- 4.6 Dadleuodd person arall a gyfwelwyd o SAU fod angen mawr i Lywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC 'strategeiddio' dysgu rhan-amser - i fod â ffocws cliriach ar yr hyn yr oedd yn ceisio'i gyflawni drwy ddarpariaeth ran-amser yn hytrach na hyrwyddo dysgu rhan-amser *per se*, a dywedodd un arall y dylai gwneuthurwyr polisi fod yn llawer mwy clir wrth ddweud beth oedd eu blaenoriaethau o fewn dysgu rhan-amser. Er bod nifer o'r rhai a gyfwelwyd yn ffafrio mesurau mwy egniol ar ran Llywodraetha Cynulliad Cymru a CCAUC i roi cymhellant i SAU roi mwy o flaenoriaeth i ddysgu rhan-amser, teimlwyd y medrai unrhyw ymgais i wneud hynny yn niffyg syniadau cliriach am y *bwriad* tu cefn i fesurau o'r fath arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd .
- 4.7 Ni chafodd y gwaith maes gyda SAU ei gynllunio i gynnal mapio manwl o batrwm darpariaeth ran-amser yn nhermau cwricwlwm neu bwnc ac roedd yn glir y cafodd amrywiaeth y mathau darpariaeth hefyd ei adlewyrchu yn amrywiaeth y cyrsiau a'r dysgu sydd ar gael.
- 4.8 Fodd bynnag, thema gyffredin (a adlewyrchwyd yn y data) oedd bod y rhan fwyaf o'r hyn a elwir uchod yn ddarpariaeth addysg gymunedol o fewn y celfyddydau a dyniaethau, ac mai cymharol ychydig oedd yn cael ei gynnig yn nhermau pynciau STEM, a chredid fod materion yn ymwneud â mynediad i offer a chyfleusterau yn fater yma.
- 4.9 Yn yr un modd, awgrymodd rhai a gyfwelwyd mewn rhai SAU fod y nifer o fyfyrwyr rhan-amser ar gyrsiau llawn-amser/rhan-amser 'deuol' yn tueddu i fod

yn eithaf isel yn gyffredinol, ond yn arbennig felly yn nhermau pynciau mwy technegol neu gymwysedig sydd angen mynediad i labordai neu stiwdios.

4.10 Er yr ymddengys y caiff darpariaeth a gaiff ei gyrru gan gyflogwyr neu sy'n gysylltiedig â chyflogwyr ei darparu mewn ystod eang iawn o sectorau a galwedigaethau, o glerigwyr i dechnolegwyr bwyd, peirianwyr awyrennau i gwmselwyr, awgrymodd nifer a gyfwelwyd o SAU fod hyfforddiant a gefnogir gan gyflogwyr yn llawer mwy cyffredin o fewn y sector cyhoeddus (gyda ffocysau cryf ar gymwysterau addysgu a DPP a'r proffesiynau ieched, er enghraifft). Wrth siarad am hyn, tueddai cyfweleion i gredu fod hyn ohewydd amharodrwydd y cyflogwyr sector preifat, yn neilltuol busnesau bach i ganolig, i gyfrannu at gostau hyfforddiant, yn hytrach nag unrhyw ddiffyg parodrwydd ar ran y sector addysg uwch i ymrwymo.

4.11 Yn olaf, mae'r gwaith maes yn adleisio canfyddiadau'r dadansoddiad data fod darpariaeth ran-amser cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig iawn, gyda llawer o'r hyn a gynigid yn cael ei gyflenwi gan bartneriaid ffransais addysg bellach yn hytrach na'r SAU eu hunain.

Darpariaeth Ran-amser a Chenhadaeth SAU

4.12 Roedd y gwaith maes (yn adleisio canfyddiadau astudiaeth flaenorol ar gyfer CCAUC ar gyllid ychwanegol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser) yn awgrymu'n glir, er gwaethaf y gyfran uchel o'r holl ymrestriadau sy'n fyfyrwyr rhan-amser, bod llawer o amrywiaeth barn o fewn SAU am ba mor ganolog yw darpariaeth ran-amser yn eu cenadaethau. Er bod hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu'r hollt rhwng SAU cyn ac ôl-92, efallai fod y gwahaniaeth hwn yn dechrau gwanhau.

4.13 Roedd rhai SAU yn agored wrth gyfaddef - hyd yn oed ar ôl caniatáu am amrywiaeth y ddarpariaeth ran-amser a adlewyrchir uchod - fod cyrsiau llawn-amser yn dal i gael eu hystyried fel y 'norm', gyda darpariaeth ran-amser yn parhau yn fath o ôl-ystyriaeth. Dangosir hyn gan nifer o sylwadau gan wahanol sefydliadau:

'Ni fedrwn ddadfuddsoddi mewn astudiaeth amser-llawn ac ail-fuddsoddi mewn astudiaeth ran-amser ... byddai hynny'n troi'r tap i ffwrdd ar ein marchnad dramor ac mae'n dyfodol wedi'i seilio ar gynyddu'n sylweddol ein hincwm o dramor ... yn yr un modd â phob SAU ym Mhrydain yn awr oherwydd y toriadau mewn cyllid'.

'Ein prif genhadaeth yw bod yn brifysgol a gaiff ei harwain gan ymchwil ac yn canolbwyntio ar ymchwil'

'Mae darpariaeth ran-amser ar gyrion yr hyn a wnawn'

'Rydyn ni'n sefydliad byd-eang cosmopolitan ... daw hanner ein myfyrwyr o'r tu allan i Gymru, felly un o'r pryderon sydd gen i yw nad ydyn ni mewn coleg cymunedol lleol'

4.14 Yn rhai o'r SAU hyn roedd elfen sylweddol o ddarpariaeth ran-amser mewn 'addysg gymunedol' fwy traddodiadol, yn aml yn wahanol i gwricwlwm prif ffrwd y sefydliad. Ar gyfer sefydliadau eraill, hyd yn oed lle ystyriwyd fod darpariaeth ran-amser yn ymylol, serch hynny cydnabuwyd ei fod yn bwysig oherwydd bod cael 'myfyrwyr rhan-amser yn rhoi ffordd i mewn i chi i'ch amgylchedd leol hefyd ... dydych chi ddim yn cael hynny gyda myfyrwyr llawn-amser'.

4.15 Ar y llaw arall, tanlinellodd cyfweleion mewn nifer o SAU le canolog ymrwymiad gyda chymunedau lleol a rhanbarthol yn eu cenhadaeth;

'Rhan-amser yw'r hyn rydyn ni'n fyw ac anadlu - mae'n rhan o'n craidd'

'Nid yr hyn sydd a gynigir gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n ei gyrru gymaint, ond rydyn ni'n ei weld fel rhywbeth mae'n rhaid i ni ei wneud i gyflawni ein cenhadaeth'.

4.16 Er bod gan rhai o'r SAU hyn raglenni cymunedol helaeth, roeddent hefyd yn llawer mwy tebygol o fod â ffocws sylweddol ar ddarparu cymwysterau proffesiynol a darpariaeth a deilwriwyd i ddiwallu anghenion cyflogwyr unigol.

- 4.17 O'r safbwynt hwn, a gan adlewyrchu amrywiaeth y dysgu rhan-amser a ystyrir uchod, mae'n bwysig tanlinellu nad oedd unrhyw gydberthynas berffaith rhwng y flaenoriaeth a roddai SAU (a'u cenadaethau) i ddarpariaeth ran-amser a'u hymrwymiad a buddsoddiad mewn ehangu mynediad neu gyflenwi o leiaf beth darpariaeth mewn cymunedau amddifadus. Yn wir, medrid dadlau mai rhai o'r SAU hynny lle mae'r dysgu rhan fwyaf amser yn fwyaf ymylol sydd serch hynny yn fwyaf ymroddedig i ymestyn i'r gymuned.
- 4.18 Er hyn, roedd bron yr holl randdeiliaid (yn ogystal â rhai SAU) yn cydnabod fod ystod eang o agweddau o fewn SAU a dadleuai llawer bod angen i wneuthurwyr polisi, yn eu tro, wahaniaethu'n gliriach rhwng SAU yn hytrach na disgwyl iddynt i gyd gael cenhadaethau yn union yr un fath.
- 4.19 Felly, dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd oedd yn agos i SAU, fod gwrthddweud rhwng dymuniad Llywodraeth y Cynulliad i fod yn eithaf rhagnodol am yr hyn y dylai SAU ei ddarparu a'r ffaith fod SAU yn gweithredu mewn marchnad, yn awyddus i wahaniaethu eu hunain o fewn y farchnad honno ac felly mewn gwirionedd yn eithaf ymatebol i'r newid mewn signalau o'r farchnad. Awgrymodd y cyfwelari, hyd yn oed os derbynnid fod mwy o ddarpariaeth yn beth da, y medrai fod yn well gwthio am fwy o ddarpariaeth ran-amser gan rai oedd yn ei gwneud yn dda, yn hytrach na gwthio pob SAU i gynnig mwy o ddarpariaeth ran-amser.
- 4.20 Adleisiwyd hyn gan nifer o randdeiliaid polisi, a deimlai fod polisi Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn symud yn y cyfeiriad hwn, a bod ganddo ffocws cynyddol ar beidio gofyn i bob SAU i gyflenwi rhagoriaeth ymchwil, addysgu ansawdd uchel ac ymwymo â busnes a'r gymuned ond ar ofyn i'r system addysg bellach yng Nghymru i ddarparu hyn:
- 'Yr hyn rydyn ni'n ei ddweud wrthyn nhw yn canolbwyntio ar eich cenhadaeth er mwyn dod yn gystadleuol yn fyd-eang. Wnewch chi byth gyflawni hynny drwy wneud ychydig o bopeth'.
- 4.21 Roedd hyn yn amlwg yn gysylltiedig gyda thrafodaeth dull gweithredu rhanbarthol newydd at addysg uwch a nodwyd yn '*Er Mwyn Ein Dyfodol*' ac

aeth un rhanddeiliaid ymhellach fyth, gan ddadlau y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan adeiladu ar ei dull gweithredu rhanbarthol newydd, ddewis tri SAU - un ym mhob rhanbarth - i arwain ar gynyddu sgiliau ac ymrwymiad cyflogwyr, gan weithio'n agos gyda Sefydliadau Addysg Bellach a ddylai dderbyn cyllid cenhadaeth wedi'i glustnodi i hybu'r agenda hwn, gan sylweddoli fod costau datblygu a dadarbedion maint yn gysylltiedig gyda datblygu'r maes hwn o waith yn llawer mwy egniol. Teimlai un arall:

'Does dim eisiau i sefydliadau unigol fod yn gwneud neu'n ceisio gwneud popeth. Felly dylai Sefydliadau Addysg Bellach fod yn gwneud pethau penodol, Sefydliadau Addysg Uwch yn gwneud pethau (eraill) penodol a phawb yn siarad gyda'i gilydd. Y broblem yw, all hynny byth ddigwydd pan fo teimlad o gystadleuaeth yn dal i fod rhwng y ddau yn seiliedig ar y ffaith mai'r 'dysgwyr sy'n dod â'ch incwm i mewn? A fyddai addysg uwch byth yn dweud wrth ddysgwr y byddai addysg bellach yn fwy addas iddyn nhw? Wedi'r cyfan, rydyn ni'n siarad am sefydliadau busnes, sy'n cael eu gyrru i raddau (efallai i raddau mawr) gan gymhellion cynyddu incwm.'

4.22 Er y credai llawer o gyfweleion fod gan rai Sefydliadau Addysg Bellach ymrwymiad dwfn i ddarpariaeth ran-amser (yn sicr yn nhermau ymrwymo gyda chyflogwyr ac anghenion economaidd eu rhanbarth) roedd o leiaf un (gyda phrofiad sylweddol o fewn y sector, yn Lloegr a hefyd yng Nghymru) yn agored yn fwy amheus gan gredu fod yr ymrwymiad hwn yn cael ei ysgogi'n fwy gan reidwydd na chan egwyddor.

4.23 Awgrymodd y cyfwelai yma fod bron yr holl uwch reolwyr o fewn SAU yn rhannu canfyddiad clir o drefn flaenoriaeth, gyda'r Grŵp Russell ar y brig (a medrid dadlau fod hynny'n adlewyrchu'r diffyg cydraddoldeb parch rhwng addysg alwedigaethol ac academaidd ar lefelau is y system addysg) a dweud fod SAU mwy newydd wedi tueddu i ganolbwyntio ar ddysgwyr aeddfed a rhan-amser ac ar y farchnad DPP oherwydd nad oeddent hwy eu hunain yn medru cystadlu'n effeithiol yn y ddwy farchnad addysg uwch mwy traddodiadol o gyllid ymchwil a recriwtio dysgwyr llawn-amser. Amheuai'r cyfwelai yma os oedd unrhyw SAU yng Nghymru o ddifrif yn gweld darpariaeth ran-amser yn nod

ganolog hirdymor, er y byddai rhai gyda dibyniaeth gref iawn ar DPP yn ystyried ei bod yn hanfodol i'w busnes.

Sbardunau Darpariaeth Ran-amser

4.24 Fel y bydd yn glir eisoes o'r drafodaeth yn Adran 4.2, yn gyffredinol dywedodd y SAU hynny oedd â'r gyfran uchaf o ddysgwyr yn astudio'n rhan-amser mai eu cenhadaeth oedd sbardun allweddol eu hymrwymiad gyda'r agenda yma, ac awgrymodd cyfweleion eraill, yn y gorffennol o leiaf, pan oedd mwy o leoedd llawn-amser ar gael nag o alw, y bu darparu lleoedd rhan-amser yn ffordd o 'lenwi seddi gwag ar gyrsiau llawn-amser'.

4.25 Ar yr un pryd, pwysleisiodd rhai cyfweleion hefyd fod rhesymau busnes da dros geisio ymrwymo gyda pheth darpariaeth ran-amser, yn neilltuol yr elfennau hynny lle'r oedd cyflogwyr yn barod ac yn abl i wneud cyfraniad ariannol (megis gyda chyrsgiau cysylltiedig â phroffesiwn). Dadleuodd un:

'Mae hyn o fewn y cyd-destun fod y SAU yn endid economaidd, a seiliwyd ar egwyddorion busnes incwm a chostau. Ond fel pob prifysgol mae gennym ni hefyd amcanion cymdeithasol sy'n sail i lawr o'r hyn a wnawn. Ac mae hynny'n cyd-fynd yn dda gyda darpariaeth ran-amser ac agendâu fel ehangu mynediad.'

4.26 Yn wir, yn yr achos yma, awgrymodd y cyfwelai fod y SAU yn mynd ati'n eithaf ymosodol i geisio cyfran o'r farchnad, gan ddefnyddio'r manteision cost cystadleuol a lifai o'r ffaith fod llawer o gostau sefydlog yn cael eu hariannu yn rhannol drwy ddarpariaeth greiddiol i fod yn rhatach na'r ddarpariaeth bresennol oedd ar gael.

'Gan fod llawer o'r gwaith hwn yn ddysgu seiliedig ar waith/cyrsiau byr, mae elfen fasnachol gref a dylem fod yno'n ceisio cynnig pris cystadleuol drwy wneud yn siŵr ein bod yn rhatach na'r hyn sydd ar gael mewn mannau eraill. Rydyn ni hefyd yn gwneud rhai cyrsiau yn gwybod y byddwn ni'n colli arian arnyn nhw er mwyn cael troedle yn y farchnad ... Gall cyrsiau rheoli ac arweinyddiaeth gan ddarparwyr masnachol fod yn anhygoel o ddrud ac rydym

yn rhatach na hwy gan o leiaf 50%. Rydyn ni'n cael nifer dda ar y cyrsiau hynny fel canlyniad.'

- 4.27 Er mai ychydig o SAU oedd â ffocws llawn mor gystadleuol, pwysleisiai llawer o rai eraill fod rôl darpariaeth a luniwyd ar gyfer cyflogwyr a chyrsgiau proffesiynol yn greiddiol i'w model busnes, a phwysleisiodd cyfweleion eraill fod darpariaeth sylweddol mewn sgiliau lefel uchel gan ddarparwyr preifat. Dywedodd prifysgol arall fwy traddodiadol eu bod yn gymharol ddiweddar wedi datblygu MBA newydd rhan-amser ar ôl darganfod bod cwrs tebyg wedi troi yn 'fuwch arian' ar gyfer SAU arall yng Nghymru. Ystyriai rhai SAU hefyd fod darpariaeth ffransais (p'un ai'n llawn-amser neu ran-amser) yn ffordd o gynyddu elw heb fod risg.
- 4.28 Mae potensial marchnad wrth gwrs yn adlewyrchu neu'n tybio galw, ond roedd negeseuon cymysg gan gyfweleion yn nhermau pa mor bell yr oedd SAU yn wir yn ymateb i, yn hytrach na cheisio llunio, galw, yn neilltuol gan gyflogwyr ar gyfer sgiliau lefel uchel. Roedd un SAU gyda phwyslais cryf iawn ar ddarpariaeth ran-amser yn wynebu cyflogydd, er yn cytuno gyda'r farn fwy cyffredin fod angen i SAU ysgogi galw drwy ymrwymiad gyda chyflogwyr, serch hynny'n teimlo 'cyn gynted â'ch bod yn agor y drws [i gyflogwyr], cewch eich llethu gan y galw'.
- 4.29 Adleisiwyd y farn hon gan nifer o gyfweleion o sefydliadau eraill a ddadleuodd fod cyfran sylweddol o'u darpariaeth yn awr yn cael ei siapio i ymateb i ofynion penodol cyflogwyr, gydag un, er enghraifft, yn sôn am ddatblygiad cyfredol cwrs newydd rhan-amser ar gyfer gweithwyr gofal a iechyd cymunedol a ddeilliodd o fater penodol yn ymwneud â gwahaniad rhwng gweithwyr gofal a staff clinigol y soniodd dau awdurdod lleol amdano wrth y SAU.
- 4.30 Fodd bynnag, roedd nifer fwy o gyfweleion o fewn SAU a rhanddeiliaid eraill yn llawer llai sicr y medrai SAU gael eu gyrru gan y galw a fynegwyd gan gyflogwyr. Roedd un yn neilltuol yn amheus fod tystiolaeth i gadarnhau'r honiadau fod cyflogwyr eisiau llawer mwy o ddarpariaeth addysg uwch ran-amser ac yn neilltuol yn eithaf amheus am y gwthio am raddau sylfaen. Yn

ymarferol, yn ôl y cyfwelai yma, ymddangosai fod bron yr holl alw yma o'r sector cyhoeddus, yn arbennig iechyd.

4.31 Yn nhermau polisi, credai'r rhan fwyaf o gyfweleion fod darpariaeth ran-amser wedi symud yn gyson yn uwch ar agenda polisi Llywodraeth y Cynulliad gyda '*Er Mwyn Ein Dyfodol*' yn nodi carreg filltir yn y cyswllt hwn, er bod peth amheuaeth os oedd Llywodraeth y Cynulliad yn glir am yn union yr hyn y dymunai ei gyflawni drwy'r pwyslais newydd hwn a pheth amheuaeth os oedd yn barod i gefnogi ei hymrwymiad rhethregol gyda thystiolaeth fwy cadarn (yn neilltuol yn nhermau cyllid - gweler Adran 4.4 islaw):

'Mae llawer o rethreg amdano ond dwyf i ddim wedi fy narbwylllo eu bod yn ei feddwl go iawn ... y mater gwirioneddol am astudiaeth ran-amser yw'r cyllido ... ac mae'r cyllid ar gyfer myfyrwyr i wneud rhan-amser ... hyd nes iddyn nhw gael trefn ar hynny, mae bob amser yn mynd i fod yn her'.

4.32 Credai rhai o'r cyfweleion, y rhan fwyaf ond nid y cyfan o SAU oedd â mwyaf o ymroddiad i gyflenwi dysgu rhan-amser, ei bod yn debyg fod gan CCAUC lai o ymrwymiad deallusol i hyrwyddo dysgu rhan-amser. Dywedodd un:

'Gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad rydyn ni wedi cael sgysiau am, er enghraifft, y graddau sylfaen a'r elfen ran-amser yno ... 'dyw hynny ddim wedi dod o'r Cyngor Cyllido o gwbl ... felly fe fyddwn i'n dweud fod y pwysau yn dod o Lywodraeth y Cynulliad ac nid y Cyngor Cyllido Addysg Uwch'.

4.33 Fodd bynnag, teimlai'r rhan fwyaf fod CCAUC yn ofalus i adleisio neges polisi Llywodraeth y Cynulliad:

'Mae'n rhaid i mi ddweud nad oes llawer o wahaniaeth rhyngddyn nhw yn yr ystyr ein bod yn teimlo fod y Cyngor Cyllido yn ateb gofynion Llywodraeth y Cynulliad a thrwy'r llwybr ariannu rydyn ni'n gweithredu dymuniadau'r Cyngor Cyllido. O safbwynt SAU, does dim gwahaniaeth go iawn. Dwi ddim yn credu er enghraifft fod Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru yn ddogfen neilltuol o dda oherwydd nad oedd hi'n mynd yn ddigon pell ar ddarnau bach o ddysgu a graddau sylfaen. Roedd yn mynd o amgylch y cyrion ar hynny. Ac eto mae'n amlwg fod CCAUC wedi cefnogi symudiadau o'r fath'.

4.34 Fodd bynnag, ystyriai llawer o gyfweleion fod y ffaith na chafodd bwriad polisi ei adlewyrchu mewn liferau cynllunio ac ariannu yn gostwng effaith y signalau polisi hyn yn nhermau darpariaeth SAU. Felly, dywedodd cyfweleion mewn un SAU y bu'r pwyslais ar ddarpariaeth ran-amser yn weddol gyfyngedig ac y medrid fod wedi ei yrru'n fwy grymus petai gwneuthurwyr polisi eisiau hynny: er enghraifft, nid oedd Llywodraeth y Cynulliad na CCAUC wedi ymchwilio opsiwn diogelu credydau rhan-amser ar gyfer SAU hyd yma. I'r cyfweleion hyn, er ei bod yn debyg bod y ffocws polisi ar ddarpariaeth ran-amser yno o fewn dogfennau Llywodraeth y Cynulliad, nid oedd CCAUC o reidrwydd wedi cymryd y camau gweithredu priodol i sicrhau fod y cyflenwi ar draws SAU wedi ei ddiogelu neu'i gynyddu. Adleisiodd cyfwelai arall y farn fod negeseuon polisi yn iawn ond nad oeddent yn newid ymddygiad;

'Rydyn ni bob amser yn trafod dogfennau gwleidyddol .. dogfen Er Mwyn Ein Dyfodol ac yn y blaen ... ond mae prifysgolion i gyd yn eitha ceidwadol ... dydyn ni ddim yn tueddu i newid yn gyflym ... ac eithrio lle mae arian ar gael'.

4.35 Er i lawer o gyfweleion ddweud fod '*Er Mwyn ein Dyfodol*' yn amlwg yn dweud fod darpariaeth ran-amser yn hollbwysig i ddwy flaenoriaeth egni economaidd a chyfiawnder cymdeithasol, holodd lleiafrif os oedd agenda'r Drydedd Genhadaeth neu Ehangu Mynediad yn awtomatig yn gyrru SAU tuag at ddarpariaeth ran-amser.

4.36 Er yr ystyriwyd fod ymrwymiad cyflogwyr yn hollbwysig i strategaethau'r Drydedd Genhadaeth, dywedodd rhai o'r cyfweleion fod gan gyflogwyr a'u cyrff cynrychioli fwy o ddiddordeb yn llif pobl newydd o SAU i'w sectorau, ac yn fwy pryderus fod eu graddedigion newydd yn gyflogadwy a bod eu dysgu'n berthnasol i'r gweithle, yn hytrach na dymuno ymrwymo gyda SAU fel darparwyr dysgu a hyfforddiant ar gyfer eu staff presennol. I lawer o SAU, roedd ffocws yr un mor gryf, neu hyd yn oed yn gryfach, ar weithgareddau'r Drydedd Genhadaeth ag ar yr agenda datblygu sgiliau.

4.37 Yn wir, aeth cyfweleion o un SAU mor bell â dadlau fod gwrthdweud rhwng ymgyrch Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo pynciau STEM – a ystyrid yn sbardun sylweddol i strategaeth y Sefydliad ar gyfer y dyfodol - a ffocws ar

ddysgu rhan-amser gan nad oedd pynciau STEM yn gydnaws â darpariaeth ran-amser.

4.38 Yn yr un modd, holodd rhai cyfweleion os oedd cysylltu braidd yn arwynebol ehangu mynediad gyda darpariaeth ran-amser yn addas. Mewn realaeth, nodwyd fod nifer o bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach wedi rhoi blaenoriaeth i waith gyda disgyblion ysgol mewn ardaloedd Ehangu Mynediad, gyda'r nod o recriwtio myfyrwyr heb fod yn draddodiadol i'r hyn a oedd yn aml iawn yn gyrsiau oedd wedi eu strwythuro a'u cyflwyno mewn dulliau traddodiadol iawn:

'Rwyf hefyd eisiau dweud fod gan Ymgyrraedd yn Ehangach bwyslais pendant iawn ar ysgolion ar hyn o bryd. Mae hynny'n dda mewn llawer o ffyrdd, mai'n amlwg fod gan ysgolion rôl sylweddol. Ond mae'r syniad hefyd am ehangu'r rhwyd. Felly dylai fod am fwy na "disgyblion ysgol o ardaloedd amddifadus i addysg uwch" ond am "bobl o ardaloedd amddifadus yn gyffredinol" i addysg uwch ran-amser'.

4.39 Ar y llaw arall, roedd llawer o fyfyrwyr rhan-amser mewn SAU (e.e. yn dilyn cymwysterau proffesiynol, yn ogystal wrth gwrs â myfyrwyr ôlraddedig) yn aml o grwpiau economaidd-gymdeithasol oedd wedi'u cynrychioli'n dda mewn addysg uwch ac yn aml yn raddedigion eu hunain, gyda Dirprwy Ganghellor un SAU yn dweud ar gyfartaledd fod ei fyfyrwyr rhan-amser yn dod o gefndiroedd mwy cadarn na'i fyfyrwyr llawn-amser.

4.40 Nododd cyfweleion eraill tra medrai rhai myfyrwyr mwy aeddfed gael 'ail gyfle' i gael mynediad i addysg uwch yn rhwydd fod â chyfrifoldebau ariannol a theuluol eraill oedd yn golygu nad oedd ganddynt unrhyw ddewis heblaw dilyn llwybr rhan-amser, nad oedd hyn mewn llawer o ffyrdd yn beth i'w chwennych, gan y gallai wneud llawer mwy o ofynion ar y myfyriwr, yn arbennig os (fel oedd yn aml yn wir gyda myfyrwyr o gymunedau ehangu mynediad lle nad oedd fawr o brofiad o addysg uwch) ychydig o gefnogaeth cymheiriaid oedd ganddynt.

4.41 Yn olaf, nododd rhai cyfweleion, gyda mwyafrif myfyrwyr 'llawn-amser' yn gynyddol yn gweithio mewn rhyw ffordd ynghyd â'u hastudiaethau er mwyn

lleihau dyled, fod y gwahaniaeth rhyngddynt a myfyrwyr rhan-amser yn dod yn gynyddol annelwig:

‘Mae wedi newid ... dyw hi ddim fel hynny ddim mwy ... mae’r gwahaniaeth rhwng llawn-amser a rhan-amser yn annelwig iawn ar hyn o bryd ... mae nifer sylweddol o fyfyrwyr llawn-amser y SAU yn rhai rhan-amser mewn gwirionedd ... efallai eu bod yn astudio’n llawn-amser ond maen nhw hefyd yn gweithio nifer sylweddol o oriau ... felly mae’r rhwystr artiffisial rhwng y ddau yn dechrau diflannu’.

4.42 Hefyd, i nifer o sefydliadau, roedd cyfran uchel o fyfyrwyr llawn-amser yn ‘aeddffed’ gyda chyfrifoldebau eraill yn cynnwys gofal plant. Ar gyfer y cyfweleion hyn, roedd yr amrywiaeth gynyddol a heterogenedd eu poblogaeth fyfyrwyr llawn-amser yn gymaint o sbardun dros newid yn nhermau amseriad a math darpariaeth gwasanaethau dysgu ac ategol (llyfrgelloedd, gwasanaethau cefnogaeth myfyrwyr ac ati) ag oedd darpariaeth ran-amser.

Rhwysterau Darpariaeth Ran-amser

4.43 Fel y gwelsom eisoes, fe wnaeth nifer o gyfweleion gyfosod yn eglur yr ymrwymiad polisi i gynyddu argaeledd rhan-amser yn SAU Cymru gyda system gyllido sydd ar ei gorau yn brin o gymhellion i annog SAU i fynd i lawr y llwybr hwn.

4.44 Yn fwy cyffredinol, yn nhermau’r rhwystrau sy’n wynebu SAU, y system gyllido oedd yr un a godwyd gan fwyafrif llethol y cyfweleion fel y brif ffactor sy’n gwrthannog neu hyd yn oed lesteirio SAU rhag cynnig cyfran uwch o gyrsiau a lleoedd ar sail ran-amser.

4.45 Ar y lefel fwyaf sylfaenol, dywedodd nifer o gyfweleion fod system ariannu seiliedig ar fformiwla CCAUC yn gweithio i raddau helaeth ar ymestyn i’r dyfodol gyfeintiau hanesyddol o ddysgu a ariannir. Ystyrir bod hyn yn ffafrio’r sefyllfa fel y mae a, gan fod bron bob SAU ar eu huchafbwynt neu’n uwch na hynny, nid yw’n rhoi unrhyw gwmpas i SAU i gyflwyno’r achos dros gyllid ychwanegol i ymateb i anghenion a ddynodwyd. Felly, dadleuodd un cyfwelari

fod y SAU hynny oedd yn gweithio'n rhagweithiol gyda chyflogwyr a phartneriaid eraill (e.e. Sefydliadau Addysg Bellach) i ddynodi gofynion newydd ar gyfer addysg uwch ran-amser yn taro'n erbyn wal frics yn nhermau ariannu'r ddarpariaeth hon, os na fedrent ddarbwylllo cyflogwyr i dalu'r costau llawn. Mae hyn oherwydd yr uchafswm ar nifer credydau ar lefelau hanesyddol a'r ffaith nad oedd unrhyw neilltuo darpariaeth ran-amser.

- 4.46 O fewn y cyd-destun cyffredinol hwn, roedd dwy agwedd i broblemau ariannu gyda chysylltiad rhyngddynt. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chyllid ar gyfer SAU eu hunain, a'r ail yn ymwneud gyda chyllid myfyrwyr.
- 4.47 Yng nghyswllt SAU eu hunain, dywedodd cyfweleion, yn neilltuo ers cyflwyno 'ffioedd amrywiol', fod SAU wedi'i chael yn anodd codi lefelau ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser mewn ffordd gymesur gyda'r lefelau a dalir gan fyfyrwyr llawn-amser (a drafodir ymhellach yn Adran 4.5 islaw). Felly, er bod cyllid CCAUC wedi ei galibreiddio yn union gymesur â gwerth credyd y cyrsiau, roedd yn gyffredinol ddiffyg sylweddol ar ochr incwm yr hafaliad ar gyfer cyflenwi cyrsiau rhan-amser.
- 4.48 Er bod y cyllid ychwanegol a gyflwynwyd fel canlyniad i Adolygiad Graham yn cydnabod y ffaith hon, mae'r dull hwn yn un anuniongyrchol, er bod y cyfanswm a ddyrennir i bob SAU yn adlewyrchu cyfanswm niferoedd rhan-amser, mae hyn ar sail hanesyddol, ac mae'r cyllid yn dibynnu ar iddo gael ei weld yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol (megis bwrsariaethau neu ariannu oriau agor hwy ar gyfer gwasanaethau myfyrwyr) sy'n berthnasol i ddarpariaeth ran-amser. Mae hyn yn wahanol i, dyweder, y premiwm Ehangu Mynediad lle mae cymhelliant ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â recriwtio pob myfyriwr ychwanegol o'r ardaloedd daearyddol perthnasol. Yn wir, soniwyd am y syniad o bremiwm rhan-amser yn y trafodaethau adeg Adroddiad Graham ond credid y byddai'n rhy ddrud, a chafodd ei godi eto yn ein hadroddiad ar Gyllid Graham¹⁴³.

¹⁴³Gwerthusiad o Gyllid Ychwanegol ar gyfer Myfyrwyr Rhan-amser, t. 40

- 4.49 Yn ôl rhai cyfweleion, nid yn unig yr oedd yr incwm ffioedd o ddarpariaeth ran-amser yn gyffredinol is ond roedd hefyd fater pa mor sicr oedd y cyllid ar gyfer blynyddoedd y dyfodol. Unwaith yr oedd myfyriwr llawn-amser wedi ymrestru, roedd cyfle uchel y byddai ef neu hi yn parhau am ail a thrydedd flwyddyn, roedd y rhagolygon yn llawer llai pendant yng nghyswllt myfyrwyr rhan-amser.
- 4.50 Ymhellach, dywedodd o leiaf un cyfwelai nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai cyllid Graham, a oedd o leiaf yn rhannol yn rhoi dull iawndal, yn parhau am yr hyn a fedrai fod yn bump neu chwe mlynedd o fywyd myfyriwr rhan-amser ym mywyd myfyriwr mewn prifysgol:
- ‘Os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC o ddifrif am y ddarpariaeth ran-amser yma, yna mae angen iddynt symud i ffwrdd o gyllid blynyddol Graham i gyllid premiwm prif ffwrdd ar gyfer darpariaeth ran-amser.’
- 4.51 Os oedd incwm o fyfyrwyr rhan-amser yn cael ei ystyried fel bod yn is ac yn llai dibynadwy nag incwm myfyrwyr llawn-amser, yna roedd hefyd yn wir fod costau yn tueddu i fod yn uwch. Nododd cyfweleion fod llawer o'r costau yn gysylltiedig gyda phob myfyriwr (nid yn lleiaf y rhai'n gysylltiedig gyda chostau cofrestru a chasglu data) yn rhai y *pen* heb ystyried pa mor ddwys oedd y ddarpariaeth. Felly, mae dau fyfyriwr bob un yn dilyn cwrs 60 credyd yn golygu cost weinyddol uwch nag un myfyriwr yn gwneud cwrs 120 credyd (er i fod yn deg, medid dweud fod un elfen, er yn fechan, o'r fformiwla gyfredol yn daliad y pen ar gyfer pob myfyriwr a ymrestrodd, pa bynnag nifer o gredydau a ddilynwyd).
- 4.52 Yn gyffredinol, y farn gref ymysg cyfweleion o fewn y SAU hynny gyda chyfran cymharol isel o fyfyrwyr rhan-amser oedd na fyddai'n gwneud unrhyw synnwyr ceisio blaenoriaethu recriwtio rhan-amser o gofio am y ddeinameg ariannol gydag un yn dweud fel canlyniad i'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am leoedd llawn-amser:
- ‘Fe wnaethom benderfyniad bwriadol i gyflenwi mwy o ddarpariaeth llawn-amser ... does dim angen i ni fod yn darparu cyrsiau rhan-amser gan fod gan y Brifysgol fwy o fyfyrwyr eisiau astudio yma nag o leoedd ar gael’.

- 4.53 Yn yr un modd, esboniodd y SAU hynny a ystyriai fod darpariaeth ran-amser yn rhan gyfannol o'u cenhadaeth eu bod dan bwysau parhaus gan gyfarwyddwyr ariannol (yn neilltuol yng ngoleuni'r cynnydd mawr mewn ceisiadau am leoedd llawn-amser) i ostwng darpariaeth ran-amser (o leiaf yr elfen sylweddol hynny oedd yn gymwys am gyllid CCAUC) o blaid canolbwyntio mwy ar leoedd llawn-amser. Dywedodd un, os oedd angen torri costau mai 'darpariaeth ran-amser fydd y cyntaf i fynd', a dywedodd un arall oherwydd y cynnydd mewn ceisiadau drwy UCAS 'rydyn ni'n cael ein gyrru i lawr yr hyn sy'n llwybr mwy effeithiol yn ariannol'.
- 4.54 Mewn trydydd achos, roedd polisi hirsefydlog i ail-fantoli cyfran ymrestrïadau tuag at nifer uwch o fyfyrwyr llawn-amser wedi ei hybu 'gan y dadansoddiad ariannol gan bobl mewn cyllid a chynllunio strategol sy'n anodd iawn ei gynnal eich hunan os nag ydych yn cynyddu'r gyfran o fyfyrwyr llawn-amser'.
- 4.55 Dywedodd un arall a gyfwelwyd:
'Medraf ddychmygu fod rhai cyfarwyddwyr cyllid digyfaddawd ym mhrifysgolion Cymru yn holi, ac iawn hynny, beth yw manteision cynnig darpariaeth ran-amser. Ac edrych arno mewn ffordd ariannol yn llwyr, fydddech chi ddim yn cefnogi darpariaeth ran-amser ac yn sicr dim yn edrych am ffyrdd i'w gynyddu'.
- 4.56 Efallai bod hyn oherwydd, er i'r dyraniad o nifer credydau i SAU unigol gael ei gyfrif ar sail elfennau ar wahân o ddarpariaeth llawn-amser a rhan-amser, y gwnaed hynny ar sail data hanesyddol ac nid oedd dim ar hyn o bryd i rwystro SAU rhag newid credydau llawn-amser i rai rhan-amser a'r ffordd arall o amgylch.
- 4.57 Yn nhermau cyllid myfyrwyr, soniodd llawer o gyfweleion hefyd fod y cae chwarae yn unrhyw beth heblaw gwastad yng nghyswllt myfyrwyr llawn-amser a rhan-amser. Er bod myfyrwyr llawn-amser yn gymwys am ystod eang o gefnogaeth ar gyfer ffioedd (ar wedd y benthyciad ffioedd) a chostau byw, nid oedd yr offerynnau hyn ar gael i fyfyrwyr rhan-amser, ac eithrio cyllid

cyfyngedig ar gyfer costau byw ar gyfer y rhai (lleiafrif o fyfyrwyr rhan-amser) sy'n astudio am fwy na 60 credyd:

'Dan 50% o astudiaeth lawn-amser yn aml nid oes dim byd yn nhermau cefnogaeth. Mae hynny'n golygu benthyciadau masnachol a chyfraddau llog uchel ac ystyriaeth o ddifrif am fforddiadwyedd ... nid yw 77% o fyfyrwyr rhan-amser yn cael unrhyw grantiau ffioedd oherwydd y meini prawf'.

4.58 Er bod rhai cyfweleion yn cydnabod ei bod yn anodd iawn cael system unffurf (pa incwm ydych chi'n rhoi ystyriaeth iddi wrth gyfrif hawliau? Pryd fyddai myfyriwr a oedd eisoes yn gweithio yn ystod ei astudiaethau gychwyn ad-dalu unrhyw fenthyciad ffi?) ac er y cydnabuwyd yn gyffredinol y byddai materion enfawr o fforddiadwyedd, credai llawer o gyfweleion fod hyn yn sylfaenol yn tanseilio'r galw am ddysgu rhan-amser (nid yn lleiaf, gan unigolion na chaiff eu hariannu gan eu cyflogwyr) yn ogystal â rhoi pwysau ar i waered ar lefelau ffioedd ar gyfer darpariaeth ran-amser.

4.59 Yn ogystal â chael ei amlygu gan SAU, cafodd lle blaenllaw ystyriaethau cyllido fel rhwystr ei gydnabod gan randdeiliaid eraill gydag un yn dweud:

'Fedrwn ni ddim hyrwyddo addysg uwch ran-amser o fewn y model presennol o gyllid addysg uwch ... dyna pam y cafodd ei osgoi, dyma'r eliffant yn yr ystafell'.

4.60 Dywedodd un arall, oedd yn fwy beirniadol am barodrwydd yn ogystal â gallu SAU i fynd i'r afael â her darpariaeth ran-amser:

'Mae'n rhaid i chi gychwyn o'r ffaith fod llawer o SAU yng Nghymru yn dal i fod braidd yn ffroenuchel pan ddaw i ddarpariaeth ran-amser. Cewch y teimlad eu bod nhw'n meddwl: "fe fyddwn yn cael myfyrwyr beth bynnag, felly pam fod angen i ni fynd allan a denu mwy o fyfyrwyr drwy raglenni rhan-amser gyda'r gwaith y bydd hynny'n ei gymryd?"

4.61 Er yr ystyriwyd bod strwythur ariannu sefydliadau a hefyd unigolion yn rhwystr hollbwysig i ddarparu mwy o gyfleoedd rhan-amser, roedd rhwystrau trefniadol a diwylliannol eraill sydd, er yn rhyng-ddibynnol gyda chwestiynau ariannol, heb fod yn gyfystyr â hwy.

4.62 Felly, soniodd nifer o gyfweleion nid yn unig bod y system cyllid myfyrwyr yn gynhenid anghyfartal yn nhermau'r gwahaniad anhyblyg rhwng cymorth ar gyfer myfyrwyr llawn-amser (ac yn arbennig israddedigion) a phawb arall, ond bod yr wybodaeth oedd ar gael yn llawer mwy darniog. Dywedodd un cyfwelai fel enghraifft fod gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru yn anhylaw ar gyfer rhai oedd yn gobeithio astudio ar sail ran-amser. Awgrymodd un arall fod ymchwil a gynhaliwyd gan NASMA (Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Arian Myfyrwyr) lle bynnag yn bosibl yn dweud y dylai darpar fyfyrwyr llawn-amser gael gwybod yn gynnar faint oeddent yn debyg o'i dderbyn, yn sicr ymhell cyn iddynt gychwyn ar eu cwrs ar gyfer y rhan fwyaf o fyfyrwyr rhan-amser, anaml yr oedd y broses o wneud cais am gymorth ar gael fis neu ddau cyn cychwyn blwyddyn academaidd.

'Y brif broblem yw na fydd pobl sy'n dod i ddyddiau agored ym mis Ebrill eleni¹⁴⁴ yn cychwyn hyd 2011. Ond maent eisiau'r ffeithiau a'r ffigurau yn awr. Ac maent eisiau i'r ffigurau hynny fod yn eithaf cywir. Ni fedrwn warantu'r cywirdeb hwnnw, ac mae'r ffigurau a roddwn iddynt yn anochel yn hen erbyn iddynt fynd ati i lenwi'r ffurflenni. Felly nid yw'n ymddangos fod y system yn cydnabod fod myfyrwyr rhan-amser yn mynd drwy broses gynllunio weddol drwyadl o gynllunio ar gyfer eu hastudiaeth. Maent yn gofyn cwestiynau iddynt eu hunain am fforddiadwyedd a rhan fawr o hynny yw unrhyw gymorth ariannol y medrant ei hawlio. Ac maent yn cychwyn gofyn y cwestiynau hyn ymhell cyn eu dyddiad cychwyn posibl'.

4.63 Yn fwy o broblem byth, er y medrai myfyrwyr llawn-amser wneud cais drwy system UCAS, dywedodd llawer o'r cyfweleion fod SAU unigol yn trin ceisiadau am dderbyniadau myfyrwyr rhan-amser. Nid oedd felly unrhyw ffordd rwydd, proffil uchel y medrai'r rhai sy'n ystyried astudio ond yn methu gwneud hynny ar sail lawn-amser gael mynediad i wybodaeth ar draws ystod o SAU a, hyd yn oed yn bwysicach, yn medru gwneud cais am ystod o gyrsiau drwy un system gais. Fel y dywedodd un rhanddeiliad:

¹⁴⁴ 2010

'Mae hyn i gyd yn cychwyn cyn y brifysgol - adeg mynediad mae myfyrwyr llawn-amser yn mynd drwy UCAS sy'n rhoi llawer o wybodaeth ac arweiniad. Mae myfyrwyr rhan-amser yn tueddu i fynd yn syth i'r SAU. Fe fyddem yn hoffi iddynt gael y cyfle i gysylltu gyda UCAS i gael mynediad i'r wybodaeth a gaiff myfyrwyr llawn-amser. Credwn y byddai'n helpu gyda'r cyfraddau sy'n gadael cyn gorffen eu cyrsiau yn neilltuol yn y flwyddyn gyntaf honno'.

4.64 Er bod hyn yn wrthanogaeth bwysig i ddarpar fyfyrwyr, roedd hefyd yn broblem i SAU, gyda chyfweleion yn awgrymu ei bod yn llawer mwy costus a gormod o risg i geisio sicrhau ceisiadau ar gyfer darpariaeth ran-amser yn hytrach nag ar gyfer cyrsiau llawn-amser. Felly, dadleuodd un SAU, er bod ysgogi sbarduno cyrsiau gyda chyflogwyr yn aml yn galw am lawer iawn o waith gyda'r cyflogwyr, ar gyfer cyrsiau llawn-amser 'traddodiadol', 'mae angen i chi ysgrifennu pethau ar gyfer eich prospectws'.

4.65 Adleisiwyd hyn gan gyfwelai arall a ddywedodd fod yr ymdrech i ddynodi dysgwyr newydd fel rhan o gynllun Prifysgol Blaenau'r Cymoedd yn golygu ymdrech wirioneddol drylwyr yn nhermau sicrhau ymrwymiad cyflogwyr - cael pobl i gnocio ar ddrysau 'ac yn eithaf aml y drysau hynny yn cael eu cau yn glep yn ein hwyneb'. Roedd hyn yn tanlinellu'n syml bwynt cyffredinol fod costau recriwtio dysgwyr rhan-amser yn llawer uwch oherwydd ei fod angen dulliau llawer mwy dwys - ni fedrech ddibynnu ar hysbysebu, ond roedd yn rhaid gweithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr a chymunedau:

'Mae'r ymdrech y mae'n rhaid i chi eu gwneud ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn gymesurol ddrutach'.

4.66 O fewn SAU, roedd hefyd faterion sefydliadol, yn cynnwys anfodlonrwydd staff i weithio oriau heb fod yn draddodiadol, sy'n ei gwneud yn anos ymateb i ofynion gan gyflogwyr ac unigolion gydag ymrwymadau gwaith a ffordd arall o fyw am ddarpariaeth fwy hyblyg. Mewn rhai achosion, roedd llawer o ddiffyg hyblygrwydd, gydag un SAU yn cyfaddef 'rydyn ni'n Brifysgol eithaf traddodiadol ac felly mae tiwtoriaid yn amharod i weithio tu allan i oriau arferol'.

4.67 Dywedodd un arall:

‘Caiff y rhan fwyaf o brifysgolion eu sefydlu i weddu i’r staff ... mae’r rhan fwyaf ohonom eisiau addysgu rhwng dydd Llun a dydd Gwener ... mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion lawer o staff nad ydynt yn hoffi addysgu ar fin nos neu ar benwythnos ... ond nid yw hynny o reidrwydd yn cyfateb gyda’r galw sydd yna o’r tu allan’.

4.68 Er nad oedd hyn yn wir ar gyfer pob SAU, roedd hyd yn oed y rhai yr ymddangosai fod ganddynt fwyaf o ymrwymiad i roi blaenoriaeth i’r agenda yma’n cael eu herio, er enghraifft, gan ofynion gan gyflogwyr i gyflenwi dysgu mewn sesiynau bloc dwys yn ystod y tymor, er y dywedodd un cyfwelai y cafodd problemau o’r fath eu goresgyn, ond dim ond drwy recriwtio staff newydd yn benodol i ddarparu cwrs oedd angen ei gyflenwi mewn bloc ar benwythnosau. Medrid dadlau fod hynny’n golygu fod risg datblygu dwy garfan ar wahân o athrawon o fewn yr un Sefydliad.

4.69 Roedd problemau tebyg yn weithredol ar gyfer materion megis oriau agor llyfrgell ac argaeledd gwasanaethau myfyrwyr. Dywedodd un rhanddeiliad, er enghraifft, ei bod yn gresynu ar ymweliad diweddar i SAU mawr i ganfod mai dim ond rhwng 9am a 5pm ar ddyddiau’r wythnos yr oedd y swyddfa Gwasanaethau Myfyrwyr ar agor. Mewn SAU arall, lle’r oedd y llyfrgell ar agor rhwng 8.30am a 9 pm., roedd pwysau serch hynny gan fyfyrwyr am oriau agor hirach.

4.70 Yn fwy cyffredinol, teimlai rhai cyfweleion fod holl agwedd eu sefydliadau eu hunain yn dal i fod wedi’i seilio ar ddodi systemau ar waith ar gyfer myfyrwyr llawn-amser ac yna eu haddasu ar gyfer rhai rhan-amser. Cyfaddefodd un cyfwelai ‘fel y rhan fwyaf o brifysgol, cafodd y SAU ei sefydlu i gyflenwi addysg llawn-amser ac nid addysg ran-amser’.

4.71 Dywedodd cyfwelai o SAU arall, er bod cyfran uchel o’r ymrestriadau yn rhan-amser yno:

‘Rydych yn gweld hynny mewn pob math o leoedd. Ac weithiau mae’n eithaf cynnil. Rydych yn sefydlu eich systemau ar gyfer myfyrwyr llawn-amser ac yna’n meddwl ‘nawr, sut mae addasu hyn ar gyfer myfyrwyr rhan-amser’.

4.72 Dywedodd yr un cyfwelai:

'Yn dechnegol mae mwyafrif y cyrsiau llawn-amser ar agor i fyfyrwyr rhan-amser ... ond yn aml iawn nid dyna'r broblem, y broblem yw sut i drefnu'r amserlen a'u hyrwyddo'.

4.73 Yn fwy cynnil, dadleuodd cyfweleion fod recriwtio i ddarpariaeth ran-amser yn cael ei danseilio gan ganfyddiad eang mewn cymdeithas yn gyffredinol (ac a adlewyrchwyd felly mewn agweddau cyflogwyr yn ogystal ag unigolion) fod prifysgolion yn dal i fod am ddarparu addysg tair blynedd ar gyfer rhai 18 oed:

'Mae'n amlwg fod tensiwn yn dal i fod o'r ffaith fod addysg uwch yn dal i gael ei ystyried yn bennaf i rywbeth i berson ifanc – rhwng 18 a 21 oed'.

4.74 Roedd hyn yn ei dro yn rhwystr wrth gynyddu galw, gydag un cyfwelai yn dadlau fod cylch dieflig yma gyda bai hefyd ar SAU:

'Mae materion diwylliannol yn broblem. Dysgu ac addysgu rhai 18-25 yw sylfaen ein gwaith ac mae hynny'n cyfrif am 80-90% o'n hincwm. Wedyn daw grantiau ymchwil ac maen nhw'n bwysig. Yn nesaf yw'r hyn y maent ei alw yn weithgareddau'r Trydedd Genhadaeth - nad yw'n enw poblogaidd - sy'n cyfrannu'r lleiaf o'r tri o ran cyllid. Mae hyd yn oed yr enw yn awgrymu ei fod yn drydedd radd - ym mhrifysgolion Ivy League America neu'r prifysgolion brics coch yma, yr athro ymchwil sydd yn draddodiadol yr uchaf ei barch. Lle mae'r entrepreneur academiaidd yn dod o fewn hyn? Rydyn ni'n credu y dylai hynny newid, y dylai academyddion sy'n ymwneud â'r hyn a elwir y Trydedd Genhadaeth gael yr un parch ag athro ymchwil. Ond bydd angen newid diwylliannol, newid diwylliannol enfawr o fewn y prifysgolion ar gyfer hynny'.

4.75 Dadleuodd rhai cyfweleion mai'r farn gyffredinol oedd nad oedd SAU 'ar gyfer' dysgwyr rhan-amser a bod amharodrwydd darparwyr dysgu eraill (yn arbennig rhai'n ymwneud â Dysgu Oedolion yn y Gymuned) i gyfeirio dysgwyr oedd wedi cyflawni'n well ar lefelau is o ddysgu i SAU yn rhwystr. Ymddangosai hyn hefyd yn rheswm pam fod rhai SAU eu hunain yn trefnu darpariaeth eithaf helaeth ar lefelau is o ddysgu er mwyn meithrin dysgwyr a fyddai maes o law yn symud ymlaen i astudiaeth addysg uwch.

Barn am Gostau Cymharol, ac Incwm, o Ddarpariaeth Ran-amser

- 4.76 Rydym eisoes wedi trafod yn Adran 4.4 uchod y canfyddiad cryf fod gwrthanogaeth ariannol gref i SAU gynnig darpariaeth ran-amser lle mae galw digonol am ddarpariaeth llawn-amser.
- 4.77 Fel y nodwyd eisoes, yn y mwyafrif helaeth o achosion, credai SAU nad oedd yn bosibl codi ffioedd hyfforddiant ar yr un gyfradd *pro rata* ar gyfer myfyrwyr rhan-amser ag ar gyfer myfyrwyr llawn-amser. Ymddangosai fod hyn yn llai gwir ar gyfer lleoedd ôlraddedig, ac mewn rhai achosion, roedd hefyd yn llai gwir am gymwysterau proffesiynol. Ond yn gyffredinol, hyd yn oed lle'r oedd cyrsiau'n gymwys am gyllid CCAUC (ac felly ni ddisgwylid i gyflogwyr ond talu cyfran gymharol isel o wir gost y ddarpariaeth), credai cyfweleion SAU ei bod yn amhosibl codi ffioedd oedd yn gymesur gyda'r incwm a geid o fyfyrwyr llawn-amser. Dywedwyd fod hyn yn wir hyd yn oed am gyflogwyr sector cyhoeddus lle, er enghraifft, yn achos cyflogwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, 'os ydych chi'n ei wthio'n rhy uchel, wnaiff y GIG ddim talu amdano ... bydd y farchnad yn chwalu'.
- 4.78 Dywedodd cyfwelai o SAU arall yn yr un modd bod 'cyflogwyr yn torri eu costau ac mae pethau'n mynd yn wirioneddol dyn, hyd yn oed o fewn y sector cyhoeddus'.
- 4.79 Yn achos y sector preifat, credid bod hyd yn oed y cyflogwyr mwyaf i gyd yn amharod i dalu cyfraddau marchnad llawn ar gyfer darpariaeth (gydag eithriad rhannol arweinyddiaeth a rheolaeth a darpariaeth math Ysgol Fusnes) a dadleuwyd ei bod yn anodd iawn ymrwymo o gwbl gyda busnesau bach a chanolig, yn arbennig mewn ardaloedd fel Blaenau'r Cymoedd, os nad oedd y dysgu fwy neu lai am ddim. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod cyflogwyr o'r fath yn amheus am werth yr hyfforddiant *per se* neu'n syml ddim yn gwybod am eu hanghenion gwirioneddol:
- 'Os edrychwch chi ar draws y seilwaith economaidd – mae cwmnïau bach yn crafu o gwmpas i weld o ble daw'r contract nesaf .. nid mater o alw ydi hi

oherwydd dydy'r cyflogwyr yn gwybod eu bod ei angen, mae'n gwestiwn o angen ... mae'n gwestiwn o angen heb ei ddiwallu, nid galw heb ei ddiwallu'.

- 4.80 Awgrymodd nifer o gyfweleion fod y ffaith fod hyfforddiant lefel is megis prentisiaethau yn cael eu darparu fwy neu lai am ddim i gyflogwyr yn golygu bod disgwyliadau tebyg gan SAU.
- 4.81 Mae'r cyfraniad sy'n ymddangos yn gymharol isel gan gyflogwyr at gostau dysgu efallai yn achos pryder neilltuol yng ngoleuni dau ddatblygiad mewn rhan arall o'r agenda dysgu:
- Yn gyntaf datblygiad polisi ffioedd (wedi'i gyfeirio'n bennaf at Addysg Uwch) sy'n dadlau ar lefelau uwch o ddysgu, lle mae adenillion marchnad i'r unigolyn a'r cyflogydd yn gyffredinol uwch, bod yn rhaid i gostau dysgu gael eu rhannu'n decach rhwng y wladwriaeth, y cyflogydd a'r unigolyn, gyda nod benodol 'ei bod yn hanfodol newid disgwyliadau unigolion a chyflogwyr am ffioedd cyn gynted ag sydd modd'¹⁴⁵
 - Yn ail, bwriad eglur HEFCE yn Llundain i wneud yn sicr fod cyfraniadau cyflogwyr at gostau darpariaeth addysg uwch ar gyfer dysgu cysylltiedig â gwaith yn cynyddu, gyda chyllid seiliedig ar gredyd HEFCE yn cael ei ostwng.
- 4.82 Yn achos darpariaeth heb fod wedi'i drefnu'n uniongyrchol gyda'r cyflogwr, ond a oedd serch hynny yn alwedigaethol, nid ymddangosai fod llawer o SAU yn olrhain yn eglur achosion lle'r oedd cyflogwyr yn ad-dalu ffioedd i fyfyrwyr. Lle'r oedd unigolion eu hunain yn talu ffioedd, credai'r cyfweleion yn gyffredinol ei bod yn hollol afrealistig disgwyl y byddai mwy na chyfran fechan o'r boblogaeth yn medru talu ffioedd oedd unrhyw le'n agos at lefel *pro rata* ffioedd llawn-amser.
- 4.83 Nid oes unrhyw arweiniad gan CCAUC am bolisi yn nhermau ffioedd ar gyfer astudiaeth ran-amser, a dywedodd cyfweleion fod y dystiolaeth o weithrediad y polisi Hepgor Ffioedd (sy'n talu'r ffioedd ar gyfer dysgwyr rhan-amser ar rai budd-daliadau statudol yn uniongyrchol i SAU) yn dangos ystod eang o

¹⁴⁵ Buddsoddi mewn Sgiliau: Dogfen Ymgynghori (APADGOS), t. 16

wahanol lefelau ffioedd. Er nad oedd y dystiolaeth o'n gwaith maes yn gynhwysfawr, byddai'n ymddangos, gydag eithriad cyrsiau ôlraddedig a rhai cymwysterau proffesiynol, mai anaml yr oedd ffioedd cwrs ar gyfer darpariaeth israddedig yn fwy na £10 neu £12 fesul credyd (cyfwerth o ddim mwy na £1,500 am gwrs 120 credyd llawn-amser, lle byddai'r incwm ffioedd i'r sefydliad tua £3,200).

- 4.84 Ymhellach, mewn llawer o achosion, roedd SAU yn gweithredu eu cynlluniau hepgor ffioedd eu hunain drwy Gyllid Graham, ond weithiau wedi'i ariannu o adnoddau craidd, ar gyfer myfyrwyr digyflog heb fod ar y budd-daliadau yn cymhwyso am gynllun CCAUC. Dywedodd un SAU bach fod hyn yn costio mwy na £100,000 i'r sefydliad eleni, o gymharu gyda dim ond £14,000 a adhawliwyd gan CCAUC dan y Cynllun Hepgor Ffioedd.
- 4.85 Cydnabu cyfweleion SAU yn gyffredinol, fodd bynnag, fod diffyg polisïau neu arweiniad clir (hyd yn oed ar lefel y sefydliad) am bolisi ffioedd ac ychydig o'n cyfweleion a fedrodd roi ateb cyflym a diamwys am y ffioedd a godwyd ar gyfer darpariaeth ran-amser. Felly cydnabu un, tra'n dweud fod y sefydliad wedi sefydlu gweithgor yn ddiweddar i geisio cynnig ffioedd rhan-amser ar sail fwy cydlynol, y bu hyd yma 'ar sail ad hoc llwyr, gyda phob ysgol yn gosod ei ffioedd ei hunan ac yn eu cytuno gyda chyllid'.
- 4.86 Dywedodd un arall:
- 'Dydyn ni ddim rhy dda am farnu, fel sefydliad ... neu fel sector ... dydyn ni ddim fel busnesau yn barnu sensitifrwydd prisiau ... llyfu eu bysedd a'u rhoi yn yr awyr yw llawer iawn o'r hyn wnaiff sefydliadau'.
- 4.87 Yn nhermau costau, fel y gwelsom eisoes, credai'r rhan fwyaf o gyfweleion fod costau darpariaeth ran-amser yn gyffredinol uwch, er y rhoddodd un amod ar hyn drwy ddweud 'os na chaiff ei wneud drwy lenwi cyrsiau llawn-amser ... yna mae'n gost ymylol.
- 4.88 Y rhesymau am hyn oedd 'cost drafodol' ymrestru a darparu gwasanaethau craidd i bob myfyriwr unigol, costau recriwtio oherwydd diffyg porthol clir ac

adnabyddus (megis UCAS) a'r ffaith fod llawer o ddarpariaeth ar gyfer cyflogwyr yn dibynnu ar gysylltiadau uniongyrchol gyda chyflogwyr ac, yn olaf, gostau ychwanegol ar gyfer darpariaeth a chefnogaeth y tu allan i oriau safonol:

'Mae gennych faterion sy'n amrywio o arbedion maint syml - mae gan gyrsiau rhan-amser a ddysgir yn gyffredinol lai o fyfyrwyr fesul dosbarth ond wrth gwrs rydych chi'n dal i fod â'r un costau darpariaeth h.y. mae darlithydd yn yr ystafell yno. Os ydych yn siarad am waith min nos neu benwythnos - ac mae'n sicr eich bod yn gwneud hynny pan siaradwch am gyrsiau dysgu byr seiliedig ar waith - yna mae ynglŷn â chael y staff ar gael a'r costau ychwanegol o'u cael i weithio'r oriau hynny'.

- 4.89 Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfweleion a fedrodd roi unrhyw ddata clir ar faint y costau ychwanegol hyn, er y credai un cyfwelai o SAU a fuddsoddodd yn helaeth mewn darpariaeth ran-amser fod y costau tua 'traean yn uwch' (o gofio am gostau ychwanegol cynnig allan o oriau, gorbenion tebyg megis myfyrwyr llawn-amser yn nhermau costau cymorth myfyrwyr a gweinyddiaeth).
- 4.90 Yn bwysig, fodd bynnag, tanlinellodd nifer o gyfweleion nad oedd costau cymorth o reidrwydd yn uwch ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a bod hyn yn dibynnu llawer ar y math o ddarpariaeth ran-amser oedd ar gael. Felly, roedd myfyrwyr cyflogedig ar gyrsiau cymhwyster proffesiynol megis cyfrifyddiaeth neu DPP ar gyfer athrawon yn annhebyg o alw ar wasanaethau cefnogaeth myfyrwyr, lle medrai rhai mewn darpariaeth allestyn cymunedol neu fynediad fod ag anghenion cefnogaeth eang.

Sylwadau ar Alw nas Diwallwyd

- 4.91 Cafodd cwestiynau am y ffyrdd y datblygwyd darpariaeth newydd ac i ba raddau y medrai fod galw nas diwallwyd gan gyflogwyr ac unigolion yn gyffredinol ymatebion eithaf amrywiol yn gyffredinol.
- 4.92 Awgrymodd cyfweleion fod gan y rhan fwyaf o SAU ymagwedd eithaf deinamig at ddatblygu darpariaeth newydd (p'un ai'n llawn neu'n rhan-amser) gyda

'chorddi' sylweddol dros gyfnod, a bod ganddynt hefyd systemau eithaf trwyadl ar waith ar gyfer cymeradwyo cyrsiau newydd, sydd o leiaf yn ddamcaniaethol yn edrych ar fater galw posibl gan ddysgwyr. Ar yr un pryd, awgrymodd nifer o gyfweleion fod sefydlu'r galw am gyrsiau ar ei orau yn gelfyddyd, yn hytrach na gwyddor ac yn ymarferol fod galw yn aml yn gorfod cael ei greu drwy gynnig darpariaeth.

4.93 Felly cyfaddefodd un cyfwelai o SAU:

'Rydyn ni fel y rhan fwyaf o addysg uwch drwy nad ydyn ni erioed wedi datblygu model busnes carn ar gyfer cymeradwyo cyrsiau ... fe fyddwn i'n medru dweud wrthy ch am y galw am y ddarpariaeth bresennol dros gyfnod, ond fedrwn i ddim dweud wrthy ch i lle byddwn i'n edrych am ystadegau galw'.

4.94 Ychwanegodd y cyfwelai yma y credent mai'r hyn mae'r brifysgol yn ei ystyried fel arfer yn 'ddata galw' mewn gwirionedd yn 'ddata hanesyddol ar gyflenwad' ac aeth ymlaen i ddweud:

'Y ffordd y caiff y rhan fwyaf o gyrsiau eu cychwyn yw drwy weithgaredd entrepreneuriaidd academyddion ar y lefel leol ... sydd â syniad da ... mae'n aml yn wir nad ydyn ni'n edrych ar alw .. bydd academydd yn rhoi ffigur arno o 25 myfyriwr ... ond does dim data i gefnogi hynny ... syniad yw e yn fwy na dim arall'.

4.95 Er bod hyn ar ben mwyaf eithafol y sbectrwm, dadleuodd cyfwelai o SAU arall ei bod yn anodd dweud os oedd y galw yn tarddu o'r 'farchnad;' neu os oedd yn gynnyrch yr hyn y mae'r brifysgol a'i darparwyr ffransais yn ei gynnig mewn gwirionedd. Roedd y cyfwelai yma'n agored nad oedd gan y SAU unrhyw wir ymdeimlad o 'beth y medrai fod galw cudd amdano' a bod ceisiadau am gyrsiau newydd neu 'heb fod ar y ddewislen' yn tueddu i ddod mewn ffordd braidd yn ddarniog'.

4.96 Cytunodd cyfwelai arall o drydydd SAU fod y Brifysgol weithiau wedi 'rhedeg cyrsiau drwy ddyfalu'.

4.97 Roedd sawl SAU, yn arbennig y rhai yr oedd darpariaeth a gefnogir gan gyflogwyr yn bwysig iddynt, yn amlwg yn dibynnu mwy ar drafodaethau uniongyrchol gyda chyflogwyr (yn cynnwys mewn un achos restr ragorol o gyflogwyr sylweddol o fewn y rhanbarth perthnasol) ac weithiau'n comisiynu ymchwil i ddynodi a datblygu darpariaeth. Fodd bynnag, hyd yn oed yma, roedd cyfweleion yn awyddus i bwysleisio fod darpariaeth yn fwy na dim ond ymateb i anghenion a fynegodd cyflogwyr ond ei fod hefyd ynglŷn â dynodi cyfleoedd a'u 'gwerthu' i gyflogwyr, gan ddadlau y medrai gallu addysg uwch i ddefnyddio ymwybyddiaeth o newid technolegol, rheoliadol ac amgylcheddol i ddynodi anghenion y dyfodol fod yn fantais allweddol:

'Mae'n bwysig nad ydyn ni ond yn aros i'r cyflogwr ddod yn ôl a dweud dyma'r hyn rydyn ni angen yn y tair blynedd nesaf, ond i weithio gyda hwy yn defnyddio ein harbenigedd ein hunain fel prifysgolion i ddweud ydych chi'n sylweddoli mai dyma'r hyn sydd ar y ffordd, deddfwriaeth newydd, technolegau newydd ... mae gan hyn oblygiadau ar gyfer yr holl ffordd rydych chi'n gweithio, ydych chi eisiau gweithio gyda ni i fynd i'r afael â hynny'.

'Mae am fwy na dim ond am alw, rydyn ni hefyd yn ceisio hybu'r agenda datblygu economaidd'.

4.98 Roedd y rhan fwyaf o gyfweleion yn cael anhawster gyda'r cysyniad o alw cudd, yn arbennig ar ran unigolion, gyda rhai'n dadlau y byddai'n amhosibl mesur hyn heblaw drwy arolygon o'r boblogaeth gyfan ac y byddai hyd yn oed hyn yn annhebyg o helpu oherwydd na fyddai gan lawer o bobl unrhyw syniad o'r hyn a fedrai fod ar gael a sut y byddai'n cysylltu â'u hanghenion. Yn niffyg hyn, ac o gofio'r rhagdybiaethau mai rhywbeth i ymadawyr ysgol oedd prifysgolion, nid oedd unigolion byth yn debygol o ystyried a gofyn am gyfleoedd nad oedd ar gael iddynt. Mewn gwirionedd, credai'r rhan fwyaf o gyfweleion mai dim ond drwy gynnig darpariaeth yn y farchnad y medrid profi galw, er yr ychwanegodd un:

'Fedrwy chi ddim dianc rhag y teimlad fod pethau y medrech fod yn eu diystyru ... efallai eu bod nhw eisiau iddo gael ei gyflwyno ar benwythnos neu beth bynnag, ond fydd hynny ddim yn amlygu ei hunan ... os nad ewch i edrych amdano'.

4.99 Roedd rhai yn cwestiynu hyd yn oed y cysyniad o alw cudd gydag un rhanddeiliaid o'r tu allan i'r sector Addysg Uwch yn dadlau fod 'ymateb i ac ysgogi galw yn ddwy ochr yr un geiniog'.

4.100 Ar ôl dweud hyn, fe wnaeth cyfweleion unigol awgrymu ystod o feysydd lle credent (er heb dystiolaeth benodol) y medrai fod galw nad oedd yn cael ei ddiwallu:

- pynciau STEM (ar y sail fod y rhan fwyaf o ddarpariaeth ran-amser a dargedwyd at unigolion yn parhau i fod o fewn y celfyddydau a dyniaethau), a godwyd gan o leiaf hanner dwsin o gyfweleion. Fodd bynnag, dywedodd un nad oedd galw digonol am leoedd llawn-amser yn rhai o'r pynciau hyn;
- graddau sylfaen yn gyffredinol lle teimlai un rhanddeiliaid fod SAU Cymru wedi bod yn araf i weithredu;
- 'unrhyw beth i'w wneud gyda'r gair creadigol ... ysgrifennu creadigol ... theatr ... drama', 'hanes lleol' a 'hel achau';
- 'busnes a thechnoleg';
- 'sgiliau arweinyddiaeth a rheoli generig, newid sefydliadol a chadernid sefydliad';
- technoleg gwybodaeth a meithrin gallu mewn technoleg gwybodaeth;
- technolegau cynaliadwy.

4.101 Yn fwy cadarn, rhoddodd un SAU restr benodol iawn o ddarpariaeth bosibl mewn ystod eang o bynciau galwedigaethol lle dynododd alw gan gyflogwyr. Rhyngddynt, roeddent yn cyfrif am 939 o ymrestriadau ychwanegol yn cynrychioli 45,320 o gredydau ychwanegol o fewn y brifysgol a 355 ymrestriad yn cynrychioli 36,180 credyd mewn partneriaid cydweithiol (o gymharu â bron 170,000 o unedau credyd a ariannwyd ar gyfer y SAU yn y flwyddyn bresennol).

Dulliau a Hyblygrwydd Darpariaeth

- 4.102 Yn nhermau dulliau darpariaeth, roedd yn eithaf trawiadol mai cymharol ychydig o SAU oedd â gallu sylweddol yn nhermau e-ddysgu neu ddysgu arall o bell. Yr eithriad amlwg yw'r Brifysgol Agored yng Nghymru sydd â mynediad i fodel busnes unigryw a buddsoddiad graddfa fawr mewn datblygu deunydd dysgu gan ei fod yn rhan o un o'r darparwyr mwyaf o ddysgu o bell yn fyd-eang, nid dim ond yn y Deyrnas Unedig.
- 4.103 Er, yn neilltuol ar gyfer astudiaeth ran-amser graddedigion, medrai cyfran sylweddol o fyfyrwyr dreulio cymharol ychydig o amser ar gampws, roedd SAU yn gyffredinol yn defnyddio model o 'ddysgu cyfunol' lle medrai deunyddiau fod ar gael ar lein i gefnogi'r cwricwlwm, ond lle'r oedd craidd yr hyfforddiant yn dal i gael ei gyflenwi ar sail wyneb-i-wyneb. Fodd bynnag, dywedodd un cyfwelai oherwydd bod y rhyngwyd ar gael ym mhobman a phwysigrwydd cynyddol deunyddiau mewnwyd (Blackboard) neu seiliedig ar y we (Moodle) mewn SAU, bod y 'ffin [rhwng dysgu o bell a dysgu ar gampws] wedi dod yn aneglur'.
- 4.104 Wrth gwrs, roedd eithriadau i hyn, gyda chyfweleion yn sôn am gyrsiau penodol a ddarperir yn bennaf ar sail dysgu o bell (mewn rhai achosion, yn arwain y farchnad o fewn y DU ac yn fwy eang) neul le'r oedd pob darlith yn cael eu rhoi ar fideo fel mater o drefn ac ar gael yn ddigidol.
- 4.105 Mae pryderon am faterion sicrwydd ansawdd a chost datblygu (a chefnogi) cyrsiau rhydd-sefyll yn seiliedig ar e-ddysgu tu ôl i amharodrwydd SAU Cymru i fynd lawr y ffordd hon i unrhyw raddfa sylweddol. Pwysleisiodd un cyfwelai o SAU gyda pheth profiad o ddatblygu cyrsiau o'r fath fod cefnogaeth uwch reolwyr i'r syniad o e-ddysgu neu ddysgu o bell yn cael ei yrru gan ganfyddiad y byddai'n galluogi'r Sefydliad i gyrraedd marchnadoedd ehangach gyda chynnyrch oedd yn 'addas i'r diben', yn hytrach na disgwyliad o arbedion cost. Yn wir, dadleuwyd:
- 'mae'r gofynion am gefnogaeth gan fyfyrwyr [yn gwneud eu dysgu o bell] yn ddi-ddiwedd ... mae staff sy'n cynnal deunyddiau dysgu o bell yn derbyn negeseuon e-bost bob awr o'r dydd a'r nos'.

- 4.106 Roedd y SAU yma felly'n canolbwyntio ar ddatblygu cyrsiau ar-lein ar ddarpariaeth ôlraddedig, lle disgwyliid y byddai myfyrwyr yn fwy hyderus ac yn llai dibynnol ar gymorth o bell: ystyriwyd fod dysgu o bell yn addas ar gyfer astudiaeth ar lefel israddedig:
- 'Mae dysgu o bell ar lefel israddedig yn rhywbeth hollol wahanol .. mae'n anodd iawn'.
- 4.107 Dywedodd cyfwelai o SAU arall fod ei Sefydliad wedi cymryd y farn nad dysgu o bell oedd y dull mwyaf effeithiol o astudio ar gyfer y rhan fwyaf o fyfyrwyr a bod gan y Brifysgol Agored yng Nghymru eisoes le blaenllaw yn y farchnad hon.
- 4.108 Yn nhermau cyflenwi cyfleoedd dysgu oddi ar y campws, roedd gan leiafrif SAU (yn gyffredinol rai lle mae darpariaeth ran-amser yn cynrychioli cyfran eithaf isel o'r holl ddarpariaeth) ddarpariaeth sylweddol mewn lleoliadau cymunedol, gydag un yn siarad am 'gwpl o ddwsinau' o leoliadau cymunedol. Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd darpariaeth o'r fath yn benodol i'r cynnig 'addysg gymunedol' (er bod unedau unigol yn aml yn dod o ddarpariaeth 'prif ffrwd' ac mewn un achos o leiaf, yn dibynnu ar staff academaidd o gyfadranau eraill yn hytrach na'r tîm penodol dysgu gydol oes).
- 4.109 Ymddangosai fod nifer fechan o SAU eraill hefyd yn darparu cyfran sylweddol o'u hyfforddiant i ateb gofynion cyflogwyr mewn lleoliadau cyflogwyr neu fannau niwtral yn hytach nag ar gampws.
- 4.110 Wrth gwrs, i nifer fach o SAU, roedd cyflenwi cyrsiau addysg uwch drwy bartneriaid ffransais addysg bellach yn rhan allweddol o'u darpariaeth ran-amser gydag, mewn un achos, y rhan fwyaf o ddarpariaeth ran-amser graddau is-raddedig a heb fod â gradd yn cael ei gyflenwi yn y ffordd hon. Yn ddiddorol, yn gyffredinol, roedd y SAU oedd yn draddodiadol wedi cyflenwi llawer o ddysgu yn y ffordd hon yn awr yn cwtogi i raddau mwy neu lai, gan ddadlau gyda chyfyngiadau ariannol ar y gorwel, y byddent yn lle hynny yn gorfod canolbwyntio ar ddarpariaeth 'perchen llwyr'.

4.111 Ar y llaw arall, roedd nifer o SAU nad oedd yn draddodiadol wedi ceisio cynghreirio gyda Sefydliadau Addysg Bellach yn awr yn ystyried hyn ymhellach, er yn bennaf er mwyn hybu cynnydd i gyrsiau lefel addysg uwch, yn hytrach nag ar batrymau ffransais. Felly, dywedodd un SAU fod partneriaethau gweithgar gyda Sefydliadau Addysg Bellach yn awr yn ystyriaeth er mwyn adeiladu llwybrau dilyniant i SAU ar gyfer pynciau STEM, blaenoriaeth sefydliadol, tra dywedodd un arall:

'Mae angen i'r brifysgol ystyried y farchnad sgiliau, ond gweithio'n gynyddol gydag addysg bellach i sicrhau nad oes cystadleuaeth, dim gorgyffwrdd, ffiniau clir'.

4.112 Yn olaf, yn nhermau amseriad, rhoddodd cyfweleion SAU ystod o ymatebion oedd yn adlewyrchu'n fras y gyfran o'u darpariaeth bresennol oedd wedi'i thargedu'n benodol ar ddysgwyr rhan-amser (yn neilltuol rai gyda statws cyflogedig oedd yn dilyn cyrsiau cysylltiedig â gwaith). Yn fras, fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o SAU gyda'r math hwn o broffil cryf o ymrwymo cyflogwyr yn darparu cyrsiau datblygu proffesiynol drwy 'ryddhad dydd', 'min nos' ac yn llai aml, ar benwythnos. Weithiau caiff cyrsiau cymunedol eu cynnal ar fin nos neu benwythnosau, er nad oedd hyn mewn unrhyw ffordd yr achos yn gyffredinol - gan adlewyrchu (neu efallai i ryw raddau yn cyfrif am) y ffaith nad oedd cyfran uchel o gyfranogwyr yn y mathau hyn o gyrsiau mewn cyflogaeth.

4.113 Fodd bynnag, er ar gyfer y rhan fwyaf o SAU bod llawer o ddarpariaeth ar gael un ai ar sail lawn-amser neu ran-amser, gyda dim ond un neu ddau o eithriadau, nid oedd yn ymddangos fod SAU yn gyffredinol yn strwythuro cyrsiau israddedig 'defnydd deuol' (h.y. rhai y medrid cael mynediad iddynt ar sail lawn-amser neu ran-amser) ar sail oriau ansafonol o amserlenni bloc i'w gwneud yn rhwyddach i fyfyrwyr rhan-amser ffitio dysgu o amgylch ymrwymadau eraill. Dywedodd un cyfwelai o SAU fod hyn oherwydd bod bron y cyfan o fyfyrwyr rhan-amser nad oeddent yn dilyn cyrsiau cysylltiedig â DPP yn gweithio ac y medrent felly fynychu yn ystod y dydd.

4.114 Yn y cyd-destun hwn, dywedodd un rhanddeiliad gyda phrofiad sylweddol o addysg uwch yn Lloegr, yn wahanol i Loegr, nad oedd unrhyw SAU yng Nghymru (ac eithrio'r Brifysgol Agored yng Nghymru) lle mae'r sefyllfa ragosod oedd gwneud darpariaeth ar gael ar y sail y medrid ei ffitio o amgylch ymrwymïadau gwaith.

Cadw Myfyrwyr a Chefnogaeth Myfyrwyr

4.115 Yn gyffredinol, methodd cyfweleion o SAU roi data cadarn ar gadw myfyrwyr rhan-amser, er nad yw hyn yn dweud na chesglir data o'r fath. Mae materion diffiniadau yn broblem allweddol yma. Er enghraifft, sut medrai rhywun fod yn glir am nod myfyriwr yn ymrestru ar, dyweder fodiwl 30 credyd oedd yn ffurfio rhan o gymhwyster ond a gynlluniwyd i'w gyflwyno fel uned sefyll ei hun? Yn yr amgylchiadau hyn, roedd y canfyddiad fod myfyriwr wedi gadael cwrs oherwydd na wnaeth symud ymlaen i fodiwl bellach wedi'i seilio ar dybiaeth heb ei phrofi am eu nodau a'u cymhellion. Dywedodd un rhanddeiliaid, oherwydd hyn, ei bod yn bwysig casglu data am nodau a dymuniadau myfyrwyr unigol adeg ymrestru, ond mai anaml y gwneid hyn.

4.116 Yn yr un modd, os nad oedd myfyriwr wedi cwblhau un modiwl yn ymrestru yn y tymor nesaf ar fodiwl pellach, nid oedd hyn o reidrwydd yn golygu eu bod wedi terfynu eu hymrwymiad gydag addysg uwch, efallai mai'r cyfan oedd wedi digwydd oedd iddynt benderfynu cymryd saib o astudio ac y byddent yn dychwelyd. I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, credai nifer o gyfweleion yn achos rhai SAU bod y ffigur ar gyfer y nifer o fyfyrwyr rhan-amser yn fwy na'r nifer o fyfyrwyr 'byw', gan fod y rhai oedd wedi cymryd 'saib' yn eu hastudiaeth (ond nad oeddent yn ôl pob tebyg yn bwriadu parhau ymhellach) serch hynny yn cael eu cadw ar y cofnodion.

4.117 Oherwydd hyn, dywedodd y rhan fwyaf o gyfweleion SAU fod eu sefydliadau yn tueddu i edrych ar gyfraddau cwblhau modiwlau. Mewn un achos, fodd bynnag, lle'r oedd SAU yn gyffredinol yn cynnig dysgu cysylltiedig â phroffesiwn, roedd y Sefydliad yn ddiweddar wedi cynnal astudiaeth o gyfraddau cwblhau modiwl a chyfraddau dim-dilyniant myfyrwyr rhan-amser ac

wedi darganfod tra bod y cyntaf yn gyffredinol uchel (gyda'r rhai'n gadael yn tueddu i wneud hynny o fewn deufis cyntaf y cwrs), bod y diweddaraf yn fater mwy difrifol. Yn y Sefydliad hwn, o 2,000 o fyfyrwyr rhan-amser, yn 2008/09 dim ond 59 a adawodd eu cyrsiau yn ystod y flwyddyn, ond methodd 98 myfyriwr ymrestru am ail flwyddyn y cwrs ar ôl gorffen blwyddyn 1, gyda 128 arall yn methu parhau i drydedd flwyddyn cwrs ar ôl cwblhau'r ddwy flynedd gyntaf yn llwyddiannus.

4.118 Er y dywedwyd y medrai rhai o'r dysgwyr hyn yn rhwydd fod wedi penderfynu eu bod wedi ennill cymhwyster addas heb symud ymlaen i'r lefel uchaf a gynigiwyd, roedd y SAU yma wedi dod i'r casgliad o'r ymchwil 'rydyn ni wedi dysgu fod angen i ni wneud mwy o waith i sicrhau fod unigolion yn dod yn ôl ar ôl diwedd y tymor - yn arbennig i ddynodi'r rhai sy'n debygol o beidio dychwelyd.'

4.119 Yn nhermau'r rhai sy'n gadael modiwlau, y prif resymau a nodwyd oedd materion cysylltiedig ag astudiaeth (disgrifiwyd gan y cyfwelai fel pob math o 'Fedrwn i ddim mo'i wneudl e') a newidiadau mewn amgylchiadau teuluol (yn cynnwys datblygiadau cysylltiedig ag iechyd). Ni soniwyd yn gyffredinol am faterion ariannol, er y medrai hyn adlewyrchu'r ffaith fod y rhan fwyaf o fyfyrwyr rhan-amser yn dilyn cyrsiau cysylltiedig â gwaith, ac ychydig oedd yn gorfod talu lefelau sylweddol o ffioedd eu hunain.

4.120 Roedd bod patrwm cyfraddau dilyniant yn fater pwysicach na chyfraddau cwblhau hefyd yn wir ar gyfer darparwydd sylweddol arall o ddysgu rhan-amser lle'r oedd cyfraddau cwblhau yn gyffredinol tua 65% o fodiwlau is-raddedig a 77% ar gyfer rhai ôlraddedig, ond lle'r oedd cyfraddau parhad yn gyffredinol rhwng 40% a 50%.

4.121 Fel y nodwyd eisoes, ychydig o gyfweleion eraill SAU a fedrodd roi adborth penodol iawn. Yn gyffredinol, credid fod lefelau gadael yn amrywio'n eithaf sylweddol, yn cyfeirio'n ôl at natur amrywiol iawn darpariaeth ran-amser. Felly roedd cyfraddau cwblhau cymwysterau proffesiynol yn gyffredinol uchel, tra bod cyfraddau gadael llawer uwch ar gyfer ymrestradau addysg gymunedol

neu ran-amser mewn darpariaeth brif ffrwd. Ar gyfer un SAU gyda chyfran uchel o ymrestriadau rhan-amser, gall y cyfraddau gadael fod 'braidd yn uchel' gyda hyn yn cael ei briodoli'n rhannol i fywyd cymhleth myfyrwyr rhan-amser yn aml:

'Y peth yw, gyda myfyrwyr rhan-amser mae llawer mwy yn mynd ymlaen yn eu bywydau nag ar gyfer myfyrwyr llawn-amser ... nid beth ydyn ni'n ei wneud neu ddim yn ei wneud yma ydi hi, mae i wneud gydag agweddau eraill eu bywydau'.

4.122 Yn achos SAU arall, awgrymodd cyfwelai fod cyfraddau cadw ar gyrsiau rhan-amser yn gyffredinol rhwng 70-80% o gymharu â 90% ar gyrsiau llawn-amser a phriodolwyd hyn i faterion megis 'logisteg' a'r 'gost bersonol' i fyfyrwyr rhan-amser.

4.123 Fodd bynnag, nododd cyfweleion nifer o SAU fod cydberthynas glir iawn rhwng myfyrwyr Ehangu Mynediad neu fyfyrwyr gyda record academaidd cymharol wael (p'un ai'n astudio ar sail lawn-amser neu ran-amser) a chyfraddau uwch o beidio cwblhau a bod hyn yn llawer mwy arwyddocaol nag unrhyw gysylltiad y medrid ei wneud gyda'r dull astudio. Nododd rhanddeiliaid eraill hefyd fod llawer o SAU Cymru yn perfformio'n wael yng nghyswllt cadw myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr llawn-amser (gyda phedwar Sefydliad o Gymru ymysg y 20 SAU gyda'r perfformiad gwaethaf yn y Deyrnas Unedig) ond cydnabuwyd fod hyn yn gysylltiedig â lefel y recriwtio o ardaloedd Ehangu Mynediad. Ar yr un thema, dywedodd nifer o gyfweleion SAU ei bod yn annheg gosod ffocws mor gryf ar gyfraddau cadw, heb ddadansoddi cyd-destun proffil economaidd-gymdeithasol y corff myfyrwyr ac (yn neilltuol wrth i'r galw am addysg uwch ddechrau fod yn fwy na'r cyflenwad) ac y medrai gymell sefydliadau i anghofio am Ehangu Mynediad ar hyn o bryd.

4.124 Yn nhermau cefnogaeth myfyrwyr, rydym eisoes wedi nodi y teimlai llawer o gyfweleion fod anghenion yn amrywio ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth ran-amser. Ychydig o'r rhai oedd yn astudio cymwysterau proffesiynol (graddedigion yn aml) sydd angen cefnogaeth gyffelyb i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr llawn-amser tra, er enghraifft, bod gan lawer

o'r rhai'n dilyn rhaglenni addysg gymunedol, yn aml o gymunedau lle'r oedd dysgu Addysg Uwch yn brin iawn, anghenion cefnogaeth eithaf dwys.

4.125 Dywedodd y rhan fwyaf o gyfweleion SAU bod gwasanaethau cefnogaeth myfyrwyr ar gael ar sail gyfartal i'r holl fyfyrwyr (yn cynnwys, mewn rhai achosion, rai ar gyrsiau ffransais):

'Does dim gwahaniaeth go iawn o ran safon y gefnogaeth a roddwn'.

'Yr egwyddor sylfaenol yw nad yw myfyrwyr rhan-amser yn cael eu trin yn ddim llai ffafriol na myfyrwyr llawn-amser'.

4.126 Nid oedd hyn yn wir am bob SAU, fodd bynnag. Mewn un, dywedodd un cyfweleiaid nad oedd mynediad i dechnoleg gwybodaeth yn deg ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, ac yn fwy cyffredinol:

'Fe fyddwn i'n eithaf hyderus i ddweud mai ychydig iawn rydyn ni'n ei gynnig yn nhermau cefnogaeth dysgu [ar gyfer myfyrwyr rhan-amser] ... heblaw'r adnoddau hynny sydd ar gael yn electronig ... mae'r Swyddfa Academaidd yn cael trafferthion gyda myfyrwyr rhan-amser ... dydyn nhw ddim yn cael yr un profiad dysgu'.

4.127 Mewn un arall, roedd cefnogaeth myfyrwyr wedi'i gyfyngu, o leiaf yn ffurfiol, i'r myfyrwyr rhan-amser hynny oedd yn astudio 60 credyd neu fwy:

'Gall unrhyw un sy'n rhan-amser pwynt pump ac uwch gael yr un faint a'r un safon o gyngor gyrfaoedd, mynediad i diwtoriaid ... dyw e ddim yn golygu eu bod nhw'n cael eu gwrthod os ydyn nhw ar bwynt dau .. fe fydden ni'n dal i'w ystyried ... ar sail achos unigol'.

4.128 Er, mewn rhai achosion, ei bod yn amlwg fod SAU wedi gwneud ymdrechion helaeth i deilwra gwasanaethau i anghenion myfyrwyr rhan-amser, yn gyffredinol roedd yn glir fod rhwystrau anuniongyrchol, efallai yn neilltuol yn nhermau oriau agor gwasanaethau allweddol, yn parhau. Er enghraifft, mewn un SAU gyda chyfran uchel o fyfyrwyr rhan-amser, cafodd oriau agor gwasanaethau myfyrwyr a'r llyfrgell eu hystyried diolch i gyllid 'Graham' ond dim ond yn ystod oriau gwaith ar ddyddiau'r wythnos yr oedd y gwasanaeth

cwnsela ar gael. Mewn SAU eraill roedd problemau am oriau agor cyfyngedig ar gyfer cefnogaeth myfyrwyr a llyfrgelloedd, fel y nodwyd eisoes, a mynediad i arweinwyr a darlithwyr:

'Mae'r ffordd y mae academyddion yn gweithio yn golygu mai dim ond am ychydig oriau'r wythnos y mae eu swyddfa'n agored'.

4.129 Drwyddi draw, yn siarad o safbwynt myfyrwyr, crynhodd dau randdeiliad gwahanol y rhwystrau ymarferol sy'n wynebu myfyrwyr rhan-amser:

'Mae'n dal yn wir fod gormod o fyfyrwyr rhan-amser yn ei chael yn anodd iawn i gael mynediad i gefnogaeth yn y brifysgol ar gyfer pethau fel gofal plant, mynediad i i gyngor, oriau agor y llyfrgell ... Diffyg cyllid a diffyg cefnogaeth yw'r ddau beth sy'n sefyll allan fel rhwystrau. Disgwyliadau yw llawer ohono neu ddiffyg ystyriaeth neu ddealltwriaeth o gyd-destun myfyrwyr rhan-amser: yn fy mhrofiad i fe fyddai myfyrwyr rhan-amser yn cael gwaith cartref ar ddydd Llun a gofyn iddyn nhw ei roi'n ôl ar ddydd Mercher. Nawr medrai hynny fod yn iawn ar gyfer myfyriwr llawn-amser ond mae'n anodd iawn os ydych yn fam sengl gyda swydd lawn-amser. Nid yw pobl sydd wedi bod yn academyddion traddodiadol ar hyd eu hoes o reidrwydd yn gyfarwydd â realaeth bywyd y fam sengl honno. Mae'n fater i'r prifysgolion i hyfforddi eu staff yn y materion yma a dyw hynny ddim yn digwydd yn ddigon aml'.

'Mae SAU yn gwybod am y broblem ond yn methu, neu efallai ddim yn fodlon, i roi'r adnoddau i fynd i'r afael â'r materion cefnogaeth. Efallai fod angen rhyw fath o *critical mass* o fewn sefydliadau cyn bod pethau'n digwydd'.

4.130 Fel y nodwyd eisoes, yn ogystal â Hepgor Ffi CCAUC, roedd llawer o SAU yn cynnig hepgor neu ddileu ffi i fyfyrwyr rhan-amser digyflog neu ar incwm isel, ond o fewn cyd-destun ymagwedd gyffredinol anghyson at osod lefelau ffioedd. Roedd y trefniadau hepgor neu ddileu ffioedd hyn oedd yn benodol i'r SAU ei hun yn aml yn cael ar gael i lawer mwy o fyfyrwyr na Hepgor Ffi CCAUC. Dywedodd llawer o SAU fod gan fyfyrwyr rhan-amser hefyd fynediad i'r Cronfeydd Ariannol wrth Gefn ar sail unigol.

4.131 Mae hefyd yn werth nodi y dywedwyd fod cyfran sylweddol o fyfyrwyr rhan-amser mewn nifer o SAU yn rhan o staff y Sefydliad ei hunan, gydag eithriad o ffioedd yn aml yn rhan safonol o'r contract cyflogaeth. Yn wir, yn Ne Orllewin Cymru, mae tri SAU yn gweithredu trefniant lle mae gan staff pob SAU fynediad i ddarpariaeth ym mhob un o dri SAU ar sail hepgor ffi.

Effaith y Dirwasgiad: Gorffennol a Dyfodol

4.132 Soniodd cyfweleion i'r dirwasgiad gael nifer o effeithiau ar ddarpariaeth o fewn SAU. Yr amlycaf oedd anhawster cynyddol i ddarbwylllo cyflogwyr, yn neilltuol fusnesau bach a chanolig, i fuddsoddi mewn dysgu (a ystyriwyd eisoes yn Adran 4.5 uchod). Dywedodd un cyfwelai oedd yn ymwneud yn helaeth â darparu dysgu gydag achrediad a heb achrediad i gyflogwyr:

'Mae'n amlwg ein bod wedi colli rhai cleientiaid posibl, efallai fod eraill wedi torri'n ôl ac nid oes unrhyw amheuaeth na fu'n amser anodd (efallai yr amser anghywir) i ddilyn y dull gweithredu a wnaethom. Ond rydym hefyd yn cael ymdeimlad fod llawer o gyflogwyr yn cymryd safbwynt tymor hwy ac yn edrych ar y manteision tymor hwy a bu hyn yn ddefnyddiol iawn. Byddwn yn dweud ar hyn o bryd fod nifer yr ymholiadau'n cynyddu ac mae hynny'n awgrymu ein bod wedi dod drwy'r gwaethaf'.

4.133 Fodd bynnag credid, efallai yn fwy arwyddocaol, fod y cynnydd mawr mewn pobl ifanc yn gwneud cais am leoedd llawn-amser yr oedd (am y rhesymau ariannol a drafodwyd uchod) yn tueddu i ostwng tueddiad SAU i ddatblygu a chynnig darpariaeth ran-amser. Nododd un SAU gyda record gref o gyflenwi dysgu seiliedig ar waith fod brwydrau caled iawn o fewn yr Uwch Dîm Rheoli yn y SAU am p'un ai i ymateb i'r lefelau a safon gynyddol ceisiadau UCAS drwy gwtogi ar y gyfran o niferoedd credid a ddyrennir i ddysgu rhan-amser.

4.134 Ymhellach, awgrymodd nifer o gyfweleion, gyda diweithdra yn cynyddu yn fwy cyffredinol yn y boblogaeth, y bydd tueddiad i fyfyrwyr mwy aeddfed heb brofiad o addysg uwch i wneud cais am leoedd llawn-amser, yn hytrach nag ystyried opsiynau rhan-amser, tra (mewn rhai achosion) bod lleihâd mewn incymau ac ansicrwydd swyddi yn gostwng tueddiad rhai gyda swyddi i ystyried

cymryd beichiau ariannol ychwanegol megis ffioedd ar gyfer cyrsiau rhan-amser addysg uwch. Mewn geiriau eraill roedd newid ar ochr alw'r hafaliad yn ogystal â'r ochr gyflenwi. O'r safbwynt hwn, dywedodd rhai bod y gostyngiad mewn darpariaeth ran-amser a welwyd yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn ymateb hollol naturiol i'r cylch economaidd.

- 4.135 Ar y llaw arall, credai rhai cyfweleion y gall fod tueddiad wedi bod i rai myfyrwyr ar fudd-daliadau i 'chwarae'r system' drwy astudio'n fwy neu lai yn llawn-amser (er enghraifft, 110 credyd) ond yn parhau i hawlio budd-daliadau a hefyd yr hepgor ffioedd. Credid, ar yr ymylon o leiaf, y medrai hyn fod wedi bod â rhan yn y cynnydd tebygol mewn niferoedd credydau cyfartalog fesul myfyriwr rhan-amser.

Cynlluniau Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer y Dyfodol

- 4.136 Roedd barn gymysg yn nhermau tebygol darpariaeth ran-amser yn y dyfodol. Dadleuodd lleiafrif y cyfweleion y byddai darpariaeth ran-amser yn anochel yn ailddechrau tyfu, gan sôn am y tueddiadau demograffig a fyddai'n gostwng y galw am leoedd traddodiadol llawn-amser, y cwmpas am lawer mwy o ymrwymiad gyda chyflogwyr a'r angen i SAU gynyddu'r gyfran o incwm a gynhrychir o ddarpariaeth bwrpasol yn annibynnol o gyllid cyhoeddus:
- 'Dangosodd darpariaeth draddodiadol ran-amser (y cyrsiau sydd yn union yr un fath â'r rhaglenni llawn-amser cyfatebol ond dros gyfnod hirach) wedi gostwng dros y blynyddoedd. I'r graddau nad yw bellach yn flaenoriaeth strategol i ni ... ond yn erbyn y tueddiad hwnnw mae'r tueddiad yn bendant tuag at roi mwy o flaenoriaeth i astudiaeth ran-amser, ond mae'n awr yn fwy am ddysgu seiliedig ar waith, cyrsiau byr yn hytrach na'r hyn y medrech ei alw yn gyrsiau traddodiadol ... Mae'n rhaid i ni gydnabod fod y diwylliant yng Nghymru yn newid, fod datblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei gydnabod fel rhywbeth y mae'n rhaid i fusnesau ei wneud a bod angen iddynt dalu amdano eu hunain'.
- 4.137 Roedd rhai cyfweleion yn ystyried fod graddau sylfaen yn gyfle pwysig, a dywedodd nifer y byddai'r farchnad ar gyfer dysgu ôlraddedig ran-amser yn

cynyddu, wrth iddi ddod yn gynyddol amlwg fod gwir angen gradd Meistr neu gymhwyster cyffelyb i sefydlu'r sylfaen ar gyfer gyrfa broffesiynol, gydag unigolion yn barod i dalu lefelau eithaf sylweddol o ffioedd ymlaen llaw er mwyn sicrhau dilyniant gyrfa.

4.138 Fodd bynnag, barn fwy cyffredin oedd - yn absenoldeb unrhyw newid polisi sylfaenol gan Lywodraeth y Cynulliad - fod darpariaeth ran-amser yn debygol o barhau i ddod dan bwysau difrifol, o leiaf yn y tymor byr i ganolig, wrth i SAU ymateb i'r cynnydd mewn ceisiadau am leoedd llawn-amser (a rhewi neu ostyngiad mewn niferoedd credydau ar yr un pryd fel canlyniad i doriadau mewn gwariant cyhoeddus) drwy roi blaenoriaeth i'r hyn a oedd mewn gwirionedd yn opsiwn mwy deniadol yn ariannol o symud mantol darpariaeth tuag at fyfyrwyr llawn-amser.

4.139 Yn neilltuol, roedd yn amlwg fod y SAU hynny gyda threfniadau ffransais helaeth yn amlwg yn cynllunio tynnu'n ôl. Mewn un achos o'r fath, dywedodd cyfwelai fod y SAU wedi mentro drwy ehangu darpariaeth ran-amser uwchben ei nifer credydau drwy drefniadau ffransais, gan obeithio y byddai'r 'twf yn cael ei ddilyn gan gefnogaeth ariannol gan CCAUC', ond erbyn hyn roedd yn glir na fyddai hyn yn digwydd a bod toriadau yn anochel. Dywedodd un arall fod cyfyngiadau ar gyllid addysg uwch yn arwain at ddileu cytundebau ffransais ar draws y bwrdd a bod hyn yn debygol o arwain at ostyngiad mewn cyrsiau addysg uwch rhan-amser a gyflenwir mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac felly ostyngiad yn yr addysg uwch ran-amser a ddarperir yng Nghymru yn gyffredinol.

4.140 Er mai ychydig o gyfweleion oedd yn barod i fod yn benodol am newidiadau o fewn y 'gymysgedd' o ddarpariaeth ran-amser, teimlai nifer y byddai addysg gymunedol gyda ffocws ar hamdden yn neilltuol o fregus a bod twf bychan yn debygol mewn darpariaeth gysylltiedig â thechnoleg a datblygiad proffesiynol a chyrtsiau galwedigaethol eraill.

4.141 Ar ôl dweud hyn, gwyddai llawer o gyfweleion bod yr amgylchedd polisi yn ansicr. Ystyrid fod y posibilrwydd o gyflwyno uchafbwynt ar nifer myfyrwyr

llawn-amser (oherwydd pryderon am gyllidebau cyllid myfyrwyr) yn rhywbeth fyddai'n newid y gêm oherwydd, drwy dybio fod myfyrwyr rhan-amser wedi eu heithrio, medrai SAU yn ymarferol ganfod - am y tro cyntaf fod rhan o'u dyraniad credyd wedi ei neilltuo ar gyfer darpariaeth ran-amser (drwy beidio bod ar gael i fyfyrwyr llawn-amser).

4.142 Y mater sylweddol arall ar y gorwel oedd Adolygiad Browne o gyllid prifysgolion yn Lloegr. Oherwydd natur y farchnad addysg uwch llawn-amser, credai'r rhan fwyaf o gyfweleion y byddai bron yn amhosibl i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrthod dilyn arweiniad Llywodraeth y DU os codwyd y brig ar ffioedd hyblyg. Roedd llawer llai o gonsensws am yr hyn a olygai hyn i'r cydbwysedd rhwng darpariaeth ran-amser a llawn-amser. Dadleuodd rhai, gyda ffioedd llawn-amser wedi cynyddu i £5,000 neu £6,000, y byddai'r bwlch rhwng y gallu i gynhyrchu incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a'r hyn a gynigir gan rai llawn-amser yn dod mor fawr fel na fyddai SAU yn ystyried cynnig lefelau sylweddol o ddarpariaeth ran-amser. Credai eraill, o gofio am yr incymau cyffredinol isel yng Nghymru, y byddai ffioedd ar y lefel hon yn dod yn rhwystr sylweddol i geisiadau llawn-amser, gyda hyd yn oed lawer o bobl ifanc yn dewis cyfuno astudiaeth ran-amser gyda gwaith:

'Efallai'n bennaf oll os caiff yr uchafbwyn ar ffioedd ei godi yn Lloegr a'i fod yn dilyn yma, yna gall ddod yn rhy ddrud i lawer o bobl astudio'n llawn-amser. Felly bydd rhan-amser yn ddewis arall amlwg. Y pryder yno yw y byddai'r ardaloedd Ehangu Mynediad yn cael eu taro'n arbennig o wael ar faterion fforddiadwyedd'.

4.143 Credai nifer sylweddol o gyfweleion, oherwydd y sefyllfa gymhleth hon, fod angen i CCAUC a Llywodraeth Cynulliad Cymru nid yn unig roi signalau cryfach, ond hefyd ddefnyddio dulliau eraill i hybu'r farchnad addysg uwch:

'Mae'n anodd dadlau fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud gormod i newid pethau gan nad ydynt yn rhoi cymaint â hynny o bwysau uniongyrchol ar SAU yng Nghymru yng nghyswllt darpariaeth ran-amser. Rydych chi'n teimlo fod yn rhaid i ddefnyddio'r ffon fod yn opsiwn ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad ... Mae'r cyfle yno i gydio yn y danadl'.

4.144 Fodd bynnag, a gan ddychwelyd i'r pwynt ar ddechrau'r Adran am natur amrywiol iawn darpariaeth ran-amser, pwysleisiodd cyfwelai arall yr angen i Lywodraeth y Cynulliad nid yn unig i roi blaenoriaeth i ddarpariaeth ran-amser *per se* ond hefyd wneud yn glir beth mae hyn yn ei olygu:

'Os yw'r Llywodraeth yn dewis cefnogi astudiaeth ran-amser drwy ddiwygio cyllid ar gyfer y sector yna fe fydd yn rhaid iddyn nhw benderfynu os ydyn nhw eisiau rhoi blaenoriaeth i ddysgwyr newydd, rhai sy'n dychwelyd neu rai sy'n ei wneud oherwydd diddordeb. A fydd yn fwy ar yr ochr ymgysylltu â'r gymuned neu'n fwy ar yr ochr ymgysylltu â chyflogwyr? Ai'r flaenoriaeth fydd pobl ifanc, pobl ganol oed neu bobl wedi ymddeol? Mae'r rhain i gyd yn benderfyniadau pwysig yn sut olwg fydd ar gymorth cyllid oherwydd y bydd gan y grwpiau hyn anghenion, anghenion cefnogaeth, sy'n benodol iddyn nhw'.

5 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

- 5.1 Mae'n glir y bu mater darpariaeth ran-amser mewn addysg uwch yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, yn symud yn uwch ar yr agenda polisi ers nifer o flynyddoedd, mewn ymateb i newidiadau economaidd byd-eang sy'n gynyddol yn golygu fod angen cymdeithas lle mae angen cynyddu sgiliau ac ailsgilio drwy fywyd yn hanfodol os yw unigolion ac economïau i lwyddo.
- 5.2 Ar yr un pryd, wrth geisio hyrwyddo cysyniad mwy o addysg uwch ran-amser ac annog SAU i fod yn fwy hyblyg yn y cyfuniad o gyfleoedd dysgu a gynigiant, medrid dadlau nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC bob amser wedi gwahaniaethu'n ddigon clir rhwng yr ystod eang o ddarpariaeth ran-amser y gall ac y mae SAU yn ei chynnig. Dangosodd y gwaith maes gyda SAU Cymru yn glir iawn nid yn unig fod lefelau darpariaeth ran-amser yn amrywio llawer mewn gwahanol SAU yng Nghymru ond bod hefyd amrywiaeth eithaf sylweddol yn *ystyr* darpariaeth ran-amser. Mewn rhai mae i raddau helaeth am ddulliau mwy traddodiadol o allestyn cymunedol, cynnig ail gyfle (yn bennaf ond nid mewn unrhyw fodd yn llwyr) i'r rhai a gafodd eu hallgau yn y gorffennol, a chyfleoedd ar gyfer hunan-welliant sy'n aml heb fod yn gysylltiedig gyda gwaith na'r economi. Mewn eraill, mae'n bennaf am waith wedi'i dargedu gyda chyflogwyr i deilwra darpariaeth i'w anghenion, weithiau'n defnyddio arian cyhoeddus i gefnogi hyn ac weithiau ddim (gyda, yn yr achos diweddaraf, y dysgwyr heb gael eu cofnodi yn y data). Mewn eraill eto, mae'r ffocws i raddau helaeth ar gymwysterau proffesiynol a DPP.
- 5.3 Os nad yw'r polisi hyd yma yn gwneud cyfiawnder yn llwyr â chymhlethdod y darlun, mae hefyd yn wir y medrai honiadau braidd yn eang fod cyswllt cyfannol rhwng darpariaeth ran-amser ac agendâu Ehangu Mynediad a'r Drydedd Genhadaeth, er yn sylfaenol wir, hefyd fod yn colli'r pwynt ei bod yn eithaf posibl i SAU gael polisiâu a strategaethau cadarn ar y ddau yma heb roi blaenoriaeth i ddarpariaeth ran-amser:

- Mae ffocws Ehangu Mynediad yn aml ar godi uchelgais disgyblion ysgol mewn ardaloedd lle mai ychydig iawn o bobl ifanc sy'n mynd i SAU i ystyried hyn fel opsiwn – mewn geiriau eraill, hyrwyddo defnyddio'r dull traddodiadol o addysg uwch ond ymysg grwpiau heb fod yn draddodiadol o ddysgwyr. Mae hyn yn hollol ddilys gan nad oes unrhyw reswm pam na fyddai'n well gan ymadawr ysgol 18 oed o ardal gymharol amddifadus gael darpariaeth ran-amser o gymharu ag ymadawr ysgol 18 oed o ardal cymharol lewyrchus;
- yn nhermau'r Drydedd Genhadaeth, mae datblygu sgiliau yn fwy cyffredinol yn aml yn ffurfio rhan cymharol fychan o weithgareddau o'r fath, a medrai SAU ddadlau'n ddilys fod gan gyflogwyr fwy o ddiddordeb mewn SAU yn darparu graddedigion i fynd i waith ac fel ffynonellau arbenigedd ymchwil yn hytrach na darparwyr hyfforddiant.

5.4 Ar y llaw arall, nid oes cysylltiad agos rhwng pob darpariaeth ran-amser â blaenoriaethau ehangu mynediad neu hyrwyddo economi gryfach:

- medrid dadlau nad yw peth darpariaeth ran-amser (er enghraifft, beth darpariaeth gymunedol sydd i raddau helaeth yn denu graddedigion wedi ymddeol) yn ffitio o fewn y naill agenda na'r llall, er y medrai fod â llawer o fuddion cymdeithasol;
- bydd gan fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio am gymwysterau proffesiynol yn gyffredinol broffil economaidd-gymdeithasol ac addysgol sy'n gwyro mwy tuag at y rhai 'gyda' addysgol na'r boblogaeth fyfyrwyr llawn-amser;
- mae'r rhai sy'n dilyn pynciau dyniaethau ar sail ran-amser wrth ochr myfyrwyr llawn-amser yn manteisio yn union yr un faint o astudiaeth sy'n berthnasol i'w rhagolygon hirdymor o wneud cyfraniad economaidd.

Felly medrid dadlau fod angen i bolisi fod yn fwy miniog ac eglur.

5.5 Ar yr un pryd, mae ein dadansoddiad o'r data, ynghyd â'n gwaith maes, yn awgrymu er efallai nad oes bygythiad i fodolaeth darpariaeth ran-amser, gan ei fod yn rhy sylfaenol i genhadaeth (a, medrid dadlau, gyfran marchnad) rhai SAU, mae perygl go iawn y bydd cyfanswm darpariaeth yn parhau i ostwng dros yr ychydig flynyddoedd newydd yn absenoldeb newidiadau clir i bolisi. Mae cynnwys dysgwyr Cymraeg i Oedolion yn y data wedi cuddio cwmp yn

nifer dysgwyr rhan-amser, yn arbennig ar lefel israddedig yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a (gydag eithriad y Brifysgol Agored yng Nghymru), gwelodd y SAU hynny gyda'r proffil cryfaf yn nhermau darpariaeth ran-amser fwy o gwmp yn y gyfran o ddarpariaeth a gaiff ei darparu'n rhan-amser.

- 5.6 Wrth fynd i'r dyfodol, ymddengys fod darpariaeth ar ffransais drwy Sefydliadau Addysg Bellach yn arbennig o fregus i doriadau. Mae darpariaeth ran-amser yn neilltuol bwysig ar gyfer cyrraedd darpar fyfyrwyr hŷn (gyda 81% o'r holl fyfyrwyr llawn-amser dan 25, o gymharu â 21% o fyfyrwyr rhan-amser) ac yn denu cyfran uwch o fyfyrwyr sy'n fenywod. Ond bu dysgu rhan-amser yng Nghymru yn llai llwyddiannus yn nhermau cyrraedd pobl mewn cymunedau dan anfantais ac ymddengys ei fod yn canolbwytio ar y dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol.
- 5.7 I ryw raddau roedd y symud ymaith o ddysgu rhan-amser wedi cychwyn cyn y dirwasgiad (gyda'r ddarpariaeth israddedig ran-amser yn nhermau gwir nifer dysgwyr wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2004/5), er ei bod yn amlwg fod y cynnydd mawr mewn ceisiadau i UCAS yn awr yn gorfodi, neu yn caniatáu, i SAU sydd hyd yma wedi defnyddio darpariaeth ran-amser fel ffordd o unioni ar gyfer lefelau is o geisiadau i ail-fantoli eu darpariaeth tuag at fyfyrwyr llawn-amser. Mae hyn yn awgrymu efallai mai'r mater mwyaf sylfaenol yma yw'r cymhelliant ariannol a gynnigir gan ffioedd amrywiol, ac i'r gwrthwyneb, y ffaith fod SAU yng Nghymru yn ei chael yn anodd, os nad yn amhosibl, i godi *pro rata* yr un lefelau ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau, hyd yn oed lle mae'r cyflogydd yn talu'r hyn sydd (o gofio'r defnydd o greydau ariannu CCAUC) yn ddim ond cost weddilliol o ddysgu.
- 5.8 Ar yr un pryd, mae'n ddiddorol yr ymddengys fod y tueddiad mewn nifer cyfartalog credydau fesul dysgwr mewn blynyddoedd diweddar wedi symud yn y cyfeiriad *gwahanol* i niferoedd dysgwyr, gyda chynnydd mawr yn nifer cyfartalog credydau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wrth i nifer y myfyrwyr rhan-amser a ymrestrodd ostwng. Nid yw'n rhwydd canfod p'un ai yw hyn yn ganlyniad SAU yn lleihau nifer cyrsiau byr ar gyfer busnesau neu

gyrsiau credyd isel mewn addysg gymunedol neu'n ganlyniad ffactorau eraill, megis newid yng nghydbwysedd cyrsiau israddedig ac ôlraddedig.

- 5.9 Roedd cyfweleion yn gytûn, er bod cyllid Graham yn rhoi peth cefnogaeth ar gyfer mesurau i fynd i'r afael â rhai o anghenion penodol dysgwyr rhan-amser, mai'r ffordd y mae'r fantol rhwng costau ac incwm yn ei gwneud yn economaidd resymol i roi blaenoriaeth i ddarpariaeth lawn-amser (lle medrir cael niferoedd digonol) yw'r un rhwystr mwyaf i ddatblygu darpariaeth ran-amser ymhellach. Ond mae rhwystrau eraill, yn cynnwys diffyg unrhyw 'borth' i'r system addysg uwch (heblaw sefydliadau unigol eu hunain) ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn astudiaeth ran-amser i adlewyrchu rôl UCAS ar gyfer ymgeiswyr llawn-amser, diffyg cae chwarae gwastad yng nghyswllt cyllid myfyrwyr ac, i ryw raddau, fynediad i gyfleusterau megis llyfrgelloedd a gwasanaethau cefnogaeth. Mae hefyd dybiaeth ddiwylliannol eang fod prifysgolion yn dal i fod am addysgu pobl ifanc ar sail lawn-amser a'r ffaith, i leiafrif sylweddol o SAU o leiaf, fod darpariaeth ran-amser yn dal i fod yn ymylol i'r hyn a dybiant yw eu cenhadaeth.
- 5.10 Ymddengys hefyd fod SAU yn ei chael yn anodd, os nad yn amhosibl, i siarad am alw cudd a bod barn gref, yn neilltuol oherwydd y diffyg cyffredinol o ymwybyddiaeth am y rôl ac amrywiaeth darpariaeth ran-amser a all ac a wneir ar gael yn y boblogaeth yn gyffredinol, bod cyflenwad yn dal i fod ar y cam o lunio galw yn hytrach na'r ffordd arall o amgylch.
- 5.11 Ymddengys bod hefyd - eto gydag eithriad amlwg y Brifysgol Agored yng Nghymru - ddiffyg buddsoddiad mewn dysgu o bell, ac ymddengys hyn yn un rhan o ddarpariaeth addysg uwch lle mae Cymru yn allforiwr net o ddysgwyr, tra heblaw am Gymraeg i Oedolion, mae darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn gyfyngedig iawn, yn bennaf (ond nid bob amser) yn fwy cyfyngedig nag sy'n wir am fyfyrwyr llawn-amser.
- 5.12 Fodd bynnag, mae hefyd yn glir y cynhaliwyd yr ymchwil hwn ar adeg lle mae'r amgylchedd polisi ar gyfer addysg uwch ymhell o fod yn sefydlog, gyda llyw clir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fod angen system addysg bellach sydd wedi

ei hail-siapio'n sylweddol a gyda ffocws rhanbarthol a'i bod yn debygol y rhoddir uchafrif ar niferoedd myfyrwyr llawn-amser (a sbardunwyd, fodd bynnag, gan broblemau yn y gyllideb cyllid myfyrwyr yn hytrach na materion sy'n unioingyrchol gysylltiedig gyda gallu SAU i ymateb i bolisi) a all yn ymarferol neilltuo darpariaeth ran-amser.

5.13 Yn y sefyllfa hon, ac yng ngoleuni ein hymchwil, yr ydym felly'n argymhell:

Polisi Cyffredinol

5.14 **Argymhelliad 1:** Bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC ystyried a rhoi manylion llawnach ar y mathau o ddarpariaeth ran-amser y maent yn ei gwerthfawrogi'n neilltuol ac yn dymuno ei hyrwyddo, yn seiliedig ar ystyried y mathau darpariaeth a ddynodwyd yn Adran 4 yr adroddiad yma.

5.15 **Argymhelliad 2:** Yng ngoleuni'r drafodaeth yn dilyn o Argymhelliad 1 ac yng nghyd-destun uchafswm posibl ar nifer myfyrwyr llawn-amser, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC ystyried p'un ai ydynt eisiau a hefyd yn medru neilltuo credydau ar gyfer rhai mathau o ddarpariaeth ran-amser. Mae'n bwysig cydnabod y gall unrhyw ddiogelu cynhwysfawr/neilltuo ar gyfer darpariaeth ran-amser *per se* fod â chanlyniadau croes i'r hyn a fwriadwyd.

5.16 **Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC gydweithio i ystyried sut y medrir cynnig ystod ehangach o opsiynau dysgu rhan-amser o bell i ddysgwyr. O gofio am y gost a'r sgiliausydd eu hangen i ddatblygu dysgu o bell effeithiol, yn neilltuol ar lefel is-raddedig, mae dadl gref dros gydnabod profiad unigryw'r Brifysgol Agored yng Nghymru wrth ddatblygu, cyflenwi a chefnogi darpariaeth o'r fath.

5.17 **Argymhelliad 4:** Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC, gan weithio gyda Phartneriaethau Ymgeisio yn Uwch, ystyried p'un ai oes angen ail-fantoli gwaith Partneriaethau tuag at fwy o bwyslais ar oedolion sy'n ddarpar ddysgwyr, o gofio am y dystiolaeth fod myfyrwyr rhan-amser yn llai tebygol o ddod o ardaloedd ehangu mynediad na dysgwyr llawn-amser.

Cyllid SAU

5.18 Argymhelliad 5: Yng nghyd-destun y bwriad a fynegwyd i symud tuag at system gyllido lle mae'r rhan fwyaf o'r cyllid a roddir i SAU yn cynnwys cyllid cenhadaeth yn hytrach na chyllid fformiwla, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio gyda CCAUC, ystyried ymhellach os oes achos dros bremiwm rhan-amser yn lle, neu'n ychwanegol, at gyllid presennol Graham er mwyn gwrthbwysu'r ffaith na fedrir cyflawni lefelau ffioedd *pro rata* ar gyfer y rhan fwyaf o ddarpariaeth, o gofio am y gofyniad fod myfyrwyr rhan-amser (neu eu noddwyr) yn talu ffioedd ymlaen llaw.

5.19 Argymhelliad 6: Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gadw golwg agos iawn ar gynnydd Adolygiad Browne ac i fodelu'r hyn y mae gwahanol ddeilliannau yn debygol o'i olygu ar gyfer SAU Cymru. Medrai codi'r uchafswm ar ffioedd amrywiol fod ag effeithiau enfawr ar addysg uwch yng Nghymru.

Darpariaeth i ateb galw cyflogwyr

5.20 Argymhelliad 7: Wrth geisio hyrwyddo darpariaeth ran-amser, yn neilltuol darpariaeth â ffocws ar ddiwallu anghenion cyflogwyr, dylai Llywodraeth y Cynulliad a CCAUC ystyried os mai ceisio gorfodi dull gweithredu cyffredin ar bob SAU yw'r dull cywir. Yn hytrach, gan fynd rhagddo â'r dull gweithredu rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg, byddai'n opsiwn gweithio gyda SAU i ddynodi pa sefydliadau sy'n dymuno rhoi blaenoriaeth i'r genhadaeth hon ac yn benodol roi'r dasg i nifer fechan o SAU i arwain ar ymgysylltiad cyflogwyr yn eu rhanbarth, gan weithio'n agos gyda Sefydliadau Addysg Bellach, darparwyr preifat a Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hunan. Gall hyn olygu fod angen peth ailddyrannu niferoedd credydau rhwng SAU.

5.21 Argymhelliad 8: Yng ngoleuni'r dystiolaeth fod SAU yn aml yn rhoi darpariaeth sydd yn cyfeirio'n uniongyrchol iawn â chyflogwyr yn defnyddio credydau CCAUC a'r lefelau ffi isaf, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut mae hyn yn cyd-fynd gyda'i pholisi newydd ar gyfer ffioedd. Gyda CCAUC, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ystyried pa mor briodol ac

ymarferol yw datblygu polisi ffioedd neu dybiaeth ffioedd ar gyfer dysgu rhan-amser addysg uwch a ddarperir.

Darpariaeth ran-amser a dysgwyr unigol

5.22 Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydnabod nad yw cymryd dull gweithredu dethol i ddynodi SAU sydd â chenhadaeth i hyrwyddo a darparu dysgu cysylltiedig â gwaith yn golygu na ddylai SAU eraill gael eu galluogi i barhau i gynnig darpariaeth o fath addysg gymunedol. Fodd bynnag, yn neilltuol yng nghyswllt darpariaeth ar lefel addysg bellach, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried os yw'n teimlo y dylai SAU fod yn ceisio meithrin dysgwyr 'cartref' neu os dylai SAU fod yn cydweithio'n agosach gyda darparwyr eraill i sicrhau bod llwybrau dilyniant ar gael ar gyfer dysgwyr a gafodd eu hallgau yn flaenorol sydd wedi dechrau ar lwybrau dysgu gydol oes ar lefelau is ond sydd ag uchelgais addysg uwch.

5.23 Argymhelliad 10: Ar gyfer dysgwyr unigol yn neilltuol, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC ystyried os yw'n bosibl datblygu porth cenedlaethol ar gyfer rhai sydd â diddordeb mewn dysgu rhan-amser i ategu system UCAS. O gofio am yr argymhellion yn y cyfeiriad hwn gan Adolygiad King, dylid trafod hyn yn y lle cyntaf gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill. Fodd bynnag, os ymddengys mai ychydig o debygrwydd sydd y cyflwynir system ar draws y DU yn y tymor byr, ac oherwydd tueddiad llawer uwch myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru i astudio yn SAU Cymru, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried os medrir cyflwyno porthol Cymraeg. O gofio am adnabyddiaeth brand y Brifysgol Agored, dylai'r Brifysgol Agored yng Nghymru fod â rôl allweddol mewn unrhyw ymagwedd o'r fath.

5.24 Argymhelliad 11: Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut y medrir gwneud y system cyllid yn decach o safbwynt dysgwyr rhan-amser sy'n ariannu eu hastudiaethau eu hun, yn arbennig o gofio fod nifer gynyddol o fyfyrwyr 'llawn-amser' hefyd yn gweithio tra byddant yn astudio. O gofio am gyfyngiadau ariannol, mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng y myfyrwyr hynny

a'r rhai a gaiff eu hariannu gan eu cyflogwyr, hyd yn oed lle mae'r berthynas yma'n un nad yw'n cynnwys y SAU.

5.25 Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC ystyried p'un ai oes angen iddynt gynnig arweiniad clir ar ddisgwyliadau yn nhermau oriau agor cyfleusterau craidd a gwasanaethau cefnogaeth myfyrwyr i SAU Cymru.

Ymchwil Bellach a Data

5.26 Argymhelliad 13: O gofio am y diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o i ba raddau y mae nifer y dysgwyr rhan-amser nad ydynt yn cwblhau a dim yn symud ymlaen ymhellach yn ganlyniad, ar y naill law, nodau personol ar ddechrau 'pennod' astudiaeth neu ar y llaw arall brofiadau negyddol yn ystod dysgu, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a/neu CCAUC gomisiynu ymchwil hydredol yn dilyn sampl o ddysgwyr rhan-amser o ddechrau eu dysgu dros nifer o flynyddoedd.

5.27 Argymhelliad 14: Oherwydd yr anhawster o asesu galw cudd, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried os oes cwmpas i ddefnyddio dulliau arolwg poblogaeth-gyfan i fesur dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o bosibilrwydd dilyn astudiaeth ran-amser ar lefel Addysg Uwch. Medrai hyn olygu defnyddio cwestiynau yn yr arolwg 'Byw yng Nghymru', er enghraifft, defnyddio arolwg Omnibus arall neu gomisiynu arolwg penodol. Fodd bynnag, sylweddolwn y gall costau gwaith o'r fath fod yn rhy uchel o ystyried y defnydd tebygol a wneid o'r wybodaeth.

5.28 Argymhelliad 15: Nid ydym wedi'n darbwylo fod y ffordd y caiff dysgwyr Cymraeg i Oedolion yn dilyn cyrsiau dan Lefel 4 eu cynnwys yn nata HESA yn ddefnyddiol a dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC ystyried os oes ffyrdd cliriach o gynnwys hyn o fewn y data.